



# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democratiaeth**  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 25AIN CHWEFROR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@Gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 17 Chwefror 2021)

## **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

### **AELODAETH (18)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards  
Linda Morgan

Annwen Hughes  
Edgar Wyn Owen  
Simon Glyn

Aled Wyn Jones  
Gethin Glyn Williams  
Berwyn Parry Jones

Dafydd Owen

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Kevin Morris Jones  
Elwyn Jones  
Angela Russell

Mike Stevens  
Elfed Powell Roberts

### **Llais Gwynedd (2)**

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels

Owain Williams

### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd  
Stephen W. Churchman

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### **Aelodau Eraill a Wahoddwyd**

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 10fed Rhagfyr, 2020 fel rhai cywir.

## 5. RHAGLEN WAITH CYNLLUN GWIETHREDU HAWLIAU TRAMWY 10 - 86

**AELOD CABINET: Cynghorydd Gareth W Griffith**

I ystyried yr adroddiad.

## 6. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID 87 - 167

**AELOD CABINET: Cynghorydd Gareth W Griffith**

I ystyried yr adroddiad.

## 7. GWASANAETH GWARCHOD Y CYHOEDD - GWAITH YN YSTOD Y PANDEMIG 168 - 174

**AELOD CABINET: Cynghorydd Gareth W Griffith.**

I ystyried yr adroddiad.

---

## Pwyllgor Craffu Cymunedau 10 Rhagfyr 2020

---

### Presenoldeb:

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Elfed Roberts (Cadeirydd), Angela Russell, Mike Stevens, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams

### Swyddogion yn bresennol:

Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Lowri Haf Evans a Natalie Jones (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5:

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr / Aelod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn) a Nonn Hughes (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6:

Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Dafydd Gibbard (Pennaeth Tai ac Eiddo), Heledd Jones (Arweinydd Tîm (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn) a Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Linda Morgan

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Cynghorwyr Aled W Jones, Annwen Hughes, Kevin M Jones, Angela Russell, Gethin G Williams ac Elwyn Jones yn eitem 7 ar y rhaglen gan eu bod yn berchen neu yn perthyn i rywun agos sydd yn berchen tŷ gwyliau

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

### 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 22ain o Hydref 2020, fel rhai cywir.

### 5. Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn



Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Ymhelaethwyd ar gynnwys yr adroddiad a rhoddwyd diweddariad byr ar y datblygiadau o fewn y meysydd blaenoriaeth ynghyd a gwaith yr is-grwpiau sydd yn gyfrifol am y meysydd hynny. Ers mis Mawrth 2020, yn wyneb pandemig covid-19, eglurwyd bod cyrff cyhoeddus wedi gorfod addasu i ymateb i'r argyfwng iechyd drwy newid eu ffordd o weithio a chysylltu gydag eraill. Cyfeiriwyd at weithdy a gynhaliwyd ym mis Medi 2020 i drafod rôl y Bwrdd yn eu gwaith o adfer cymunedau o'r pandemig.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gweithdy addaswyd ffrydiau gwaith yr is-grwpiau presennol ynghyd a'u rhaglenni gwaith a chytuno ar gerrig milltir. Cytunwyd hefyd i wneud gwaith ymchwil pellach mewn rhai meysydd (todi ariannol a diweithdra ymhlith pobl ifanc) er mwyn canfod y sefyllfa ddiweddaraf. Bydd ganfyddiadau'r gwaith ymchwil hynny yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 16eg Rhagfyr 2020.

Canfyddiad arall y gweithdy oedd bod nifer o'r partneriaid yn ymateb i anghenion llesiant ein cymunedau fel sefydliadau unigol. Eglurwyd bod y BGC yn gadarn eu bod am osgoi dyblygu gwaith, a'u bod yn ymchwilio i sut y gallent weithredu heb ddyblygu'r gwaith a wneir gan bartneriaid unigol er mwyn ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol. Un modd o osgoi dyblygu gwaith yw bod y Bwrdd o bryd i'w gilydd yn gwahodd partneriaid eraill i roi cyflwyniadau am eu gwaith fel y Bartneriaeth Sgiliau a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Os am graffu gwaith y Bwrdd, bod angen gwybodaeth am fesuriadau, targedau, data, llwyddiannau
- Pam nad yw'r Heddlu yn rhan o'r Bwrdd?
- Bod diffyg tai ar gael i brynu yn lleol
- Cefn gwlad yn dioddef gyda gwasanaethau yn symud neu cau mewn cymunedau
- Ethos Cymdeithasau Tai oedd prynu tai yn lleol yn hytrach nag adeiladau i bobl leol - angen canolbwyntio ar yr elfen o ail adeiladu i warchod yr iaith a sicrhau bod unrhyw arian sydd yn cael ei dderbyn e.e., Premiwm Treth Cyngor ar gyfer ail gartrefi yn cael ei fuddsoddi yn yr ardaloedd hynny sydd yn dioddef o'r effaith

Mewn ymateb i sylw nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld yr angen i gyfrannu at gostau cynnal a chadw'r arfordir mewn ymateb i gynnydd mewn defnydd / ymwelwyr o ganlyniad i'r pandemig, awgrymwyd bod angen addasu meddylfryd y Llywodraeth i ddeall bod rhai materion arfordirol tu hwnt i strategaethau Awdurdodau Lleol. Amylgwyd bod Gwynedd eisoes wedi gorfod ymdrin gyda chostau ychwanegol o gynnal a chadw'r isadeiledd o gwmpas y cynnydd mewn defnydd.

Ategwyd bod Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn nodi bod rhaid i gyrrff cyhoeddus ganolbwyntio ar sut mae eu penderfyniadau yn mynd i gael effaith hirdymor, gan gydweithio i atal problemau rhag digwydd a chydabod na all unrhyw gorff cyhoeddus unigol ymateb i'r heriau mawr. Cytunwyd yr angen i drafod strwythur ymwelwyr a nodwyd bod gweithgor wedi ei sefydlu i edrych ar ddiffyg y ddarpariaeth bresennol ynghyd a cheisio cyfundrefn ar gyfer twristiaeth gynaliadwy.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chael Cyngor Gwynedd i arwain ar faterion tai yn hytrach na Phrif Weithredwr Cwmni Tai Masnachol, nodwyd bod Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Tai i'r Cabinet ar y 15fed o Ragfyr yn amlinellu cynlluniau addas i wireddu gweledigaeth y Cyngor o sicrhau tai addas i drigolion y Sir. Bydd yr Adran Tai ac Eiddo yn cydweithio gyda Chymdeithasau Tai i gwblhau cynlluniau penodol fyddai'n gwrthio'r cynllun ymlaen. Ategwyd mai gwaith yr Is-grŵp Tai yw sefydlu

rhaglen arloesol o adeiladu tai newydd fforddiadwy yn y Sir e.e., adeiladu tai carbon isel, neu dai 'wedi eu gwneud yn barod' yn Gymru. Pwysleisiwyd mai gwaith yr Is-grŵp yw edrych ar gyfleoedd newydd neu ddulliau o adeiladu gyda Strategaeth Tai Gwynedd a Chynllun Gweithredu Tai Gwynedd yn gadarn yn nwylo Cyngor Gwynedd.

Mewn ymateb i sylw nad oedd is-grŵp tlodi er wedi ei adnabod yn faes blaenoriaeth, nodwyd bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dymuno edrych ar dlodi ond bod dyblygu gwaith yn bryder. Ategwyd mai'r bwriad yw ceisio trefniadau i sicrhau lle mae bylchau ac uchafu'r hyn a ellid ei wneud i daclo tlodi. Atgoffwyd yr Aelodau bod gwaith ymchwil pellach yn cael ei wneud er mwyn canfod y sefyllfa ddiweddaraf gan gyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar Ragfyr 16eg 2020.

## **PENDERFYNWYD**

### **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau.**

#### **6. Diweddariad - Adolygiad Parcio**

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran Amgylchedd a rhoddwyd trosolwg ar ei gynnwys. Nodwyd prif ddiben yr adroddiad sef bod y strategaeth bresennol, y mabwysiadwyd yn 2015, yn dod i derfyn yn 2021. Atgoffwyd y pwyllgor bod tasglu parcio wedi ei sefydlu i ystyried yr angen i gynyddu incwm ynghyd a'r heriau a chyfleoedd newydd sydd wedi codi ers y strategaeth parcio ddiwethaf gael ei sefydlu ym mis Chwefror 2015.

Adroddwyd bod dau brif her gan y grŵp tasg sef i gynyddu incwm i'r nod o £400,000 ag yn ail i gyflawni hynny heb effeithio'n ormodol ar drigolion Gwynedd. Eglurwyd bod sawl newid wedi bod yn arferion parcio dros y blynyddoedd diwethaf gan gynnwys;

- Mwy o dwristiaid ac o ganlyniad mwy o alw ar lefydd parcio.
- Mwy o geir trydan yn cael eu prynu ac felly cyfle i osod mannau gwefru ceir.
- Cynnydd yn y defnydd o daliadau di gyffwrdd, amlygu'r angen i uwchraddio'r peiriannau talu yn y meysydd parcio.
- Cynnydd mewn cartrefi modur yn parcio mewn mannau amhriodol.

Ymhelaethwyd ar y pwyntiau uchod gan nodi'r angen i gynnig darpariaeth talu a cherdyn yn gyfochrog a thaliadau arian. Nodwyd bod darpariaeth talu dros y ffôn wedi ei sefydlu, ond ei fod yn ddibynnol ar ffon symudol a signal digonol i wneud y taliadau. Fodd bynnag, dengys bod cynnig y ddau opsiwn yn mynd i hwyluso codi mwy o incwm yn y dyfodol gan fod modd i bobl sydd heb arian ddefnyddio'r meysydd parcio.

Adnabuwyd y pryderon sydd wedi eu hamlygu'n ddiweddar ynghylch cerbydau gwyliau a'r cynnydd a fu wrth i gyfyngiadau rhwystro teithiau tramor. Eglurwyd nad oedd hwn yn fater hawdd i'w ddatrys a bod y broblem wedi bodoli ers rhai blynyddoedd bellach. Nodwyd bod datrysiadau megis, creu is-ddeddfau, cynyddu swyddogion gorfodaeth a hefyd addasu'r meysydd i hwyluso'r parcio cerbydau gwyliau ond gan godi ffioedd derbyniol arnynt am y gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at argymhelliad y grŵp tasg parcio o godi ffioedd 10% o fewn y meysydd parcio fel dull o gynyddu incwm. Ategwyd at hyn bod y grŵp tasg wedi adnabod na ddylid codi ffioedd ar barcio mewn mannau anabl ac felly byddai'r rhain yn parhau am ddim.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd pryder ynghylch cerbydau gwyliau yn parcio mewn mannau heb gyfleusterau ac mewn mannau gwyddonol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Nodwyd bod tystiolaeth o ddefnyddwyr yn gwaredu a gwastraff carthffosiaeth mewn mannau cyhoeddus.

- Cododd yr awgrym y dylid pwyso am greu is-ddeddfau er mwyn gwarchod manau aros rhag i bobl parcio eu cerbydau gwyliau yna.
- Nodwyd bod angen cefnogi busnesau carafanau lleol ac felly ni ddylid y Cyngor buddsoddi mewn cynnig gwasanaethau ym meysydd parcio ar eu cyfer.
- Teimlai rhai aelodau bod y tocyn blynyddol am £140 yn swm uchel i rai talu ar unwaith, gan nad oes modd talu'n fisol croesawyd bod modd prynu tocyn 6 mis am hanner y pris.
- Nododd rhai aelodau bod cerbydau gwyliau yn adnodd gwerthfawr gan eu bod yn hunangynhaliol heddiw gyda chyflenwadau dwr a gwastraff yn gynwysedig. Awgrymwyd codi ffi gymharol a meysydd gwersylla fel bod cyfle i bobl parcio yn y trefi a defnyddio siopa a gwasanaethau lleol.
- Codwyd pryderon ynghylch parcio mewn rhai pentrefi, gyda chynnydd mewn tai gwyliau e.e. Airbnb, mae llefydd parcio yn cael eu meddiannu gan dwristiaid.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, cytunodd Pennaeth yr Adran Amgylchedd bod y sefyllfa cerbydau gwyliau yn bryder ers tro ond nododd ei fod yn broses hir creu is-ddeddfau er mwyn eu hatal rhag parcio. Nodwyd ei fod yn syniad cynnal sgwrs wleidyddol am y camau nesaf.

Gan gyfeirio at y tocyn blynyddol, nodwyd bod y posibilrwydd o dalu'n fisol yn anymarferol gan nad oes modd sicrhau bod taliadau yn parhau ar ôl cyhoeddi'r tocyn i'r preswylwyr. Amlygwyd bod modd prynu tocyn 6 mis mewn ymgais o ostwng y gost mewn ffordd wahanol.

Eglurodd y Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd y strwythurau ffioedd parcio gan nodi bod y tîm gorfodaeth parcio yn hunangynhaliol ar incwm dirwyon a ffioedd. Gan fod incwm wedi bod yn uwch na chostau cyflogi'r tîm, gellir dangos bod posibilrwydd i gynyddu maint y tîm, sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdopi a'r heriau parcio. Yn ogystal ag hyn, nododd y gellir defnyddio arian dros ben i ail-fuddsoddi i wella meysydd parcio ac uwchraddio'r peiriannau.

## **PENDERFYNWYD**

**Derbyn y diweddariad a chefnogi argymhelliad y Grŵp Tasg y dylid cynyddu ffioedd talu ac arddangos 10%.**

## **7. PAPUR YMCHWIL: RHEOLI'R DEFNYDD O DAI FEL TAI GWYLIU**

Cyflwynwyd gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019 oedd yn ymwneud a cheisio cyfarch sut y byddai modd cyfyngu ar faint o dai y gellid eu defnyddio at ddibenion gwyliau, gan edrych ar fesurau gweithredol mewn llefydd eraill a sut byddai modd newid y ddeddfwriaeth gynllunio er mwyn gweithredu yng Nghymru. Gofynnwyd hefyd am sylwadau'r Pwyllgor ar y gwaith cyn adrodd i'r Cabinet ar y 15fed o Ragfyr 2020.

Tynnwyd sylw, er pwrpas y gwaith, y diffiniwyd 'cartrefi gwyliau' fel;

- Unedau gwyliau a osodir yn y tymor byr: Tŷ preswyl (dosbarth defnydd C3) sydd ddim yn cael ei feddiannu'n rheolaidd ac yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol drwy ei osod ar gyfer defnydd gwyliau ar sail fasnachol.
- Ail gartref: Tŷ preswyl (dosbarth defnydd C3) sydd yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol gan y perchennog (ond ddim yn brif gartref) yn ogystal ag ymwelwyr eraill ar gyfer pwrpas gwyliau.

Cafwyd cyflwyniad manwl, ystyrion i'r gwaith ac fe drafodwyd y chwe argymhelliad. Nodwyd bod yr argymhellion yn rhoi opsiynau o ran y mecanwaith posib a ellid ei gweithredu er mwyn cael rheolaeth a lleihau effaith llety gwyliau ar gymunedau. Eglurwyd

y byddai rhai argymhellion yn cael eu trafod ar y cyd ac yn faterion i Lywodraeth Cymru eu gweithredu, tra bod modd gweithredu eraill ar lefel lleol e.e., gweithredu polisïau cynllunio lleol yn effeithiol – gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad yma yn y tymor byr ac wrth adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Diolchwyd am yr adroddiad

Amlygodd Aelod Cabinet Amgylchedd ei siom mai Dinas Caerdydd oedd yr unig Awdurdod arall oedd wedi cyfrannu i'r gwaith ymchwil, ond bod siroedd eraill wedi dangos diddordeb ers i'r adroddiad gael ei ryddhau yn gyhoeddus. Ateggodd bod un Sir eisoes wedi cyflwyno rhybuddion o gynnig o flaen eu Cyngor. Derbyniodd bod her yn wynebu'r Cyngor gan nad oedd llawer o ddiddordeb gan y Llywodraeth yn y sefyllfa ar yn o bryd, ond gyda dogfen weithredol yn cael ei chefnogi gan dystiolaeth bod modd dechrau gweithredu ac ymateb i'r her.

Nododd Pennaeth Tai ac Eiddo ei fod yn llongyfarch y tîm ar eu gwaith gan ategu bod y dystiolaeth a gasglwyd yn lladd esgusodion Llywodraeth Cymru o weithredu. O ystyried cyflwyniad Premiwm Tai, Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd ynghyd a'r gwaith ymchwil, amlygodd bod tystiolaeth bendant i osod cyfeiriad i reoli'r defnydd.

Ateggodd Aelod Cabinet Tai ac Eiddo bod y papur ymchwil yn cyflwyno ffeithiau sydd bellach yn arf i herio Llywodraeth Cymru – rhaid rheoli'r defnydd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Croesawu'r adroddiad – yn sylfaen dda i ddechrau lobio ac yn gyfle euraidd i newid y drefn a chymryd cyfrifoldeb a rheolaeth dros y sefyllfa
- Bod yr adroddiad yn cyfarch materion megis AirBnb, ond dim digon yn cael ei wneud i newid y Ddeddf Cynllunio drwy osod trothwyon i reoli – angen dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i newid y Ddeddf
- Bod yr ystadegau yn frawychus
- Bod rhaid gweithredu a herio'r Llywodraeth i wneud gwahaniaeth
- Angen mwy o fanylder am gyflogaeth ynghyd a phrisiau tai uchel mewn rhai ardaloedd - byddai hyn yn amlygu sut mae'r iaith yn colli ei thir – cadarnleoedd y Gymraeg yn colli eu Cymreictod
- Bod angen cau'r bylchau fel na ellid osgoi trefniadau rheoleiddio – gellid targedu 'unedau gwyliau tymor byr' – perchennog yn debygol o drosi yn ôl i gategori 'ail gartref' fel modd o osgoi rheolaeth
- Awgrym i fabwysiadu 'ymyrraeth' – creu dwy haen *gwyliau a lleol* fydd yn gwarchod y stoc tai lleol ac yn gyrru'r prisiau
- Angen ystyried Treth Trafodiadau Tir – cyfle i godi premiwm
- Materion tu allan i faes cynllunio y gellid eu gweithredu e.e., trethi twristiaid
- Angen rheolaeth dros 'ail gartrefi' – dim cyfleoedd na chartrefi ar gael i bobl ifanc
- Angen rheolaeth dros osod tai ac AirBnB - sicrhau safonau gosod a thacluso
- Angen cyfyngu niferoedd tai haf

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â cheisio rheolaeth dros dai haf a'r sgil effeithiau sydd yn deillio o hynny, nododd Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd bod y briff yn gyfyngedig o fod yn edrych ar ddefnydd tai marchnad agored fel tai haf / ail gartrefi. Ateggodd bod y gwaith yn cynnwys gwybodaeth fanwl a ffeithiol (a gyflwynwyd gan nifer o adrannau) sydd yn cyflwyno tystiolaeth werthfawr yn lleol ac yn genedlaethol. Amlygodd nad oedd datrysiadau hawdd i'r sefyllfa ond cyfeiriodd at waith sydd wedi ei wneud yn yr Alban fel enghraifft dda sydd wedi profi fod posib rheoli defnydd gwyliau byr dymor drwy newid deddfwriaeth gynllunio a thrwyddedu. Nododd bod rhai o'r argymhellion angen eu gweithredu ar y cyd ar lefel genedlaethol tra bod eraill yn faterion lleol lle gellid defnyddio'r dystiolaeth i addasu polisïau lleol. Derbyniodd bod

Treth Traddodi Tir hefyd yn arf arall y gellid ei defnyddio.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â Threth Twristiaid a'r ffaith nad oedd wedi ei gynnwys fel argymhelliad i'r Cabinet ei ystyried, amlygwyd bod y gwaith yma yn cael ei arwain gan Adran Datblygu'r Economi ac felly heb ei gynnwys fel un o'r prif argymhellion.

Mewn ymateb i sylw y dylid ystyried 'ail gartrefi' o fewn cynllun trwyddedu gorfodol' nodwyd y byddai hyn yn eithriadol o anodd ei reoli drwy'r gyfundrefn cynllunio o gymharu â 'llety gwyliau' sydd yn ddefnydd masnachol gyda mynd a dod lle gellir dangos ei fod yn newid defnydd. Gyda rheoli ail gartrefi yn anodd gan nad oes modd profi newid defnydd, nodwyd bod yr argymhelliad o ran deddfwriaeth cynllunio a thrwyddedu yn mynd ar ôl rheolaeth llety gwyliau byr dymor gan geisio cael darlun cywir o'r sefyllfa ar y ddaear ac ar draul hyn, i'r dyfodol, bod modd ystyried rheoli hyn drwy bolisiau cynllunio lleol.

Mewn ymateb i'r sylw bod rheoli ail gartrefi yn anodd, awgrymwyd rhoi sialens i'r Cabinet i ystyried gosod categori gwahanol. Unwaith y bydd categori yn cael ei gynnwys bydd modd ei reoli.

## **PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**
- **Diolch i'r swyddogion am gyflwyno tystiolaeth a gwybodaeth fanwl a defnyddiol a ellid ei ddefnyddio i geisio dwyn perswâd ar Lywodraeth Cymru i newid eu polisiau cynllunio.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 2.15yp.

# Eitem 5

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>25 Chwefror 2021</b>
<b>TEITL</b>	<b>CYFLWYNO DRAFFT CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Gareth W Griffith</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Dafydd Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>Derbyn adborth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu ar fersiwn drafft o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a chymeradwyo'i defnydd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.</b>

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Dogfen strategol yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) i'w ddefnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, gwella a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Paratowyd CGHT gwreiddiol Gwynedd rhwng 2004 a 2007 a chafodd ei fabwysiadu gan Y Cyngor yn Hydref 2007.
- 1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol i adolygu eu CGHT ac wedi gosod amserlen ar gyfer paratoi'r adolygiad. Yn achos Gwynedd fe ddylai'r broses o baratoi'r adolygiad fod wedi'i gwblhau'n yn ystod 2019.  
Nid yw Gwynedd, na nifer o Awdurdodau eraill wedi gallu cwblhau'r broses o fewn yr amserlen. Mae'r oedi o ganlyniad i bwysau gwaith o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad gan gynnwys y pwyslais sydd wedi ei roi i adolygiad Ffordd Gwynedd.
- 1.3 Bwriadwyd adrodd i'r Pwyllgor Craffu ar yr 2il o Ebrill 2020, nid oedd yn bosibl oherwydd cyfyngiadau Cofid.

## 2. CAMAU NESAF

- 2.1 Amgeir fersiwn drafft o'r CGHT, mae strwythur y ddogfen yn cyd-fynd a chanllawiau'r Llywodraeth ac mewn sawl ffordd mae'n debyg i'r CGHT gwreiddiol sydd ar gael ar safle we'r Cyngor.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Cynllun-Gwella-Hawliau-Tramwy.aspx>

- 2.2 Serch hynny mae'r Adolygiad yn gwahaniaethu o'r Cynllun gwreiddiol:

- Nid oes gofyn i'r Adolygiad gynnwys rhaglenni gwaith manwl gydag amcanion o gostau. Yn hytrach cyflwynir Datganiadau Gweithredu sy'n cyfleu amcanion a chyfeiriad ar gyfer y maes gwaith am gyfnod o hyd at ddeg mlynedd. Byddai'n annoeth i unrhyw Awdurdod gyflwyno rhaglenni manwl a thargedau uchelgeisiol yn wyneb yr ansicrwydd parhaus sydd ynglŷn â chyllidebau Awdurdodau Lleol. Yn hytrach bydd rhaglenni gwaith fesul blwyddyn neu ddwy yn cael eu paratoi sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Awdurdod a'r lefelau adnoddau sydd ar gael.

- Mae'r Adolygiad yn cyflwyno 3 prif thema yn hytrach na 6 fel yn y Cynllun Gwreiddiol. Dyma'r themâu'r ddogfen drafft :

**Thema A :** Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn Gwlad

**Thema B:** Y map a'r datganiad swyddogol

**Thema C:** Asesu a chwrrd ag anghenion defnyddwyr

2.3 Gofynnir am adborth a sylwadau'r Pwyllgor ar gynnwys y ddogfen drafft a hoffwn awgrymu ystyriaeth i'r canlynol :

- Oes yna feysydd sydd heb eu hystyried neu heb eu hystyried yn ddigonol ?
- Ydi'r Datganiadau Gweithredu yn cyfleu beth yw gofynion a dyheadau pobl Gwynedd am fynediad i Gefn Gwlad am y ddegawd nesa ?

2.4 Mae'n ofynnol i'r ddogfen drafft fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o ddim llai na 12 wythnos. Cyn ei chylchredeg bydd sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hymgorffori ac addasir edrychiad a diwyg y ddogfen.

### **3. ARGYMHELLIAD**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymuned i gynnig sylwadau ar y ddogfen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft ac yn amodol ar ymgorffori'r sylwadau i awdurdodi'r Adran Amgylchedd i'w defnyddio i bwrpas ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr Adran yn ystyried y sylwadau a dderbynnir a chyflwyno fersiwn terfynol o'r CGHT yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

### **4. ATODIADAU**

4.1 Atodiad 1: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (drafft)

# **ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA**

## **HAWLIAU TRAMWY**

### **Cyngor Gwynedd**

**Drafft i sylw Pwyllgor Craffu Cymuned 25 Chwefror 2021**

DRAFT



## **Cynnwys**

### **Y Weledigaeth a chyflwyno themâu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

#### **1.Cefndir**

- 1.1 Pwrpas y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- 1.2 Paratoi y CGHT newydd
- 1.3 Disgrifiad o ardal Gwynedd
- 1.4 Cyngor Gwynedd
- 1.5 Cyd-destun strategol
- 1.6 Gwasanaeth Cefn Gwlad a Ffordd Gwynedd
- 1.7 Gwerthusiad i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol
- 1.8 Rhaglen Diwygio Mynediad
- 1.9 Newid Hinsawdd

#### **2. Prif Thema A : Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy**

- 2.1 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Gwynedd
  - 2.2 Cyfrifoldebau
  - 2.3 Cyflwr y rhwydwaith
  - 2.4 Categoriadau
  - 2.5 Problemau ar Hawliau Tramwy
  - 2.6 Adnoddau ar gyfer Hawliau Tramwy
  - 2.7 Polisiâu
  - 2.8 Gorfodaeth
  - 2.9 Cynnal y Llwybr Arfordir
  - 2.10 Systemau Gwybodaeth
  - 2.11 Gweithio gyda Phartneriaid
    - 2.11.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
    - 2.11.2 Cyngorau Cymuned a Thref
    - 2.11.3 Tirfeddianwyr
    - 2.11.4 Cyfoeth Naturiol Cymru
    - 2.11.5 Grwpiau Defnyddwyr
  - 2.12 Gwirfoddolwyr
  - 2.13 Fforymau Mynediad Lleol

#### **3. Prif Thema B : Y Map a'r Datganiad Swyddogol**

- 3.1 Beth yw'r map diffiniol a'r datganiad swyddogol
- 3.2 Defnydd a phwysigrwydd y Map Diffiniol a'r Datganiad Swyddogol
- 3.3 Gorchmynion Diwygio'r Map Swyddogol
- 3.4 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus

3.5 Gorchmynion Cam Cyfreithiol

3.6 Gwallau ac anghysondebau

3.7 Ffyrdd Coll

#### **4. Prif Thema: Cwrdd â anghenion defnyddwyr**

4.1 I ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn bodloni'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol.

4.2 Anghenion cerddwyr

4.3 Anghenion beicwyr

4.4 Anghenion marchogwyr

4.5 Asesu anghenion pobl gyda nam ar eu synhwyrau a'u symudedd

4.6 Y galw am lwybrau aml ddefnydd

4.7 Teithiau a hyrwyddir gan Gyngor Gwynedd ac eraill

4.8 Bioamrywiaeth

4.9 Cynlluniau Amaeth Amgylcheddol ar ôl Brexit

Atodiadau :

Atodiad 1 – Gwerthusiad y CGHT blaenorol

Atodiad 2 - Adroddiad Ymgynghoriad Cyhoeddus

## **Y Weledigaeth a chyflwyno themâu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT)**

Gweledigaeth y Cynllun hwn yw bod gennym yng Ngwynedd fynediad hygyrch i gefn gwlad, yr arfordir a mannau gwyrdd a bod y mynediad yn addas i'w bwrpas ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

I wireddu'r weledigaeth mae 3 thema wedi eu hadnabod sy'n rhai allweddol i gyflawni'r CGHT.

### **Thema A : Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn Gwlad**

### **Thema B: Y map Map a'r Datganiad Swyddogol**

### **Thema C: Asesu a chwrdd ag anghenion defnyddwyr**

Cyflwynir Datganiadau Gweithredu ar gyfer pob thema, rhain fydd amcanion craidd y CGHT.

Pwysleisir nad oes gofyn i'r CGHT gynnwys rhaglenni gwaith manwl, yn hytrach bydd rhaglenni gwaith am gyfnodau o flwyddyn neu fwy yn cael eu paratoi gan Y Gwasanaeth Cefn Gwlad.

### 1.1 Pwrpas y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf 2000) yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) sef cynllun strategol ar gyfer reoli, datblygu a hyrwyddo eu hawliau tramwy.

Cafodd y CGHT cyntaf ei baratoi yn y cyfnod rhwng 2003 a 2007 a fe'i fabwysiadwyd yn Nhachwedd 2007. Mae cyfnod y Cynllun hwn yn ymestyn hyd at 2030.

### 1.2 Paratoi'r CGHT newydd

Yn 2016 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i Awdurdodau Lleol ar baratoi CGHT newydd. Wrth baratoi'r CGHT mae'n ofynnol yn ôl y Ddeddf i roi sylw i'r canlynol :

- Y graddau y mae'r hawliau tramwy yn ateb gofynion y cyhoedd yn awr ac yn y dyfodol.
- Y cyfleoedd y mae'r hawliau tramwy cyhoeddus yn eu darparu i bobl wneud ymarfer corff a mwynhau mathau eraill o weithgareddau hamdden awyr agored.
- Pa mor hygyrch yw'r hawliau tramwy cyhoeddus i bobl ddall neu rannol ddall a phobl a phroblemau symudedd?

Yn ychwanegol dylai'r CGHT diwygiedig sicrhau eu bod yn mynd i afael a'r canlynol :

- Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol.
- Gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith ar hyn o bryd a'i hanes
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Llesiant
- Cyfleoedd i gyfrannu at gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau eraill.

### 1.3 Disgrifiad o ardal Gwynedd

**Tirwedd** : Mae gan Wynedd dirwedd odidog, fe adlewyrchir ansawdd y dirwedd yn ddynodiadau Parc Cenedlaethol Eryri ac Ardal o Harddwch naturiol Eithriadol Penrhyn Llyn. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig er mwyn gwarchod cynefinoedd, rhywogaethau a nodweddion daearegol.

**Pobl Gwynedd** : Yn ôl cyfrifiad 2011 roedd 121,874 o bobl yn byw yng Ngwynedd, sy'n gynydd o 5,031 ers cyfrifiad 2001 gyda 65.4% yn gallu siarad Cymraeg. Roedd 49.2% o'r boblogaeth yn ddynion a 50.8% yn ferched gyda 96.5% yn disgrifio'i hunain o grŵp ethnig

gwyn ac yn bennaf yn Gymry neu o wledydd eraill y DG. Mae Llywodraeth Cymru yn amcanu bydd poblogaeth Gwynedd yn parhau i dyfu'n raddol dros yr 20 mlynedd nesaf i 126,200 yn 2024 a 130,600 yn 2034. Amcanir hefyd mai twf yn y boblogaeth dros 75 fydd yn bennaf gyfrifol am y cynnydd yn y boblogaeth. Mae dwysedd poblogaeth Gwynedd yn isel, yn 0.5 person fesul hectar o gymharu â chyfartaledd Cymru o 1.5 person i bob hectar.

**Yr economi:** yn gyd-destun y CGHT mae dau sector economaidd yn dylanwadu'n gryf ar fynediad i gefn gwlad, sef twristiaeth ac amaeth. Amcangyfrifir fod dros 7 miliwn o bobl yn ymweld â Gwynedd yn flynyddol sydd ar gyfartaledd yn cyfrannu oddeutu 1 biliwn y flwyddyn i economi'r Sir. Mae amrywiol fusnesau twristiaeth yn cyflogi tua 16,000 o swyddi. Dros y ddegawd 2010 - 2020 gwelwyd pwyslais cynyddol ar farchnata Gwynedd fel atyniad ar gyfer gwahanol weithgareddau awyr agored gyda cherdded yn cael ei nodi fel y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymysg ymwelwyr. Mae gweithgareddau yng nghefn gwlad megis beicio a beicio mynydd, dringo, gwyllo bywyd gwylt a hwylio hefyd yn weithgareddau poblogaidd.

Yn draddodiadol mae amaeth wedi bod yn gonglfaen i economi Gwynedd, er bu newidiadau mawr ers yr Ail Ryfel Byd mae'n parhau yn ddiwydiant allweddol sy'n cyflogi o leiaf 5,000 o bobl mewn 1,200 o fusnesau. Erbyn hyn mae nifer fawr o fusnesau amaeth wedi arallgyfeirio i fod yn rhan o'r sector dwristiaeth.

## 1.4 Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lleol sy'n cwmpasu ardaloedd y cyn cyngorau Dosbarth Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Er nad yw'r rhaniadau daearyddol yma bellach gyda statws ffurfiol mae'r ffaith fod prif swyddfydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau yn golygu fod rhai gwasanaethau yn parhau i gael eu cyflawni yn seiliedig ar y 3 ardal.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am oll wasanaethau llywodraeth Leol sy'n cynnwys addysg, gofal, priffyrdd, cynllunio a rheolaeth datblygu.

Etholir 75 o gynghorwyr i gynrychioli etholwyr y Sir, mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan y Cabinet sy'n gyfrifol am osod cyfeiriad strategol a pholisïau gweithredol.

## 1.5 Cyd-destun Strategol y CGHT

Mae'r CGHT yn torri ar draws a gôr gyffwrdd a strategaethau a chynlluniau lleol a chenedlaethol. Dyma'r rhai mwyaf perthnasol :

### Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 23

Mae'r ddogfen yn adnabod 7 uchelgais ar gyfer Cyngor a phobl Gwynedd, sef

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud
- Ennill cyflog digonol i ni fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl
- Cael mantais ar harddwch naturiol y Sir

### **Cynlluniau Llesiant**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd at awdurdodau cyhoeddus i asesu a pharatoi cynllun llesiant sy'n cwrdd â saith nod sy'n cael eu nodi yn y ddeddf, sef

- Cymru ffyniannus
- Cymru fwy gwydn
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru lle mae'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu
- Cymru sy'n fyd eang cyfrifol

Prif negeseuon Asesiad Llesiant Gwynedd sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Cynllun Llesiant oedd:

- Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach sydd mor bwysig i lesiant
- Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
- Deall effaith y newid yn nemograffig ein hardaloedd
- Pwysigrwydd gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg
- Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn y hir dymor
- Gwella cysylltiadau trafndiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
- Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
- Effaith tlodi ar lesiant
- Sicrhau cyfle i bob plentyn i lwydd

### **Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn**

Cynllun sy'n gosod cyfeiriad strategol i ddefnydd tir yng Ngwynedd a Môn.

Mae Polisi PS4 yn berthnasol i amcanion y CGHT.

Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd yn berthnasol i'r CGHT

Lle'n bosibl, gwarchod, gwneud ychwanegiadau, gwelliannau a hyrwyddo llwybrau a hawliau tramwy (llwybrau, llwybrau ceffyl a chilffyrdd), llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd a mynediad ( gan gynnwys defnyddwyr anabl) I'r dulliau yma o deithio ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i'r gymuned leol ac ymwelwyr.

### **Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016**

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn cyflwyno egwyddorion dull gweithio rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol sef sut mae anifeiliaid, planhigion, aer, dwr, mwynau a'r tir yn rhyngweithio gyda'i gilydd a'u cysylltiad â llesiant pobl. Y dull ar gyfer cyflawni hyn yw drwy gynhyrchu Datganiadau ardal. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain ar y gwaith o baratoi 7 Datganiad Ardal. Mae cynghorau Gwynedd, Môn a Conwy wedi' cynnwys yn natganiad ardal y Gogledd Orllewin.

Cyhoeddwyd y Datganiadau gan CNC ym Mawrth 2020, serch hynny byddant yn cael ei adolygu a'u diweddarau'n gyson.

Dyma rai sylwadau'r Datganiad Ardal ardal yn ei wneud ynglŷn â mynediad :

- Mae mynediad i fannau gwyrdd a glas yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd corfforol a meddyliol.
- Dylid creu mwy o lwybrau Teithio Llesol.
- Angen i gyfleoedd mynediad fod yn rhan o gynlluniau datblygu yn y dyfodol.
- Cysylltu llwybr yr arfordir a'r rhwydwaith hawliau tramwy i helpu cymunedau gysylltu â'n harfordir.

### **Deddf Teithio Lesol (Cymru) 2013**

Teithio llesol yw teithio ar droed neu ar feic i bwrpas gwaith, addysg i ddefnyddio cyfleusterau cyhoeddus, siopa. Yng nghyd-estyn y Ddeddf nid yw teithio yn benodol ar gyfer hamdden yn cael eu hystyried fel teithio llesol.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i greu mapiau teithio llesol ar gyfer cymunedau sydd wedi eu dynodi'n canolfannau Teithio Llesol. Dyma ganolfannau teithio llesol Gwynedd:

Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Abermaw, Bethesda a Rachub, Pwllheli, Dolgellau, Tywyn, Y Felinheli a Caeathro

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016 paratowyd mapiau sydd i'w gweld ar safle we'r Cyngor

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Canlyniadau-ymgyngoriadau/Cynllun-Trafnidiaeth-Lleol-ar-y-Cyd.aspx>

Er bod y sylw pennaf yn cael ei roi i'r ardaloedd trefol mae cynlluniau Teithio Llesol yn gyfle i greu gwell cysylltiadau o fewn 45 munud o bellter teithio i'r canolfannau. Mae'r rwydwaith hawliau tramwy yn ogystal â'r Lonydd Glas yn allweddol i ddatblygu a thwf teithio llesol yng Ngwynedd.

### **Twristiaeth**

Mae'r sector twristiaeth yn rhan allweddol o economi Gwynedd gyda mwynhau cefn gwlad a thraethau'r prif reswm a roddwyd gan 63% o ymwelwyr dros ymweld â'r Sir (*Adolygiad Twristiaeth Gwynedd 2019*)

Dros y ddegawd ddiwethaf Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013 – 20 ) sydd wedi arwain gwaith y Cyngor ym maes Twristiaeth.

Prif amcanion y cynllun oedd:

- ymestyn y tymor twristiaeth,
- cynyddu gwariant ymwelwyr,
- gwella ansawdd profiad yr ymwelydd,
- gwella integreiddiad twristiaeth ag agweddau eraill ar fywyd,
- gwella'r amgylchedd naturiol, adeiledig a diwylliannol

Mae'r Cyfnod Cofid wedi cael effaith sylweddol ar y sector yng Ngwynedd gyda gwestai ac atyniadau wedi bod ar gau am gyfnodau hir. Yn dilyn llacio cyfyngiadau teithio yn ystod haf 2020 amlygwyd rhai effeithiau negyddol twristiaeth ar gymunedau a'r amgylchedd sydd wedi ysgogi trafodaeth ynglŷn â sut fath o ddiwydiant twristiaeth sy'n briodol a chynaliadwy i Wynedd. Mewn ymateb bydd y Cyngor yn ystyried y diwydiant yn gyd-destun yr egwyddorion canlynol :

- Dathlu a pharchu ein cymunedau, iaith a diwylliant
- Cynnal a pharchu ein hamgylchedd
- Sicrhau dod y manteision i gymunedau Gwynedd yn fwy nac unrhyw anfanteision

### **Cynllun Rheoli AHNE Llyn**

Mae'n ofynnol i baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn yn unol â gofynion y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Mae'r Cynllun presennol yn weithredol hyd at 2020.

Mae'r Cynllun yn trafod 8 testun sy'n berthnasol i'r AHNE gan gynnwys Hawliau Tramwy a Mynediad.

Polisiau perthnasol i hawliau tramwya mynediad



**MP1** . Cynnal, Gwarchod a hyrwyddo hawliau tramwy cyhoeddus allweddol yr ardal a sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio yn ddi-rwystr.

**MP2.** Cynnal a chadw'r llwybr Arfordir cenedlaethol a chreu cysylltiadau newydd yn unol â safonau a chanllawiau cenedlaethol.

**MP3.** Hyrwyddo 'r defnydd o gylchdeithiau lleol a thir mynediad agored yn Llyn.

**MP4.** Gwella darpariaeth ar gyfer ddefnyddwyr hawliau tramwy, gan gynnwys rhai'n marchogaeth , beicwyr a phobl anabl

Mae Swyddogion y Tîm AHNE yn gweithio'n agos gyda swyddogion hawliau tramwy a'r llwybr arfordir i weithredu cynlluniau a gwelliannau ar y ddaear.

### **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Mae'n ofynnol i Barc Cenedlaethol Eryri baratoi a Chynllun Y Parc Cenedlaethol yn unol â gofynion Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gosod dau bwrpas statudol ar gyfer y Parciau Cenedlaethol:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig y Parciau Cenedlaethol.

Mae Awdurdod y Parc yn paratoi cynllun newydd yn 2020.

## **1. 6 Y Gwasanaeth Cefn Gwlad a Ffordd Gwynedd**

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn un o Wasanaethau sy'n eistedd o fewn yr Adran Amgylched. Mae Gwasanaethau eraill yn cynnwys - Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Cludiant Cyhoeddus, Parcio a Gwaith Stryd, Traffic a Phrosiectau , Rheolaeth Adeiladu a Gwasanaeth Swyddfa Gefn.

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gweithio'n agos â Gwasanaethau eraill yr Adran yn ogystal â gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Y Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Stadau.

Yn 2016 sefydlwyd strwythur sy gwmpasu'r meysydd gwaith a dyletswyddau isod:

- Cynnal a rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy a llwybrau eraill megis y Lonydd Glas
- Ymdrin â materion cyfreithiol a gorfodaeth yn gysylltiedig â'r rhwydwaith hawliau tramwy gan gynnwys diweddarau'r Map diffinio a'r datganiad swyddogol a'r Gofrestr Priffyrdd.
- Datblygu a chynnal y Llwybr Arfordir a chydweithio gyda mudiadau a chymunedau i wella cyfleoedd mynediad.

- Rhoi sylw i faterion cynllunio sy'n berthnasol i hawliau tramwy, bioamrywiaeth, diogelu coed ac ansawdd tirwedd Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llyn (AHNE)
- Gweithredu prosiectau, i wella mynediad, gwarchod cynefinoedd, a rheoli tiroedd sydd dan ofal y Gwasanaeth.

Yn 2020 trosglwyddwyd swyddogion sy'n ymwneud ac elfen gyfreithiol hawliau tramwy a'r gofrestr priffyrdd i'r Gwasanaeth Traffic a Phrosiectau.

## STRWYTHUR YMA

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu diwylliant Ffordd Gwynedd - Roi Pobl Gwynedd yn ganolog i bob dim rydym yn ei wneud. Bydd pob gwasanaeth yn ymgymryd ag adolygiad Ffordd Gwynedd sy'n golygu dadansoddi trefniadau a phrosesau gwaith gan adnabod rhwystrau, risgiau a chyfleon. Mae'r isod yn crynhoi'r prif risgiau a adnabuwyd mewn perthynas â gwaith mynediad y Gwasanaeth Cefn Gwlad :

- Llai o adnoddau oherwydd toriadau yn golygu dirywiad yn y gwasanaeth a faint mae'r tîm yn medru cyflawni
- Pwysau gwaith ychwanegol oherwydd lleihad mewn staff yn achosi mwy o bwysau gwaith a straen.
- Achosion blinderus yn cymryd amser anghyfartal y swyddogion
- Diffyg cynnal a chadw yn cynyddu risg o ddamweiniau i ddefnyddwyr a hawliadau yswiriant yn erbyn y Cyngor.
- Methu delio a gorchmynion yn arwain at heriau gan ymgeiswyr drwy'r Arolygaeth Cynllunio.

### 1.7 Gwerthusiad i ba raddau y cyflawnwyd y CGHT blaenorol

Wrth baratoi'r adolygiad rhaid ail edrych ar CGHT blaenorol Cyngor Gwynedd a baratowyd rhwng 2003 a 2007 ac a fabwysiadwyd Cynllun yn Nhachwedd 2007.

Mae'r CGHT gwreiddiol yn cynnwys Datganiad Gweithredu wedi ei rhannu i 6 Thema sef :

Thema 1 : cyflwr y rhwydwaith Hawliau Tramwy

Thema 2 : Y Map a'r Datganiad Swyddogol

Thema 3 : Rheoli'r Rhwydwaith

Thema 4 : Deall anghenion Defnyddwyr

Thema 5: Darpariaeth Mynediad Presennol

Thema 6 : Hyrwyddo a chyhoedduswydd

Mae'r 6 Thema Gweithredu yn cynnwys cyfanswm o 43 gweithred unigol neu opsiynau yn amodol a'r argaeledd cyllid.

Llwyddodd y CGHT blaenorol i osod arweiniad a chyfeiriad ar gyfer y gwaith o reoli a chynnal y rhwydwaith mynediad yng Ngwynedd ac mae'n rhesymol i gasglu bod y mwyafrif o'r gweithredoedd wedi eu cyflawni'n llawn neu'r rhannol.

Mae Atodiad 1 yn cyflwyno gwerthusiad o'r hyn a gyflawnwyd gan y CGHT blaenorol.

## 1.8 Rhaglen Diwygio Mynediad

Yn 2015 ac yna yn 2017 cynhaliwyd ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru i'r posibilrwydd o newid deddfwriaeth mynediad i gefn gwlad. Roedd ymgynghoriad 2017 yn edrych ar y meysydd canlynol :

- Sut gellir cynyddu cyfleoedd ar gyfer hamdden yn yr awyr agored
- Symleiddio prosesau ar gyfer cofnodi a chofrestru hawliau tramwy
- Edrych ar sut gellir gwella cyfathrebu am hawliau mynediad a chyfrifoldebau

Yn dilyn ymgynghoriad 2017 mae'r Llywodraeth wedi cychwyn proses sy'n edrych ar rai agweddau o'r ddeddfwriaeth gyda'r bwriad o leihau'r byrdwn biwrocratiaeth ar awdurdodau lleol yn ogystal ag ymestyn cyfleoedd mynediad.

Yn 2019 cychwynwyd ar y dasg o edrych yn fanwl ar nifer o argymhellion, sefydlwyd grwpiau tasg o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn edrych ar :

1. diwygio darpariaethau technegol ynghylch creu, dargyfeirio a dileu hawliau tramwy
2. cael gwared ar yr anghysondeb sy'n atal digwyddiadau beicio wedi'u trefnu ar lwybrau ceffylau
3. diddymu rhai meysydd o Ddeddf CROW sy'n profi'n gostus ac yn aneffeithlon, megis dyddiad cau i gofrestru ffyrdd coll erbyn 2026
4. Creu llwybrau aml ddefnydd : caniatáu beicio a marchogaeth ceffylau ar lwybrau troed,
5. Ymestyn tir agored i'r arfordir a chlogwyni môr.
6. Paratoi un map digidol statudol o bob hawl tramwy, tir mynediad a llwybrau cenedlaethol.

Rhagwelir bydd y grwpiau tasg yn adrodd i Lywodraeth Cymru gyda'i hargymhellion ar y ffordd ymlaen yn ystod gwanwyn 2021.

## 1.9 Newid Hinsawdd

Mae Cyngor Gwynedd wedi datgan Argyfwng Hinsawdd sy'n cyfleu bod yr Awdurdod yn cydnabod ac yn barod i weithredu uniongyrchol ac i ddylanwadu ar eraill i gymryd camau i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

Mae'r effeithiau'n cynnwys

- Cynnydd yn amllder digwyddiadau tywydd eithafol yn cael eu teimlo yn y sir yn barod.
- Cynnydd yn y perygl o orlifo, mae 23,244 o drigolion Gwynedd yn byw mewn ardal sydd dan fygythiad.
- Gall lefelau'r môr godi hyd at 1.9m erbyn y flwyddyn 2100, mae codi lefel y môr eisoes yn bygwth bodolaeth rhai cymunedau arfordirol megis Y Friog.

Mae'r uchod eisoes yn cael effaith ar isadeiledd llwybrau o golli pontydd, erydu wyneb llwybrau i golli llwybrau o ganlyniad i erydiad clogwyni ar yr arfordir. Rhaid ystyried oblygiadau newid hinsawdd wrth gynllunio ar gyfer creu llwybrau newydd a gwelliannau i rai presennol.

Bydd y Cyngor yn mynd ati i baratoi Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd fydd yn sefydlu cyfeiriad ar gyfer ymateb i'r her, bydd yr effaith ar lwybrau a llecynnau gwyrdd yn rhan o'r Cynllun.

## Rhan 2 : Thema A

### Cynnal a rheoli'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy a mynediad i gefn Gwlad

#### 2.1 Y Rhwydwaith Hawliau Tramwy yng Ngwynedd

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am rwydwaith Hawliau Tramwy sydd oddeutu 3800km o hyd. Diffinnir hawl tramwy cyhoeddus fel priffordd sydd ar gael at ddefnydd y cyhoedd i'w ddefnyddio yn unol â'i status yn rhad ac am ddim ac ar unrhyw bryd.

Statws		Hyd (km)
Llwybr troed	cerddwyr	3345
Llwybr ceffyl	Cerddwyr , marchogaeth ceffyl , beic	305
Cilffordd Gyfyngedig	Cerddwyr, marchogaeth ceffyl, beic , ceffyl a throl	79
Cilffordd sy'n agored i bob traffic	Cerddwyr, marchogaeth ceffyl, beic, ceffyl a throl, cerbydau a pheiriant	39

Yn ychwanegol i'r rhwydwaith hawliau tramwy cofrestredig mae darpariaeth mynediad sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys:

- Y Lonydd Glas a Llwybrau drwy ganiatâd : dros 60km
- Tir agored (deddf CROW 2000) : 105,029ha (yn bennaf o fewn Ardal y Parc Cenedlaethol )

Ers 2007 mae oddeutu 50km o hawliau tramwy newydd wedi eu creu yn bennaf yn sgil datblygiad Llwybr Arfordir Cymru yng Ngwynedd a llwybrau aml ddefnydd megis Lôn Gwyrfaï a Lon Las Ogwen.

#### 2.2 Cyfrifoldebau

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod priffyrdd sydd a'r ddyletswydd statudol i warchod a chynnal y rhwydwaith. Mae'r cyhoedd, cynghorau cymuned ac eraill yn troi at y Cyngor i ddiogelu a datrys materion ymarferol a cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hawliau tramwy.

Prif gyfrifoldebau cynnal sydd gan y Cyngor

- Arwyddo hawliau tramwy lle maent yn gadael y briffordd

- Mae cyfrifoldeb am arwyneb y mwyafrif o hawliau tramwy yn gorwedd gyda'r Cyngor
- Pontydd a strwythurau
- Rheoli tyfiant a cael gwared o rhwystrau

Nodir mai'r tirfeddiannwr sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal a thrwsio dodrefn megis camfeydd a giataiu gan gynnwys dodrefn a osodir gan Y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol a'r llwybrau categori 1 a 2 ac fel rhan o raglen gwelliannau.

### **2.3 Cyflwr y Rhwydwaith**

Nid yw Cyngor Gwynedd erioed wedi cynnal asesiad llawn o gyflwr oll hawliau tramwy'r Sir. Cynhaliwyd yr arolwg mwyaf cynhwysfawr fel rhan o'r gwaith i baratoi'r CGHT gwreiddiol yn 2004 / 05 pan aseswyd tua 35% o'r rhwydwaith.

Hyd at 2012 / 13 arferwyd cynnal asesiad o 5% o'r rhwydwaith, pwrpas yr asesiad oedd adnabod llwybrau hawdd eu defnyddio yn unol â chanllawiau cenedlaethol at ddiben mesur perfformiad Awdurdodau Lleol Cymru. Canlyniad arolwg 2012 / 13 oedd bod 38% yn cyrraedd y gofynion. Dyma'r tro olaf i'r arolwg blynyddol gael ei gynnal, teimlwyd nad oedd yr ymdrech yn gysylltiedig â threfnu a chynnal yr arolwg yn ddefnydd effeithiol o amser staff ac adnoddau prin.

Er mwyn ceisio cyfleu darlun o gyflwr y rhwydwaith a'r oblygiadau ariannol o'i gynnal defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd gan Gymdeithas y Cerddwyr fel rhan o'u hymgyrch Pathwatch, yn ogystal â data gan swyddogion y Cyngor a'r Parc Cenedlaethol.

Gwelir crynodeb o'r wybodaeth yn nhabl 2.

### **2.4 Categorioidio**

Cyn ymhelaethu ar gyflwr y rhwydwaith rhaid ystyried y drefn categorioidio sydd wedi ei mabwysiadu gan y Cyngor ers yn agos i 15 mlynedd. Pwrpas categorioidio yw hwyluso'r dasg o flaenoriaethu ymdrech ac adnoddau ar gyfer cynnal a chadw llwybrau. Pwysleisir nad yw'r drefn categorioidio yn disodli oblygiadau statudol y Cyngor i gynnal y rhwydwaith cyfan.

Sefydlwyd y system ar y cyd a Chynghorau Cymuned a Thref yn y 2000au cynnar, canlyniad y gwaith oedd gosod y mwyafrif o hawliau tramwy mewn un o 5 categori yn seiliedig ar asesiad o'u defnydd a'u pwysigrwydd o safbwynt cysylltedd a photensial i'w uwchraddio. Er hwylustod lleihawyd nifer y categorïau yn 2010 i 4, mae tabl 1 yn nodi'i diffiniad o'r categorïau a chanran o'r rhwydwaith sydd o fewn pob categori.

**Tabl 1**

Categori	Diffiniad	% o'r rhwydwaith
1.	Llwybrau sy'n hwyluso symudiad pobl. Bydd y rhain fel arfer yn cael defnydd sylweddol neu'n ffurfio cyswllt mewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau hamdden .	15%
2.	Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pleser gan gynnwys Llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylchol, mynediad at draethau neu lwybrau a hyrwyddir.	27%
3.	Llwybrau, er na chant eu defnyddio mor aml, sydd yn ffurfio cysylltiadau arwyddocaol rhwng y Llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2 neu rhwng cymunedau.	46%
4.(5)	Llwybrau a dim ond defnydd achlysurol ond a font yn parhau i ffurfio rhan o'r rhwydwaith lawn, effeithiol. Gall y rhain gynnwys cysylltiadau posibl rhwng cymunedau ble nad oes llawer i annog cerdded.	12%

Gan mai prif bwrpas categorïddio oedd blaenoriaethu adnoddau fe'i integreiddwyd ym Mholisiau Hawliau Tramwy'r Awdurdod (*trafodir Polisiâu Hawliau Tramwy yn rhan 2.7.*)

Er enghraifft

- Polisi 1.3 sy'n ymdrin â Chynnal a chadw camfeydd a giatiau
- Polisi 1.4 sy'n ymdrin â chynnal yr arwyneb a rheoli llystyfiant
- Polisi 1.8 sy'n ymdrin â threfn ac amlder arolygol ac archwilio cyflwr hawliau tramwy.

Yn ystod y 2000au rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal categorïau 1, 2 a 3 ond gyda lleihad pellach mewn cyllid ers 2014 rhoddwyd blaenoriaeth i gategoriâu 1 a 2 yn unig, sef oddeutu 42% o'r rhwydwaith.

Byddai'n rhesymol i ddamcanu y byddai ymrwymiad i'r system categorïddio ymhen amser yn cael ei amlygu yng nghyflwr ffisegol y llwybrau. Mae'r effaith i weld yn amlwg os edrychir ar sawl eitem o waith a weithredwyd ar lwybrau o fewn y categorïau unigol, er enghraifft am y flwyddyn 2017 / 18 cofnodwyd y canlynol

Eitemau gwaith ar lwybrau category 1	650
Eitemau gwaith ar lwybrau category 2	658
Eitemau gwaith ar lwybrau category 3	582
Cyfanswm eitemau gwaith	1,890

Gellir gweld y duedd hon hefyd yn Nhabl 2, sef dadansoddiad o broblemau a nodwyd ar 1.021 km o hawliau tramwy yng nghategoriâu 1, 2 a 3, tua 27% o rwydwaith Gwynedd. (ffynhonnell Pathwatch, wedi'i recordio gan staff Gwynedd a APCE)

Tabl 2

Prif broblemau / diffygion	Categori 1	Categori 2	Categori 3
<i>Math o broblem</i>	<i>Nifer o broblemau</i>	<i>Nifer o broblemau</i>	<i>Nifer o broblemau</i>
Arwyddion ochr lon ar goll / wedi torri	24	22	86
Cyfeirbyst ar goll / wedi torri	23	23	35
Camfa ysgol /	1	4	19
Camfa un neu ddwy step	1	8	26
Camfa garreg	0	1	1
Giât fochyn	1	3	17
Giât < 1.2m	0	3	24
Giat 1.2m - 2m	2	7	21`
Giat /	0		10
Grisiau	2	1	1
Pontydd < 2m	2	10	31
Pontydd 2m - 5m	0	3	1
Pontydd > 5m	3	4	1
Wyneb mewn cyflwr gwael	36	69	46
Gordyfiant o'r ochr / planhigion ymledol	25	17	28
Tyfiant ar y wyneb	6	22	34
Coed wedi cwmpo	2	29	22
Defnydd tir / chwarel / coedwigaeth			17
Arall Other	10	10	29

Er mai ciplun o gyflwr y rhwydwaith yw'r wybodaeth hwn , mae'n amlwg ei fod yn dod a ni i'r casgliad bod cyflwr llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2 yn well ar y cyfan na'r rhai yng nghategoriâu 3 a 4.



Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2017, bu peth beirniadaeth o'r system gategoreiddio gan ei bod yn anochel yn arwain at ddirywiad llwybrau yn y categorïau is.

## 2.5 Problemau ar Hawliau Tramwy

Gellir rhannu problemau ar hawliau tramwy yn dri phrif fath

**Mân problemau** - gordyfiant tymhorol, canghennau coed wedi cwmpo, gorlifo tymhorol, dodrefn wedi'u gosod a'u cynnal yn wael neu ddiffyg arwyddo . Bydd y problemau hyn yn anghyfleus i'r defnyddiwr ond nid ydynt o reidrwydd yn gwneud y llwybr yn amhosibl ei ddefnyddio.

**Problemau mawr** - problemau llifogydd a draenio hir dymor, pontydd anniogel a pheryglus, tirlithriadau, goed wedi cwmpo, dodrefn diffygiol a pheryglus, wyneb sydd wedi'i erydu'n wael. Mae'r problemau hyn yn debygol o wneud y llwybr yn amhosibl ei ddefnyddio ond yn y rhan fwyaf o achosion gellir eu datrys gydag adnoddau digonol.

**Rhwystro bwriadol** - llwybrau wedi'u rhwystro gan ffensys, waliau neu rwystrau eraill a gan gathiau sydd wedi'u cloi. Efallai y bydd yn bosibl datrys rhai o'r problemau hyn gyda dodrefn ac arwyddion gwell, gellir eu datrys hefyd gyda thrafodaethau rhwng swyddogion a'r tiffeddiannwr neu eu cynrychiolydd os yw hyn yn methu bydd yn rhaid i'r Cyngor gymryd camau gorfodi.

Mae'r problemau hyn, hefyd yn amlwg yn yr ymatebion a dderbyniwyd i'r Holiadur Ymgynghori Cyhoeddus. Nododd 61.2% o'r rhai a atebodd eu bod wedi dod ar draws problem wrth ddefnyddio hawliau tramwy. Crynodeb o'r ymateb

Problem a wynebwyd	% o'r rhai a atebodd
Rhwystro bwriadol	54.3
Diffyg arwyddion neu gamarweiniol	29.3
Gor dyfiant / coed wedi cwmpo	28
Gathiau / camfeydd mewn cyflwr gwael	39.2
Pontydd mewn cyflwr gwael / peryglus	21.4
Cwn bygythiol	26.5

## DATGANIADAU GWEITHREDU 1

### 1a. Parhau i flaenoriaethu llwybrau yng nhatgoriau 1 a 2

Er bod beirniadaeth o'r drefn categoreiddio bresennol ; yn y tymor byr dyma'r drefn fwyaf ymarferol sy'n caniatáu bod y llwybrau mwyaf poblogaidd mewn cyflwr boddhaol- yn hawdd i'w defnyddio, yn ddiogel ac wedi arwyddo'n glir.

Rhaid cydnabod nad oes adnoddau ar gael i gynnal pob llwybr o fewn Categori 1 a 2 a bydd diffyg cynnal ar weddill y rhwydwaith yn arwain at ôl groniat o waith a chostau os am eu hadfer i safon dderbyniol.

### 1b. Diweddarau ac ail categoreiddio

Er mwyn adlewyrchu gofynion presennol cymunedau'r Sir, ymdrechir yn ystod oes y CGHT i adnabod a threalu dull effeithiol a theg o ddiweddarau ac ail categoreiddio hawliau tramwy.

### 1c. Asesu cyflwr y rhwydwaith

Mae adolygiad Ffordd Gwynedd wedi amlygu'r nad oes gennym wybodaeth sylfaenol am gyflwr y rhwydwaith.

Ymdrechir i gynnal arolwg cynhwysfawr o gyflwr hawliau tramwy Gwynedd i'w ddefnyddio i sefydlu gwaelodlin gellir ei ddefnyddio ar gyfer mesur perfformiad, cynorthwyo gyda'r gwaith o ail gategoreiddio llwybrau ag i flaenoriaethu cyllid grant fydd ar gael.

## 2.6 Adnoddau ar gyfer hawliau tramwy

Mae'r swyddogaeth i gynnal hawliau tramwy ynghyd a'r cyllid yn eistedd o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad. Dros oes y CGHT gwreiddiol gwelwyd lleihad yn y gyllideb graidd flynyddol ar gyfer cynnal hawliau tramwy o £351k yn 2007 i £170k yn 2020. Gwelwyd hefyd leihad mewn staff gan gynnwys colli pump swyddi rheng flaen, sef dau Archwilydd Hawliau Tramwy a 3 tri Warden Cefn Gwlad.

O'r gyllideb bresennol mae oddeutu £32,000 yn cael ei glustnodi i gefnogi gwaith cynnal (torri tyfiant blynyddol) gan Gynghorau Cymuned a Thref sy'n gadael oddeutu £143,000 i ddelio a phopeth arall. Oherwydd y system categoreiddio mae'r mwyafrif o'r gwariant am fod ar lwybrau yn category 1 a 2 sef oddeutu 42% o'r rhwydwaith (tua 1,700 km).

Yn ychwanegol mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am gynnal y rhwydwaith Lonydd Glas, mae'r gyllideb graidd o £16,000 wedi aros yn sefydlog ers 2010.

Clustnodir £50,000 y flwyddyn yng nghyllideb strwythurau'r Cyngor tuag at bontydd a strwythurau hawliau tramwy.

Yn ôl y CGHT gwreiddiol byddai angen cyllideb flynyddol o **£380,586** er mwyn cynnal dodrefn a rheoli tyfiant blynyddol ar lwybrau categori 1, 2 a 3. Mae'r wybodaeth yma'n parhau'n berthnasol ac os ystyrir llwybrau categori 1 a 2 yn unig a gan ystyried chwyddiant (cyfartaledd o 3%) mae angen cyllideb sylfaenol o **£232k** os am gynnal llwybrau categori 1 a 2 mewn cyflwr boddhaol. Diffinnir cyflwr boddhaol fel llwybr di rwystr gyda dodrefn sy'n ddiogel ac yn hawdd i'w ddefnyddio, bydd natur y dodrefn yn amrywio yn ôl statws yr hawl tramwy.

Defnyddir y cyfan o'r gyllideb graidd flynyddol ar waith cynnal a gwaith adweithiol mewn ymateb i gwynion neu effaith tywydd eithafol. Rhagwelir pwysau cynyddol ar y gyllideb cynnal yn sgil dyfodiad clwyf yr onnen sydd am effeithio mwyafrif o goed onnen y Sir. Bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth weithredu i sicrhau diogelwch y cyhoedd ar diroedd rydym yn gyfrifol amdanynt fel y Lonydd Glas a rhaid sefydlu trefn i sicrhau bod perchnogion tir yn gweithredu i dorri coed peryglus sy'n agos i hawliau tramwy.

Os am uwchraddio llwybrau a gwneud gwelliannau mawr, er enghraifft ail wynebu a chodi pontydd rhaid troi at wahanol ffynonellau grant, dyma enghreifftiau o'r grantiau a dderbyniwyd rhwng 2010 a 2020 : .

- Derbyniwyd dros £900,000 drwy gronfa Gwella Hawliau Tramwy rhwng 2010 a 2017.
- £100k o gronfa Cymunedau'r Arfordir tuag at sefydlu 18 cylchdaith oddi ar y Llwybr Arfordir.
- Mae cyfraniad grantiau Teithio Lesol wedi galluogi gwelliannau i'r Lonydd Glas ac i lwybrau sydd wedi adnabod yn llwybrau Teithio Llesol.
- Yn 2020 / 21 lanswyd cronfa grant Gwella Mynediad gan Lywodraeth Cymru a denwyd £243,446 tuag at welliannau yng Ngwynedd fyddai ddim wedi cael eu gwneud fel arall. Bydd y gronfa ar gael yn 21 / 22.
- Rhwng 2017 a 2020 derbyniwyd £85,000 o gyllid grant tuag at welliannau mynediad o fewn ardal AHNE Llyn.

Mae grantiau allanol yn allweddol os am wneud gwelliannau mawr i'r rhwydwaith ond rhaid hefyd cael staff profiadol i baratoi ceisiadau, trefnu a goruchwylio gwaith. Rhaid felly sicrhau bod gennym yr adnoddau staff i wneud y gora o'r cyfleoedd sy'n codi ac os yn bosibl i gynnwys costau staff o fewn ceisiadau grant.

## **DATGANIAD GWEITHREDU 2**

**2.a Ymdrechir i adnabod a sicrhau grantiau ar gyfer gwelliannau strategol i'r rhwydwaith drwy gydweithio'n fewnol a gyda'n partneriaid tu allan i'r Cyngor.**

**2b. Rhaid sicrhau bod gennym adnoddau staff digonol i wneud ceisiadau a gweithredu prosiectau grant.**

## 2.7 Polisiâu

Yn dilyn cyhoeddi'r CGHT gwreiddiol paratowyd a chyhoeddwyd dogfen Polisiâu Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae'r ddogfen gyfredol i'w gweld ar safle we'r Cyngor

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Parcio,-ffyrdd-a-theithio/Polisiau-Hawliau-Tramwy.pdf>

Pwrpas y ddogfen yw crynhoi ac egluro cyfrifoldebau'r Cyngor a gosod arweiniad ar gyfer gwaith cynnal ffisegol y rhwydwaith ynghyd a'r prosesau cyfreithiol i warchod a diwygio hawliau tramwy cyhoeddus.

Mae'r ddogfen polisi yn rhoi pwyslais mawr ar y drefn Categori, serch hynny pwysleisir mai trefn ar gyfer blaenoriaethu adnoddau yw Categori ac nid yw'n gwaredu'r Cyngor o'i ddyletswydd statudol i gynnal a gwarchod y rhwydwaith cyfan gan gynnwys cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch y cyhoedd beth bynnag yw categori'r llwybr. Pan mae'r Gwasanaeth yn derbyn ymholiadau gan y cyhoedd rhaid blaenoriaethu adroddiadau sydd ag oblygiadau ar iechyd a diogelwch y cyhoedd gan gynnwys staff y Cyngor. Wrth ymateb rhaid i swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad asesu'r risg a phenderfynu pa gamau i'w cymryd. Os yw'r difrod yn sylweddol, er enghraifft pont wedi disgyn neu lwybr wedi ei golli i'r môr bydd dim dewis ond i gau'r llwybr ac i geisio sicrhau adnoddau i'w adfer. Mewn achosion o'r fath rhoddir blaenoriaeth i lwybrau o fewn categori 1 a 2.

Mae'r ddogfen yn parhau'n arf effeithiol ac yn gosod sail i waith y Gwasanaeth, serch hynny rhaid cydnabod oherwydd lleihad mewn adnoddau staff a chyllid nad yw bellach yn bosibl gweithredu rhai o argymhellion y ddogfen. Er enghraifft:

- Polisi 1.8 Arolygon ac Archwiliadau - nid yw'n ymarferol bosibl cynnal y lefel o arolygon cyflwr yn unol â pholisi sef 50% o rwydwaith categori 1 yn cael ei arolygu yn flynyddol.
- Nid yw'r gyllideb yn caniatáu rhaglen ragweithiol ar gyfer torri tyfiant a gwelliannau.

Ers cyhoeddi'r ddogfen Polisiâu gwelwyd rhai newidiadau mewn defnydd tir a dulliau ffermio sy'n effeithio a'r hawliau tramwy.

- Polisi 2.1 Ffensys trydan - mae gofyn adolygu'r polisi yma i adlewyrchu'r cynnydd yn y defnydd o ffensys trydan ar gyfer rheoli stoc.

### **DATGANIAD GWEITHREDU 3**

**3a.** Rhoddir blaenoriaeth i ymateb i ymholiadau lle mae perygl i ddiogelwch y cyhoedd.

**3b.** Rhaid diweddarau'r ddogfen Polisiâu Hawliau Tramwy er mwyn adlewyrchu lefelau adnoddau presennol a newidiadau mewn defnydd tir sydd wedi dylanwadu ar hawliau tramwy dros y ddegawd ddiwethaf.

## 2.8 Gorfodaeth

Mae'r Ddogfen Polisiâu Hawliau Tramwy yn amlinellu sut bydd swyddogion yn gweithredu camau i orfodi perchnogion tir ac eraill i waredu rhwystrau a gwarchod hawliau'r cyhoedd. Gall y cyhoedd hefyd gyflwyno rhybudd ffurfiol ar yr Awdurdod Priffyrdd i weithredu i agor hawl tramwy sydd wedi' rhwystro.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion ymdrechir i ddatrys anghydfod drwy geisio dwy'n perswâd a chynnal trafodaeth gyda pherchnogion tir a defnyddwyr. Yn y pendraw mae cymryd yr agwedd yma'n arwain at well perthynas rhwng gwahanol garfannau ac yn lleihau baich gwaith biwrocraidd. Ers 2015 dim ond 2 achos gorfodaeth ffurfiol sydd wedi'i wneud gan yr Uned Cefn Gwlad sy'n tystio i allu staff i negodi a chymryd camau teg a chymesur yn unol â'r amgylchiadau.

Yn unol â'r polisiâu Categoriiddio rhoddir blaenoriaeth i ymdrechion gorfodaeth i hawliau tramwy categori 1 a 2.

### DATGANIAD GWEITHREDU 4

**4a.** Ein nod yw agor ac arwyddo'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus

**4.b** Ymdrech i osgoi camau gorfodaeth ffurfiol drwy drafod a negodi gyda pherchnogion tir a budd ddeiliaid.

Os nad oes dewis ond i gymryd camau gorfodaeth ffurfiol blaenoriaethir ymdrech ar lwybrau categori 1 a 2.

## 2.9 Cynnal y Llwybr yr Arfordir

Mae Gwynedd wedi chware ran allweddol yn natblygiad y Llwybr Arfordir Cenedlaethol, gyda 300km neu'n agos i 25% o'r Llwybr Arfordir yng Ngwynedd.

Sefydlwyd safonau cenedlaethol ar gyfer cynnal y llwybr ac i sicrhau cysondeb ar hyd arfordir Cymru. Ers 2015 mae Awdurdodau Lleol arfordir Cymru wedi derbyn cyllid blyneddol tuag at gynnal y Llwybr Arfordir. Dosrannir y cyllid yn unol â fformiwla genedlaethol, yn bresennol rhoddir £643 am bob km o lwybrau neu hawliau mynediad arall a £20 am bob km os yw'r Llwybr Arfordir yn dilyn ffyrdd, traeth neu bromenâd.

Yn unol â'r fformiwla mae Gwynedd yn derbyn oddeutu £80,000 y flwyddyn tuag at gynnal y Llwybr Arfordir.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 5**

**5a.** Bydd Gwynedd yn parhau i gynnal y Llwybr Arfordir yn unol â safonau cenedlaethol yn ddarostyngedig i barhad y trefniant cyllido presennol.

### **2.10 Systemau gwybodaeth**

Ers oddeutu 2005 mae swyddogion hawliau tramwy wedi defnyddio system ddigidol Countryside Access Management System (CAMS) ar gyfer casglu a chofnodi gwybodaeth am gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy. Yn 2014 / 15 ail edrychwyd ar y system yn benodol i gymryd mantais o dechnoleg oedd yn galluogi gweithio o bell. Ers 2015 mae swyddogion wedi bod yn defnyddio tabledi tra yn y maes i gofnodi gwaith a phroblemau ar y system. Profwyd gwerth cael technoleg symudol yn ystod cyfnod Cofid sydd wedi caniatáu swyddogion hawliau tramwy i barhau i weithio.

Rhodddwyd sylw i system CAMS fel rhan o adolygiad Ffordd Gwynedd y Gwasanaeth a chasglwyd bod y system yr arf pwysig i waith y gwasanaeth yn enwedig y gallu i weithio o bell. Serch hynny, adnabuwyd nad oedd defnydd llawn yn cael ei wneud o rhai agweddau o'r system megis cofnodi ymholiadau a chwynion.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 6**

**6a** Mae cael technoleg sy'n addas i bwrpas yn hanfodol ar gyfer cofnodi gwybodaeth a gweithio'n effeithiol yn y maes. Rhoddir sylw i sut gellir gwneud y defnydd gorau o'r system bresennol a sut gellir ei haddasu i gwrdd yn well a gofynion y Gwasanaeth.

### **2.11 Gweithio gyda phartneriaid**

Mae lluo o asiantaethau a chyrrff yn cyfrannu tuag at ddarparu mynediad i gefn gwlad yng Ngwynedd. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi hen arfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni amcanion cyffredin er budd pawb.

### 2.11.1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn chwarae rôl flaenllaw yn narpariaeth mynediad yng Ngwynedd. Mae ardal y Parc yn denu'n dros 4 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Yn 2018 roedd 557,991 wedi ymweld â'r Wyddfa a 66,241 i Gader Idris.

Mae 2,409km (1,497 milltir) o hawliau tramwy yn ardal y Parc sef yn agos i 64% o rwydwaith gyfan Gwynedd. O'r uchod mae 375km (233 milltir) yn llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gan APCE.

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod priffyrdd statudol sydd â chyfrifoldeb am oll faterion cyfreithiol yn ymwneud a hawliau tramwy o fewn ardal Y Parc sydd yng Ngwynedd. Mae APCE yn gyfrifol am dir mynediad agored yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Mynediad 2000.

Dros y blynyddoedd mae'r Parc wedi canolbwyntio ymdrech ac adnoddau i gynnal y llwybrau hynny sy'n cael y defnydd mwyaf ac i ddatblygu llwybrau cylch sy'n gwasanaethu cymunedau lleol yn ogystal ag ymwelwyr. Maent hefyd wedi sicrhau cyllid ar gyfer datblygu llwybrau aml bwrpas fel Lôn Gwyrfa'i ac wedi cychwyn datblygu Cylchdaith Yr Wyddfa sef llwybr lefel isel o amgylch Y Wyddfa.

Nodwyd yn y CGHT gwreiddiol y bwriad i negodi cytundeb ffurfiol rhwng Cyngor Gwynedd a'r Parc er mwyn sefydlu dull mwy integredig o weithio ym maes mynediad. Mae'r ddau awdurdod wedi cytuno ar egwyddorion cydweithio sy'n cydnabod rolau'r ddau gorff. Bydd angen camau pellach dros y blynyddoedd nesaf er mwyn adeiladu a chryfhau'r berthynas.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 7**

**7a.** Parhau i adeiladu perthynas a chydweithio gyda'r APCE

### 2.11.2 Cyngorau Cymuned a Thref

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith a mewnbwn y Cyngorau Cymuned a Thref i gynnal hawliau tramwy o fewn eu hardaloedd. Dangosodd ymarferiad ymgysylltu dros aeaf 2016 / 17 bod y mwyafrif helaeth o Gynghorau Cymuned a Thref yn awyddus i weld llwybrau poblogaidd yn cael eu cynnal a'u gwella. Roedd dealltwriaeth ymysg llawer o'r cynghorau bod cyfleoedd mynediad yn bwysig i'r economi a llesiant pobl leol.

Er mwyn gallu cefnogi gwaith y Cyngorau Cymuned mae'r Cyngor yn parhau i weithredu trefniant o ad-dalu costau gwaith cynnal a wneir ganddynt. Serch hynny, mae lleihad yn y gyllideb graidd wedi golygu bod y cyfraniad yma hefyd wedi'i leihau.

Hyd at 2016 roedd oddeutu £70,000 yn cael ei ad-dalu'n flynyddol i'r Cyngorau Cymuned, ers 2016 mae'r cyfraniad wedi lleihau i £32,000. Mae'n ofynnol bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal llwybrau categori 1 a 2 yn unig.

O ganlyniad i'r newid mae nifer y Cyngorau cymuned sy'n manteisio ar y cyfle wedi lleihau o 53 yn 2016 i 48 yn 2019 ( nodir na fu rhai Cyngorau erioed yn rhan o'r trefniant a bod 5 CC Penllyn yn un endid o dan Bartneriaeth Penllyn). Mae'r lleihad mewn cyllid sydd ar gael i'r Cyngorau Cymuned wedi golygu bod y Cyngor wedi gorfod ysgwyddo'r gwaith ychwanegol mewn sawl ardal. Ar y llaw arall mae rhai Cyngorau Cymuned a Thref wedi cynyddu eu gwariant ar gynnal llwybrau o fewn eu hardal allan.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 8**

**8a.** Parhau i gydweithio a Chyngorau Cymuned a Thref i gefnogi eu gwaith o gynnal llwybrau sy'n bwysig yn lleol.

### **2.11.3 Tirfeddianwyr**

Mae'r mwyafrif helaeth o hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi tir ac eiddo preifat ac felly mae'n hanfodol fod swyddogion y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn meithrin perthynas dda gydag ystod eang o berchnogion a rheolwyr tir. Heb berthynas adeiladol byddai'n hynod anodd rheoli a gwella mynediad at gefn gwlad.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn berchen tiroedd arfordirol ac wedi bod yn bartner allweddol yn natblygiad y Llwybr Arfordir.

Er bod canran uchel o lwybrau ar dir amaethyddol a choedwigaeth mae llwybrau hefyd i'w cael o fewn trefi a phentrefi, stadau diwydiannol, canolfannau gwyliau a hyd yn oed yn croesi gerddi preifat. Mae bodolaeth llwybrau yn agos i dai yn gallu cael effaith ar breifatrwydd y trigolion ac mewn achosion o'r fath rhaid i staff dangos diplomyddiaeth a thact wrth ddelio â sefyllfaoedd sensitif.

### **2.11.4 Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cydweithio ac yn dylanwadu ar waith y Gwasanaeth Cefn Gwlad mewn sawl ffordd.

- Mae CNC n dirfeddiannwr sylweddol, yn enwedig o dir coedwigoedd ym Meirionnydd sydd â nifer o hawliau tramwy cyhoeddus yn eu croesi. Rhaid cydweithio a rheolwyr tir i sicrhau nad yw gwaith coedwigaeth yn amharu a'r hawliau cyhoeddus.



- CNC sy'n gyfrifol am weinyddu grant Llwybr Arfordir Cymru sy'n talu am swyddog prosiect, gwaith cynnal a gwelliannau. Maent hefyd yn rhedeg sawl cronfa grant gan gynnwys cefnogaeth i waith o fewn AHNE Llŷn
- CNC sy'n arwain y gwaith o baratoi a diweddarau'r Datganiadau Ardal ac yn cydlynu'r Rhaglen Diwygio Mynediad.

### 2.11.5 Grwpiau Defnyddwyr

Mae cyswllt ac aelodau gwahanol grwpiau defnyddwyr yn digwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd. Maent yn helpu'r Gwasanaeth wrth adrodd ar broblemau ac adnabod gwelliannau sydd eu hangen.

Mae derbyn persbectif person mewn cadair olwyn yn gwneud byd o wahaniaeth wrth ddylunio llwybrau newydd ac mae eu harbenigedd yn werthfawr wrth baratoi gwelliannau i lwybrau marchogaeth a beicio.

Mae cynrychiolwyr lleol hefyd yn ymateb i ymgynghori ar orchmynion cyfreithiol ynghyd a lobio a dod a materion i sylw gwleidyddion lleol a chenedlaethol.

### 2.12 Gwirfoddolwyr

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi ymdrechu dros y blynyddoedd i gefnogi a chynyddu cyfleoedd gwirfoddoli gan unigolion a mudiadau. Mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu tuag at waith ar y rhwydwaith hawliau tramwy, y Lonydd Glas a hefyd ar diroedd gwarchodfeydd natur a choedlannau.

Mae gwirfoddolwyr yn gallu gwneud amrywiaeth eang o dasgau ond nid yw cynnal gweithlu gwirfoddol yn gallu digwydd heb gefnogaeth a gwaith trefnu a wneir gan staff y Gwasanaeth. Rhaid ystyried ym mhob achos iechyd a diogelwch y gwirfoddolwyr a sicrhau bod ganddynt yr offer a defnyddiau sy'n eu galluogi i gyflawni tasgau'n ddiogel ac effeithlon.

Mae dealltwriaeth erbyn hyn o'r budd mae unigolyn yn ei gael o wirfoddoli,

- gwella iechyd corfforol a meddyliol,
- cymdeithasu
- ennill profiadau a sgiliau newydd.

Mae galw a'r diddordeb yn bodoli i ymestyn cyfleoedd gwirfoddoli ond ni fyddai hyn yn effeithiol heb fod gennym yr adnoddau staff i drefnu a chydgordio'r gwaith.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 9**

**9a.** Bydd y Gwasanaeth yn adnabod cyfleoedd i ymestyn a chryfhau cysylltiadau gyda mudiadau ac unigolion sy'n awyddus i wirfoddoli ac yn ceisio cyllid er mwyn cefnogi'r gwaith a wneir ganddynt.

## 2.14 Fforymau Mynediad Lleol

Mae Fforymau Mynediad yn gyrrff statudol sy'n rhoi cyngor annibynnol ar faterion mynediad a hamdden awyr agored. Mae aelodaeth y Fforymau yn cynnwys ystod eang o fuddiannau defnyddwyr a deiliaid tir.

Mae tri Fforwm Mynediad Lleol y weithredol yn ardal Gwynedd, sef :

- Fforwm Arfon a Dwyfor - gweinyddir gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad
- Fforwm Gogledd Y Parc Cenedlaethol - gweinyddir gan APCE
- Fforwm De Y Parc Cenedlaethol - gweinyddir gan APCE

Mae'r Fforymau yn ymateb i ymgynghoriadau gan Y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus ar faterion fydd yn dylanwadu ar fynediad a defnydd tir yng Nghymru.

### 3.1 Beth yw'r map a'r datganiad swydddogol ?

Daeth yn ofynnol i awdurdodau lleol i baratoi map diffiniol a datganiad swydddogol yn sgil cyflwyno Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949.

Y cam cyntaf a gychwynnwyd yn 1950au cynnar oedd cynnal arolwg o'r Llwybrau troed, llwybrau ceffyl neu ffyrdd a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus. Arweiniodd yr arolwg i baratoi map drafft ac yna map darpari ethol. Yn ystod y broses bu cyfle i unigolion, mudiadau a thirfeddianwyr wened sylwadau a gwrthwynebu cynigion i gofrestru hawliau tramwy.

Y cam olaf oedd paratoi'r map swydddogol, yn achos Gwynedd golygai hyn ddau fap sef map swydddogol Sir Feirionnydd (cyhoeddwyd 13.8.1964) a map swydddogol Sir Gaernarfon (cyhoeddwyd 2.1.1975).

### 3.2 Defnydd a phwysigrwydd y Map Diffiniol a'r Datganiad Swydddogol.

Y Map Swydddogol yw sylfaen gwaith yr Awdurdod ym maes hawliau tramwy, mae'n allweddol i'r gwaith o reoli'r rhwydwaith Hawliau Tramwy. Dyma'r cofnod sy'n dangos lleoliad a statws hawl tramwy a ni ellir ei newid mewn unrhyw ffordd heb orchymyn cyfreithiol.

Mae cywirdeb y map yn bwysig dros ben wrth i'r Cyngor ystyried ceisiadau Cynllunio, neu i ddarpar brynwyr tir ag eiddo. Gall methiant i roi ystyriaeth i'r map diffiniol arwain at anghydfod rhwng cymdogion a rhwng unigolion a'r Cyngor.

Mae'r Map Diffiniol yn cael ei gadw gan yr Uned Cefn Gwlad ar nifer mawr o daflenni maint A1, a darperir copïau papur i'r cyhoedd, datblygwyr a thirfeddianwyr os gofynnir amdanynt. Mae yna fersiwn digidol o'r map sy'n cael ei ddefnyddio ar systemau mapio'r Cyngor ac a ddarperir i'r Arolwg Ordans ond nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cydnabod fersiynau digidol fel y gwir fap diffiniol.

Yn 2019 rhoddwyd y fersiwn digidol ar safle we allanol y Cyngor

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/map/default.htm?iaith=cy&xC=257293&yC=336548&layer=29&level=1>

Gellir defnyddio'r map i gyflwyno ymholiad neu gŵyn ynglŷn â chyflwr llwybr penodol. Er bod y map ar y we yn ddull effeithiol o gyflwyno gwybodaeth ni ddylid dibynnu'n arno i ddatrys ansicrwydd ynglŷn â llinell llwybr ac anogir y cyhoedd i drefni i weld y map diffiniol caled.

## DATGANIAD GWEITHREDU 10

**10a.** Cadw a diweddarau'r map swyddogol a datganiadau ysgrifenedig

**10b.** Cynnal a diweddarau'r map ar wefan Y Cyngor a hyrwyddo'i ddefnydd.

### 3.3 Gorchmynion Diwygio Map Swyddogol ( GDMS) :

Gall unrhyw ddefnyddiwr, tirfeddiannwr neu ddeiliad tir wneud cais i'r awdurdod priffyrdd i ddiwygio'r map swyddogol. Gwneir hyn trwy gyfrwng Gorchmynion Diwygio Map Swyddogol yn unol ag adran 53b o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Wrth baratoi cais rhaid i'r ymgeisydd gasglu a chyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r gorchmyn, bydd y Cyngor yn asesu'r cais ar sail y dystiolaeth. Gall y dystiolaeth fod yn dystiolaeth o ddefnydd neu'n dystiolaeth ddogfennol a hanesyddol.

Mae'n hollbwysig fod y Cyngor yn cymryd golwg gytbwys ar y cais gan roi cyfle teg i gefnogwyr a gwrthwynebwyr gyflwyno dadleuon o blaid ac yn erbyn y Gorchmynion.

Yn dilyn derbyn a chofrestru cais dylai'r Cyngor wneud penderfyniad ar gais GDMS o fewn 12 mis o'i gyflwyno. Os na wneir penderfyniad gall ymgeisydd apelio i'r Arolygaeth Gynllunio i osod amserlen ar y Cyngor i wneud penderfyniedwyr.

Ymdrechir lle bosibl i geisio datrysiaid rhwng y diddordebau gwahanol ond y tebygrwydd ydi bydd y mwyafrif o geisiadau yn mynd i'r Arolygaeth Gynllunio i benderfynu sut gellir dod i benderfyniad. Yn aml y penderfyniad ydi cynnal Ymchwiliad Cyhoeddus.

Oherwydd y pwyslais ar gywirdeb a safon y dystiolaeth a'r tebygrwydd o orfod cyfiawnhau penderfyniad mewn ymchwiliad cyhoeddus mae'n anorfod fod y broses yn drwm o safbwynt amser staff Yr Adran ynghyd a gwasanaeth cyfreithiol y Cyngor.

Mae cyfres o doriadau cyllidebol ers 2010 wedi golygu mai un aelod o staff penodedig sydd bellach ar gael i ymdrin â GDMS yn ogystal â gorchmynion eraill. Ychwanegwyd at y capasiti yn 2020 yn sgil apwyntio hyfforddai proffesiynol i gynorthwyo gyda gwaith cyfreithiol hawliau tramwy.

Canlyniad hyn yw bod ôl groniad o osodion Ionawr 2020 roedd 60 cais wedi'i gofrestru. Gall y cyhoedd weld rhestr o'r oll geisiadau ar safle we'r Cyngor.

Os na phenderfynwyd ar gais o fewn 12 mis i'w gofrestru, gall yr ymgeisydd ofyn i'r Arolygaeth Gynllunio osod amserlen i'r Cyngor ddod i benderfyniad

Mae'r Cyngor yn derbyn, ar gyfartaledd 3 cais newydd pob blwyddyn, yn bresennol mae'n cymryd o leiaf 4 blynedd i gais GDMS gael ei gwblhau yn enwedig os yw'n arwain i Ymchwiliad Cyhoeddus.

Or 60 cais cofrestredig sydd heb eu penderfynu gwelir bod 29 yn dyddio'n ôl cyn 1996 (Adrefnu Llywodraeth Leol). Rhaid nodi nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu'r awdurdod i ddiystyru unrhyw gais beth bynnag y dyddiad cafodd ei gofrestru. Gall y Cyngor fabwysiadu trefn ar gyfer blaenoriaeth ceisiadau, mae polisi 3.3 yn nogfen Polisiâu Hawliau Tramwy Gwynedd yn gosod meini prawf ar gyfer blaenoriaethu ceisiadau. Serch hynny, mae profiad y blynyddoedd diweddar wedi dangos bod angen cryfhau'r meini prawf a chynnwys trefn sgorio.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 11**

**11a** Mabwysiedir trefnu ar gyfer blaenoriaethu ceisiadau GDMS er mwyn gwneud y defnydd gorau a mwyaf effeithlon o adnoddau ac sy'n dod a'r budd mwyaf i ddefnyddwyr hawliau tramwy.

Eglurir y drefn blaenoriaethu i ymgeiswyr ac fe'i defnyddir i ymateb i apelïadau i'r Arolygaeth Gynllunio.

### **3.4 Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus (GLIC)**

Os yw'r Cyngor yn ystyried bod newid i'r Map Swyddogol yn ddymunol mae'n bosibl gwneud y newid drwy gyfrwng sawl gweithdrefn gyfreithiol a gorchmynion llwybrau cyhoeddus. Prif gymhelliad y Cyngor wrth wneud neu gefnogi GLIC yw'r budd sy'n deillio i'r rhwydwaith a defnyddwyr.

Er enghraifft defnyddir A25 Deddf Priffyrdd 1980 i greu llwybrau newydd drwy gytundeb y perchennog tir, mae A25 wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus er mwyn gwella llinell y llwybr Arfordir.

Gellir gwyrho hawl tramwy drwy ddefnyddio A119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae'n erfyn hwylus i osgoi manau peryglus neu i ddatrys anghydfod rhwng perchennog tir a defnyddwyr.

### **3.5 Gorchmynion Cam Cyfreithiol (GCC)**

Pwrpas GCC yw cofnodi ar y map swyddogol newidiadau sy'n deillio o GDMS, GLIC neu ddigwyddiadau eraill megis Gorchmynion Ffyrdd ymyl sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i welliannau priffyrdd.

Mae cwblhau a phrosesu GCC yn sicrhau bod y map swyddogol yn cael ei ddiweddarau a'i gadw'n gyfredol.

### 3.6 Gwallau ac anghysondebau

Mae'r map swyddogol yn cynnwys sawl math o wall neu anghysondeb er enghraifft gwahaniaeth rhwng y map a'r disgrifiad yn y datganiad ysgrifenedig, llwybrau sy'n darffod yn unman heb gysylltiad i lwybr neu briffordd arall, llinell llwybr yn cael ei ddangos yn mynd drwy adeilad neu strwythur oedd eisoes yn bodoli.

Mae llawer o'r gwallau yn dyddio'n ôl i adeg paratoi'r map drafft a'r map darpariaeth ond serch hynny mae gwallau o'r fath yn gallu bod yn sail i anghydfod rhwng perchnogion tir a'r Cyngor a rhwng un perchennog a'r llall.

Byddai angen dilyn trefn GDMS os am ddatrys nifer mawr o'r gwallau sydd ag oblygiadau mawr o safbwynt adnoddau.

Nodwyd yn CGHT 2007 byddai angen un aelod o staff ychwanegol er mwyn datrys 200 achos fyddai angen GDMS. Oni bai bod achosion wedi codi sy'n golygu ei bod yn angenrheidiol i ddatrys gwall ni fu'n bosibl ymateb i'r mwyafrif helaeth o'r 200 gwall. Mae'n annhebygol bydd adnoddau yn ganatau i'r gwallau hyn gael eu datrys yn y dyfodol a rhaid ymdrin â hwy fesul achos.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 12**

**12.a** Adolygir y rhestr o wallau ac anghysondebau ar y map diffiniol, gweithredi'r i'w datrys os yw adnoddau caniatáu.

### 3.7 Ffyrdd coll

Defnyddir y term "ffyrdd coll" i ddisgrifio llwybrau na chawsant erioed eu hadnabod a'u cofnodi ar y map swyddogol. Yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gosodwyd Ionawr 2026 fel y dyddiad terfynol ar gyfer cofrestru'r "ffyrdd coll" yn seiliedig ar dystiolaeth hanesyddol sef cyn 1949.

Mae'n werth nodi nid yw'r Adran yma o'r ddeddf wedi'i gweithredu yng Nghymru ac mae ei berthnasedd yn cael ei ystyried o fewn y Rhaglen Diwygio Mynediad.

## Rhan 4. Thema C : Cwrdd â anghenion defnyddwyr

### 4.1 I ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn bodloni'r cyhoedd nawr ac yn y dyfodol.

Er mwyn ceisio adnabod anghenion defnyddwyr rhoddwyd cyfle i'r cyhoedd roi eu barn mewn ymgyrch ymgysylltu yn 2017. Cafwyd 1,386 ymateb dilys, mae adroddiad llawn o ganfyddiadau'r holiadur wedi gyflwyno yn atodiad 2.

Rhaid cadw mewn cof gall unigolion, gwaeth beth fo'u gall corfforol fod yn perthyn i fwy na un grŵp o ddefnyddwyr.

Mewn ymateb i Holiadau Hawliau Tramwy dywedodd

- 43.6% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn cerdded hawliau tramwy yn ddyddiol
- Mewn ymateb i'r cwestiwn "Beth yw eich prif resymau am ddefnyddio Hawliau Tramwy?", atebodd 71.7% er mwyn cadw'n heini, 59.1% i wyllo bywyd gwylt a mwynhau cefn gwlad a dywedodd 38.8% i fynd a'r ci am dro.
- Roedd 61.2% wedi dod ar draws problem wrth ddilyn hawl tramwy.
- Un o brif ganfyddiadau'r ymgynghoriad oedd bod llwybrau cylch a llwybrau lleol yn cael eu ffafrio gan fwyafrif o ddefnyddwyr yn hytrach na lwybrau pellter hir.
- Mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd yn yr Holiadur "Ydych yn credu fod y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn addas ac yn cwrdd â gofynion y mwyafrif o ddefnyddwyr?" Dywedodd 44% eu bod yn fodlon a 41% yn dweud nad oeddynt (15% heb ateb).
- Mewn ymateb cwestiwn ynglŷn â sut gellir gwella'r rhwydwaith, o'r rhai oedd wedi ateb nad oeddynt yn fodlon gyda'r rhwydwaith roedd canran uchel yn awyddus i weld rhagor o lwybrau beic, Llwybrau marchogaeth ac roedd 18.3% yn credu dylai beicwyr a marchogion gael yr hawl i ddefnyddio'r mwyafrif o lwybrau troed.
- Roedd cefnogaeth gref dros newid deddfwriaeth er mwyn hwyluso gwaith Awdurdodau Lleol i greu a diwygio hawliau tramwy.

Yn ychwanegol i'r holiadur gofynnwyd hefyd am farn y Cynghorau Cymuned a Thref a'r Fforymau Mynediad. Roedd themâu clir i'w gweld o'r ymgynghoriad sef awydd i gael -

1. Rhwydwaith sy'n darparu cysylltiadau rhwydd o fewn cymunedau ar gyfer hamddena, cadw'n heini a theithio llesol.
2. Rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth well ar gyfer pob carfan o ddefnyddwyr

## 4.2 Cerddwyr

Mae gan gerddwyr yr hawl i ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy gyfan, gyda llawer yn cerdded gyda'i cwn neu gyda phram neu gerbyd plentyn.

Dengys tystiolaeth genedlaethol, mai taith gerdded oddeutu 3 milltir sy'n arferol i fwyafrif o bobl. Gwelwyd o'r ymgynghoriad bod dymuniad i gael llwybrau cylch sy'n agos i gymunedau ac yn hwylus a diogel i'w defnyddio. Daeth y galw yma i'r amlwg yn ystod cyfnod clo Cofid yn 2020 pan welwyd cynnydd mewn defnydd llwybrau oedd yn agos i gymunedau.

Gellir gwella llawer o lwybrau er budd pob defnyddiwr drwy weithredu egwyddorion dull lleiaf rhwystrol sef newid camfeydd am giatiau ac os yn bosibl cael gwared â giatiau hefyd. Rhaid wrth gwrs gymryd anghenion rheolaeth stoc i ystyriaeth ond mae'r gwasanaeth cefn gwlad wedi cael llwyddiant i gytuno'r newidiadau gyda rheolwyr tir.

## 4.3 Beicwyr

Mae beicio ar ac oddi ar y briffordd wedi tyfu mewn poblogrwydd dros y ddegawd ddiwethaf.

Gall beicwyr ddefnyddio hawliau tramwy sy'n llwybrau marchogaeth, cilffyrdd cyfunedig a chilffyrdd ar gael i bob traffic. Yn ychwanegol mae'r gan Wynedd y rhwydwaith Lonydd Glas sy'n llwybrau aml ddefnydd wedi'i datblygu'n bennaf ar y cyn rheilffyrdd.

Mae'r Lonydd Glas hefyd yn rhan o'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, Lon Las Cymru (Rhif 8) sy'n defnyddio cyfuniad o'r Lonydd Glas, lonydd tawel a llwybrau ar diroedd coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Lonydd Glas hefyd wedi'i adnabod fel llwybrau Teithio Llesol gan eu bod yn cysylltu cymunedau -

- Lon Las Ogwen – Bangor – Glasinfryn – Tregarth – Bethesda
- Lon Las Menai – Caernarfon – Y Felinheli
- Lon Eifion – Caernarfon- Groeslon, Penygroes , Bryncir

Datblygwyd ac uwchraddiwyd y rhwydwaith presennol dros gyfnod o 20 mlynedd, mae'r prif lwybrau bellach gydag wyneb tarmac ac mae gwelliannau mawr wedi cymryd lle yn sgil sicrhau grantiau, er enghraifft agor twnnel Tywyll, er mwyn creu cyswllt uniongyrchol rhwng Tregarth a Bethesda.



## 4.4 Marchogwyr

Dim ond 10% o'r rhwydwaith hawliau tramwy sydd ar gael i farchogwyr. Yn ychwanegol mae'r ddarpariaeth bresennol yn fratiog sy'n golygu nad yw'n bosibl dilyn taith heb orfod mynd ar y briffordd. Gan fod peryglon amlwg yn gysylltiedig â marchogaeth ar briffordd brysur mae'r Gymdeithas Ceffylau Prydeinig a grwpiau lleol yn ymgyrchu i wella'r ddarpariaeth ar gyfer marchogwyr.

Gall y Cyngor wella darpariaeth i farchogwyr drwy

- Gwneud gwelliannau llwybrau marchogaeth a chilffyrdd presennol, gall hyn gynnwys addasu giatiau i'w gwneud yn haws i'w agor a chau ar gefn ceffyl. Mae marchogwyr hefyd yn awyddus i gael defnydd llawn o'r rhwydwaith Lonydd Glas. Yn bresennol caniateir defnydd o Lon Las Ogwen a rhannau o Lon Eifion, penderfynwyd yn y gorffennol i gyfyngu'r defnydd o'r Lonydd Glas er diogelwch y marchogion a defnyddwyr eraill.
- Cofrestru hawliau newydd neu uwchraddio hawliau presennol drwy drefn GDMS. Fel y nodwyd yn rhan 3.3 mae'r drefn yma'n aml yn gynhennus a bydd y mwyafrif o berchnogion a rheolwyr tir yn anfodlon cydweithio i uwchraddio hawliau o lwybr troed i lwybr marchogaeth neu gulffordd.
- Cynnwys darpariaeth fel rhan o gynlluniau a phrosiectau Teithio Llesol, er nid yw canllawiau Teithio Llesol presennol y cyfarch anghenion marchogwyr.

## 4.5 Asesu Anghenion pobl gyda nam ar eu synhwyrau a'u symudedd

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 20.5 % o boblogaeth Gwynedd yn dangos bod gweithgaredd dydd i ddydd yr unigolion wedi eu cyfyngu oherwydd anabledd. Nodwyd bod 9.7% (11,824) gyda lefel uchel o gyfyngiad a 10.8% (13,184) gyda lefel isel o gyfyngiad.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor, ym mhopeth a wneir gan yr Awdurdod i gydymffurfio a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 i leihau anghydraddoldeb boed hyn yn seiliedig ar hil, oedran, anabledd corfforol, crefydd neu cyfeiriadedd rhywiol. Rhad hefyd gymryd i ystyriaeth Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Yng nghyd-estyn mynediad i Gefn Gwlad mae'r sylw pennaf am fod ar sut gellir ymateb i anghenion unigolion sydd â phroblemau symudedd, yn ddall neu'n rhannol ddall.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad bod 7% o rai a atebodd yn dweud nad oeddynt yn defnyddio hawliau tramwy am resymau anabledd, oedran ac iechyd gwael.

Rhaid cydnabod bod natur tirwedd a thopograffi Gwynedd am fod yn rhwystr i rai defnyddwyr serch hynny ni ddylai hyn fod yn esgus i beidio gweithredu camau ymarferol a rhesymol fy ngwella mynediad i bawb.

Camau ymarferol –

- Gweithredu dull lleiaf rhwystrol mewn perthynas â hawl tramwy a llwybrau a rheolir gan Y Cyngor. Yr enghraifft amlwg fyddai i newid camfa i giât, ac os yn bosibl i gael gwared â'r giât yn gyfan gwbl. Gall hefyd gynnwys lleihau rhwystrau wrth fynedfeydd y Lonydd Glas oni bai eu bod yn allweddol am resymau diogelwch yn arbennig ger priffyrdd. Gosod “tap rail” ar ganllawiau pont i helpu unigolion dall neu rhannol ddall i gyfarwyddo’i hunain a’r lleoliad.
- Mae llwybrau gydag wyneb gwastad heb dyllau yn llawer mwy diogel a hwylus i’w defnyddio gan gadeiriau olwyn ac unigolion sy’n cael hi’n anodd cadw balans.

Er pa mor bwysig yw’r camau ymarferol rhaid hefyd ystyried sut gellir hyrwyddo llwybrau’n well drwy ddefnyddio technoleg a dylunio arwyddion a gwybodaeth yn y maes mewn ffordd sy’n hawdd ei gyrraedd a’i ddarllen. Enghraifft amlwg fyddai gosod panel dehongli a’r uchder lle gallai rhywun mewn cadeiriau olwyn ei ddarllen yn ogystal â gwybodaeth mewn braille ar baneli neu byst cyfeirio.

Mae’r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi ymdrechu ers blynnyddoedd i ddeall a gweithredu er budd unigolion a nam ar y synhwyrâu. Serch hynny mae yna le i gydweithio’n agosach a mudiadau a grwpiau defnyddwyr.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 13**

**13a** Gweithredu’r dull mynediad lleiaf rhwystrol – newid camfeydd am giatiau lle’n bosibl, lleihau rhwystrau ar y Lonydd Glas a llwybrau aml ddefnydd eraill.

**13b** Adnabod a gwella llwybrau sy’n agos i gymunedau ac sy’n hwylus i’w defnyddio gan bobl leol a gan bobl gyda nam ar eu symudedd a’u synhwyrâu.

**13c.** Gweithio gyda phartneriaid o fewn a thu allan i’r Cyngor i adnabod cyfleoedd i wella mynediad i bawb.

**13ch.** Codi ymwybyddiaeth am lwybrau sy’n addas i bawb.

#### **4.6 Y galw am lwybrau aml ddefnydd**

Mae’n amlwg o’r ymgynghori a fu ac o’r ymholiadau a dderbynnir gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad bod yna awydd ymysg carfan sylweddol o ddefnyddwyr am ragor o lwybrau aml ddefnydd, sef llwybrau i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr sydd hefyd yn cwrdd â gofynion pobl gyda phroblemau symudedd.

Byddai ymestyn argaeledd llwybrau aml ddefnydd yn sicr o gwrdd ag anghenion defnyddwyr, gwelir o’r defnydd o’r Lonydd Glas eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer

hamdden, cadw'n heini, ymlacio ac ar gyfer Teithio Llesol (ee at bwrpas mynd a dod i'r gwaith neu ysgol ), maent hefyd yn adnodd gwerthfawr i'r diwydiant twristiaeth yng Ngwynedd.

Er bod y Cyngor wedi cydweithredu'n llwyddiannus dros y blynyddoedd ag eraill i ymestyn y rhwydwaith Lonydd Glas a llwybrau aml-ddefnydd eraill, fodd bynnag mae yna ffactorau cyfreithiol ac ymarferol a all atal neu ohirio cynnydd, megis:

- Os am sefydlu hawliau uwch ar lwybr troed sydd eisoes yn bodoli, hyd yn oed os yw'r llwybr ar y ddaear yn addas ar gyfer beicio a marchogaeth rhaid cael cydweithrediad y perchennog tir. Os nad yw'r perchennog tir yn cytuno gyda newid statws rhaid dilyn trefn GDMS neu A26 Deddf Priffyrdd 1980.
- Os am ymestyn y rhwydwaith Lonydd Glas, er enghraifft ymestyn Lon Eifion i'r de o Fryncir rhaid sicrhau'r tir neu greu hawliau newydd dros dir lle nad oedd hawliau cyhoeddus yn bodoli.
- Mae disgwyl i lwybrau aml ddefnydd fod o safon ac ansawdd uchel, sy'n anorfod yn golygu costau sylweddol os am greu llwybrau newydd neu uwchraddio llwybrau presennol. Er nad yn addas ym mob achos dylai llwybrau aml ddefnydd gwrdd â safonau Teithio Llesol Cymru.
- Nid yw pawb yn cytuno â chaniatáu pob math o ddefnydd ar lwybr. Mae pryderon ynghylch diogelwch, yn enwedig gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr, mewn perthynas â chŵn heb fod dan reolaeth neu'n ofn bod yn agos i geffylau neu feiciau sy'n cael eu reidio ar gyflymder. Er na ddylid diystyru'r pryderon hyn, gellir eu goresgyn gyda dyluniad da, gwybodaeth ac ymgysylltiad â defnyddwyr.

Mae'r angen am lwybrau aml-ddefnyddiwr yn cael ei ystyried fel rhan o broses Adolygu Mynediad, gyda chynnig i feicwyr a marchogion cael yr hawl i ddefnyddio'r llwybr cyhoeddus presennol. Disgwylir canlyniad yr Adolygiad yn ystod 2021, ond cymerith amser hir cyn gellir gweithredu unrhyw newidiadau deddfwriaethol

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 14**

**14a** Bydd y Cyngor yn ffafrio gwelliannau i'r rhwydwaith sy'n cynnig darpariaeth aml ddefnydd.

**14b** Oni bai fod rhesymau diogelwch cadarn yn bodoli dylid caniatáu defnydd o'r rhwydwaith Lonydd Glas i farchogwyr.

## 4.7 Teithiau a hyrwyddir

Mae'r Cyngor wedi ymdrechu dros y blynyddoedd i ddarparu teithiau cylch a llwybrau hir sy'n hwyluso ac annog mynediad er budd trigolion lleol ac i gwrdd â dyheadau twristiaid i fwynhau prydfferthwch a threftadaeth Gwynedd. Yn aml mae teithiau yn dilyn them arbenig yn gysylltiedig â hanes neu fywyd gwyllt.

Mae pwysigrwydd twristiaeth cerdded i'r economi wledig yn amlwg, amcangyfrifir bod twristiaeth cerdded yn dod a £550 miliwn yn flynyddol i economi Cymru gyda'r llwybr arfordir yn gyfrifol am £32 miliwn.

Bydd y mwyafrif o'r teithiau yn defnyddio hawliau tramwy, ffyrdd tawel a llwybrau ar dir cyrff megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Wrth greu taith i'w hyrwyddo mae'r Cyngor yn cydnabod rhaid cynnal y llwybrau gan sicrhau bod y dodrefn yn gyfan a diogel ac wedi'i harwyddo'n glir.

Mae Gwasanaeth Twristiaeth y Cyngor wedi cydweithio gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad dros y blynyddoedd i hyrwyddo a marchnata'r teithiau yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'r mwyafrif o'r marchnata yn digwydd ar wefan Eryri Mynyddoedd ac Mor. Er yn llai poblogaidd erbyn hyn defnyddir dulliau traddodiadol megis taflen, llyfryn neu banel gwybodaeth i hyrwyddo taith. Dros y blynyddoedd diweddar mae'n arferol i'r wybodaeth fod ar gael ar y we yn unig a drwy wahanol ap ar ffonau clyfar. Mae technoleg yn cynnig cyfleoedd newydd, er enghraifft gellir dilyn y Llwybr Arfordir ar Google Street.

Mae llawer o lwybrau a theithiau yn cael eu hyrwyddo ar y we gan gyrff a mudiadau sy'n annibynnol o'r Cyngor neu'r Parc Cenedlaethol.

Sefydlwyd y mwyafrif o'r teithiau gyda chymorth grantiau unwaith ac am byth, mae argaeledd grantiau wedi caniatáu i gynghorau Cymuned a Thref, asiantaethau adfywio a mentrau cymunedol i fynd ati i sefydlu teithiau lleol a rhai pellter hir. Ynndo hyn nid yw hyn yn beth drwg gan ei fod yn golygu bod llwybrau yn cael eu gwella.

Yn arferol nid yw grantiau ar gael i gynnal y teithiau sy'n golygu bod y mwyafrif o'r gost yn disgyn ar y Gwasanaeth Cefn Gwlad i'w cynnal a'i chadw. Mae eithriadau megis y Llwybr Arfordir sy'n derbyn cyllideb flynyddol i'w gynnal a hefyd Llwybr Llechi Eryri sy'n Fenter Gymdeithasol.

Yn anffodus mae rhai teithiau eraill wedi dirywio oherwydd diffyg cyllid i'w cynnal a chadw. Rhaid felly ystyried dulliau amgen o gynnal y llwybrau a hyrwyddir, er enghraifft drwy :

- Rhesymoli'r teithiau gan ganolbwyntio adnoddau i sicrhau fod nifer llai mewn cyflwr da.

- Annog Cyngorau Cymuned, busnesau twristiaeth, mentrau cymdeithasol neu elusennau sy'n datblygu teithiau i sicrhau eu bod yn ystyried oblygiadau cynnal cyn ceisio am grantiau ac i ymgynghori gyda'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn gynnar.
- Sefydlu a chynnal gweithlu o wirfoddolwyr i ofalu am y llwybrau.

Yn ystod cyfnod clo Cofid roedd diddordeb mawr gan drigolion lleol mewn ail ddarganfod eu bröydd a gwelwyd cynnydd mewn defnydd llwybrau oedd yn agos i drefni a phentrefi. Nid yn unig dylid gwneud ymdrech i wella cyflwr ffisegol y llwybrau ond mae galw i'w hyrwyddo'n lleol.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 15**

**15a.** Bydd y Gwasanaeth yn asesu ansawdd a defnydd teithiau sy'n cael eu hyrwyddo ac yn ystyried eu rhesymoli os nad oes trefniant i'w cynnal yn yr hir dymor. Gellir gwneud y gwaith yma fel rhan o adolygiad Categoriadau.

**15b.** Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo cyfleoedd mynediad yn agos at gymunedau lleol.

### **4.8 Bioamrywiaeth**

Mae bioamrywiaeth a'r ecosystem rydym yn byw ynddi yn greiddiol i fwynhad pobl o gefn gwlad. Mae'r rhwydwaith hawliau tramwy, y Lonydd Glas a thir agored yn caniatáu i bobl fwynhau a gwerthfawrogi byd natur.

Mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd gynnal a gwella bioamrywiaeth ym mhopeth a wneir gan yr Awdurdod yn unol ag A6 o Ddeddf Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Adran 6 yn nodi "*Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio gwarchod a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer ei swyddogaethau yng Nghymru, a thrwy hyn hyrwyddo gwydnwch ecosystemau ...*"

Mae llawer o diroedd, afonydd ac arfordir Gwynedd wedi eu dynodi oherwydd eu pwysigrwydd ecolegol a daearegol. Yn ychwanegol mae cefn gwlad Gwynedd yn frith o lecynnau sy'n cynnal amrywiol rhywogaeth o famaliaid, adar, planhigion, ymlusgiaid a phryfetach. Mae'r tiroedd boed yn ddynodedig neu beidio yn bwysig i fywyd gwyllt a rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion mynediad a gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau. Dylid bod yn ofalus wrth wneud gwelliannau ac uwchraddio llwybrau yn ogystal ag amseru gwaith rheoli tyfiant er mwyn osgoi ymyrryd ag adar yn nythu a thorri blodau gwyllt.

#### **DATGANIAD GWEITHREDU 16**

**16a.** Rhoddir ystyriaeth i fioamrywiaeth wrth baratoi gwaith i gynnal a gwella llwybrau.

#### **4.9 Cynlluniau Amaeth- amgylcheddol yn dilyn Brexit**

Mae ymadawriad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd yn golygu rhaid creu fframwaith newydd ar gyfer cefnogi'r sector amaethyddol. Ers degawdau mae cynlluniau megis Tir Gofal a Glastir wedi cyfrannu tuag at wella cynefinoedd naturiol ac adfer nodweddion tirwedd megis cloddiau a waliau cerrig. Er i rai tirlfeddiannwr fanteisio ar y cyfle i greu llwybrau caniataol ni fu cefnogaeth uniongyrchol tuag at gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae potensial i ymgorffori cynnal hawliau tramwy o fewn cyfundrefn newydd ar gyfer daliadau cymhorthdal i dirfeddianwyr.

DRAFFET

DRAFFET

DRAFFET



# Holiadur Hawliau Tramwy

**Dyddiad Cyflwyno:** 2017-10-09

**Awduron:** Tîm Ymchwil a Dadansoddeg

# Cynnwys

	<b>Tudalen</b>
Cyflwyniad	3
Methodoleg	5
Ymatebion i'r holiaduron	6
Eich defnydd o hawliau tramwy	7
Eich barn	16
Eich barn o hawliau tramwy	23

# 1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd ar y cyd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn bwriadu adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).

Dogfen strategol yw'r CGHT i'w defnyddio gan Awdurdodau Lleol er mwyn cynllunio ar gyfer rheoli, datblygu a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy. Bydd y CGHT yn gosod fframwaith ar gyfer adnabod, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'w rhwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad er budd cerddwyr, beicwyr, marchogwyr, unigolion sydd â phroblemau symudedd ac eraill.

Mae Hawliau Tramwy yn cynnwys llwybrau troed, marchogaeth a chilffyrdd (lonydd cul fel arfer, yn aml heb wyneb), ond nid ydynt yn cynnwys ffyrdd.

Fel rhan o'r adolygiad, roedd y gwasanaeth yn awyddus i gael barn trigolion i'w cynorthwyo i gynllunio ar gyfer sut y gallent wella a chynnal y rhwydwaith Hawliau Tramwy yng Ngwynedd. Bydd yr ymatebion i'r holiadur felly yn cael eu hystyried wrth adolygu'r CGHT.

## Y System Gategoreiddio

Mae'r drefn hon o gategoreiddio hawliau tramwy wedi cael ei mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd er mwyn helpu blaenoriaethu adnoddau tuag at gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae mwyafrif o hawliau tramwy'r sir yn disgyn i un o bedwar categori. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhoi blaenoriaeth i lwybrau yng nghategoriau 1 a 2 sef oddeutu 45% o'r rhwydwaith.

### Categori 1

Mae'r mwyafrif o'r llwybrau hyn eisoes yn cael eu defnyddio'n helaeth ac yn ffurfio cysylltiadau o fewn trefi, pentrefi neu rhwng cyfleusterau trafniadaeth gyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau. Maent yn cynnwys:

- Llwybrau a theithiau sy'n cael eu hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol gan gynnwys y Llwybr Arfordir.
- Llwybrau sy'n cysylltu ardaloedd trefnol neu llwybrau o fewn ardaloedd trefol.
- Y rhwydwaith Lonydd Glas a llwybrau sydd â photensial uchel i'w datblygu i fod yn llwybrau "Teithio Llesol".

### Categori 2

Llwybrau poblogaidd a ddefnyddir yn bennaf er pleser gan gynnwys llwybrau o amgylch cymunedau, teithiau cylch neu fynediad i dir agored neu draethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gan Gyngor Gwynedd, y Parc Cenedlaethol a mudiadau cymunedol gan gynnwys y Cynghorau Cymuned.
- Llwybrau sy'n llai tebygol o fod yn addas ar gyfer eu datblygu i fod yn llwybrau "Teithio Llesol".

### Categori 3

3

Llwybrau nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml yw'r rhain, ond sydd er hynny yn ffurfio cysylltiadau rhwng llwybrau yng nghategoriâu 1 a 2. Maent yn llwybrau sydd a'r potensial i'w defnyddio i annog cerdded rhwng cymunedau neud i ffurfio rhan o daith y gellir ei hyrwyddo yn y dyfodol.

#### **Categori 4**

Llwybrau heb unrhyw ddefnydd na photensial amlwg lle ceir dewis amgen cyfagos o lwybrau mewn categorïau uwch. Fel arfer nid oes iddynt fawr ddim potensial i greu cysylltiadau defnyddiol nac i ffurfio rhan o daith i'w hyrwyddo. Maent hefyd yn cynnwys llwybrau sydd ag amheuaeth ynglŷn â'u statws a hynny'n annhebygol o gael ei ddatrys.

Mae'r holiadur yn rhan o'r gwaith rhagbaratoi ar gyfer adolygiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, sy'n ofynnol i'r Cyngor ei baratoi yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Mynediad 2000. Bydd yr holiadur yma yn cynorthwyo i greu darlun o anghenion mynediad trigolion Gwynedd er mwyn gallu cynllunio sut i wella a chynnal y rhwydwaith Hawliau Tramwy yng Ngwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi canlyniadau'r holiadur.

## 2. Methodoleg

Er mwyn canfod barn trigolion Gwynedd ar anghenion mynediad er mwyn gallu bwydo i mewn i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, defnyddiwyd holiadur fel dull casglu gwybodaeth.

Mae'r holiadur yma yn seiliedig ar arolwg hamdden awer agored Cymru gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Agorwyd y cyfnod ymateb i'r holiadur ar yr 10fed o Orffennaf hyd at 1af o Fedi 2017.

Fe osodwyd holiadur digidol ar dudalen 'Dweud eich dweud', sef safle ymgynghoriadau ar wefan y Cyngor, er mwyn casglu barn y cyhoedd cyffredinol.

Darparwyd copïau papur o'r holiadur ym mhob un o Siopau Gwynedd, ynghyd a'r llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden ar draws y sir yn ogystal.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo trwy'r dudalen 'Dweud eich dweud', a hefyd trwy gyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Thrydar. Roedd yr holiadur hefyd yn cael ei hybu gan Parc Cenedlaethol Eryri.

Derbyniwyd ymatebion drwy'r post a drwy holiaduron ar-lein.

### 3. Ymatebion i'r holiaduron


Bydd y rhan yma o'r adroddiad yn dadansoddi ymatebion i'r holiaduron.

#### 3.01 Sut derbyniwyd ymatebion?

Derbyniwyd cyfanswm o 1,386 o ymatebion dilys i'r holiadur.

Dengys yn *Graff001* rhaniad ffurf ateb yr holiaduron. Gwelir fod y nifer helaeth, sef 97.1% (Nifer=1,346) o'r ymatebion wedi cael eu llenwi ar-lein. Tra bod niferoedd ateb papur, 2.9% (N=40) yn isel iawn o gymharu.

*Graff001*



## Eich defnydd o Hawliau Tramwy

### 3.02 Cwestiwn 1. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio hawliau tramwy ar gyfer rhai o'r gweithgareddau isod?

Gweler o'r tabl isod mai'r fath o weithgaredd fwyaf poblogaidd i'w wneud ar gyfer defnyddio hawliau tramwy yw cerdded - gyda bron i hanner (43.6%) o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cerdded bob dydd, a bron i un o bob pump (18.0%) yn nodi eu bod yn cerdded dwywaith yr wythnos. Yr ail weithgaredd fwyaf poblogaidd yw beicio - ond mae pobl yn gwneud hyn yn llai aml na cherdded (ychydig dros 25% yn ei wneud o leiaf un waith yr wythnos). Mae niferoedd sydd yn marchogaeth yn isel iawn i gymharu, bron i 15% yn ei wneud o leiaf un waith yr wythnos.

Tabl001

	Bob dydd	Dwywaith yr wythnos	Wythnosol	Misol	Weithiau	Byth	Dim ateb
Cerdded	43.6%	18.0%	18.2%	6.8%	6.9%	2.0%	4.5%
Beicio	5.3%	9.7%	11.5%	9.7%	16.2%	18.0%	29.6%
Marchogaeth	6.3%	4.2%	4.3%	0.8%	4.6%	43.7%	36.1%
Ceffyl a throl	0.6%	0.2%	0.6%	0.5%	2.0%	50.6%	45.4%
Arall	2.4%	2.5%	2.1%	0.8%	2.3%	38.5%	51.4%

### 3.03 Cwestiwn 2. Os arall, nodwch pa weithgaredd?

Rhai gweithgareddau oedd yn cael eu nodi ar wahân i'r uchod oedd rhedeg, caiacio / canŵio a dreifio.

### 3.04 Cwestiwn 3. Os ydych wedi nodi 'Byth' ar gyfer unrhyw un o'r uchod, beth yw eich prif reswm / resymau dros beidio defnyddio Hawliau Tramwy?


Gweler o'r tabl isod mai'r rheswm mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei rhoi am beidio ag defnyddio hawliau tramwy yw bod ddim digon o wybodaeth amdanynt (8.3%, N=115). Gweler yr holl ymatebion yn *Nhabl002*.

Tabl002

	Nifer	Canran
Anabledd	37	2.7
Oedran	34	2.5
Iechyd gwael	25	1.8
Dim digon o wybodaeth amdanynt	115	8.3
Rhy brysur	65	4.7

Tywydd gwael	26	1.9
Arall	415	29.9
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>		

I'r rhai a nododd 'Arall', sef 29.9% (N=415) y rheswm a roddwyd oedd eu bod ddim yn berchen ar un ai ceffyl a throl neu feic.



### 3.05 Cwestiwn 4. Faint o amser ydych chi'n treulio yn gwneud y gweithgareddau yma ar un tro?


Yr ateb fwyaf cyffredin i'r cwestiwn yma oedd 'mwy na dwy awr' gyda bron i hanner (47.0%, N= 652) o'r ymatebwyr yn nodi hyn. Roedd ychydig dros draean o'r ymatebwyr (36.9%, N=512) yn nodi eu bod yn gwneud y gweithgareddau am awr i ddwy awr, gyda bron i un o bob pump o'r ymatebwyr (17.4%, N=241) yn nodi eu bod yn gwneud gweithgareddau am hanner awr i awr.

Tabl003

	Nifer	Canran
Llai na hanner awr	62	4.5
Hanner awr i awr	241	17.4
Awr i ddwy awr	512	36.9
Mwy na dwy awr	652	47.0
Arall	39	2.8
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>		



O'r rhai oedd wedi nodi 'arall' roedd yr atebion yn amrywio o nodi eu bod yn gwneud gweithgareddau trwy'r dydd i nodi bod yr amseroedd mae nhw'n gwneud gweithgareddau yn amrywio gan ddibynnu ar y gweithgaredd a'r sefyllfa.



### 3.06 Cwestiwn 5. Beth yw eich prif resymau am ddefnyddio Hawl Tramwy?

Gweler fod bron i dri chwarter o'r ymatebwyr yn defnyddio hawliau tramwy i gadw'n heini (71.7%, N=994) ac oherwydd diddordeb (71.6%, N=993). Mae nifer fawr hefyd yn eu defnyddio ar gyfer gwyllo bywyd gwyllt / mwynhau'r dirwedd (59.1%, N=819).


Tabl004

	Nifer	Canran
Mynd a'r ci am dro	538	38.8
I gadw'n heini (e.e. cerdded, rhedeg)	994	71.7
Diddordeb (e.e. cerdded / marchogaeth fel diddordeb)	993	71.6
Gwyllo bywyd gwyllt / mwynhau'r dirwedd	819	59.1
I gael mynd at gyfleusterau (e.e. siop, ysgol, eglwys, gwaith)	412	29.7
Cymryd rhan mewn gweithgareddau	382	27.6
Arall	71	5.1
<b>Cyfanswm</b>		
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>		

O'r rhai oedd yn nodi 'arall', roedd rhesymau yn cynnwys pethau fel gweithio / mynd i'r gwaith a chael i ffwrdd o lonydd.

Graff003

9



### 3.07 Cwestiwn 6. Pa rai o'r dulliau yma o fynd i gefn gwlad ydy'r gorau gennyh chi?

Roedd y cwestiwn yma yn gofyn i ymatebwyr rancio'r dulliau o 1 i 8. Gweler mai'r dulliau sydd yn cael eu rancio yn uchaf yw llwybrau cyhoeddus a thiroedd sydd â mynediad agored. Tra'r rhai sy'n rancio yn isaf yw tiroedd yr ymddiriedolaeth genedlaethol, traethau a thiroedd coedwigaeth.


Tabl005

	Ranc 1	Ranc 2	Ranc 3	Ranc 4	Ranc 5	Ranc 6	Ranc 7	Ranc 8
Llwybrau Cyhoeddus	555 (40.0)	286 (20.6)	130 (9.4)	77 (5.6)	45 (3.2)	58 (4.2)	31 (2.2)	41 (3.0)
Hawliau Tramwy eraill (e.e. Llwybrau Marchogaeth neu gilffyrdd)	139 (10.0)	254 (18.3)	159 (11.5)	140 (10.1)	111 (8.0)	117 (8.4)	94 (6.8)	122 (8.8)
Llwybrau sydd â hawl tramwyo (e.e. Rhwydwaith Lonydd Glas)	33 (2.4)	161 (11.6)	200 (14.4)	147 (10.6)	148 (10.7)	143 (10.3)	168 (12.1)	128 (9.2)
Tiroedd Coedwigaeth	35 (2.5)	85 (6.1)	142 (10.2)	175 (12.6)	150 (10.8)	212 (15.3)	198 (14.3)	129 (9.3)
Tiroedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	10 (0.7)	61 (4.4)	111 (8.0)	147 (10.6)	180 (13.0)	185 (13.3)	218 (15.7)	212 (15.3)
Ffyrdd bach cefn gwlad	49 (3.5)	126 (9.1)	190 (13.7)	193 (13.9)	205 (14.8)	143 (10.3)	155 (11.2)	123 (8.9)

Traethau	71 (5.1)	186 (13.4)	210 (15.2)	196 (14.1)	163 (11.8)	135 (9.7)	107 (7.7)	131 (9.5)
Tiroedd sydd â Mynediad Agored	421 (30.4)	120 (8.7)	103 (7.4)	124 (8.9)	146 (10.5)	113 (8.2)	112 (8.1)	104 (7.5)

*Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn cwestiwn aml-ddewis*

Graff004



### 3.08 Cwestiwn 7. Os ydych yn ddefnyddiwr Hawliau Tramwy, pa rai o'r canlynol fydddech yn mynd efo chi / defnyddio?


Gweler o'r tabl isod mai'r pethau roedd pobl yn fwyaf tebygol o fynd efo nhw pan yn defnyddio hawliau tramwy oedd dwr/diod (78.8%, N=1,092), ffon clyfar neu tabled (68.1%, N=944) a map (63.4%, N=879). Nododdd nifer bychan y buasen yn mynd a cadair olwyn (1.6%, N=22). Roedd rhai o'r atebion 'arall' yn cynnwys dillad addas, ysbïenddrych a cwmpawd.

Tabl006

	Nifer	Canran
Map	879	63.4
Ci	532	38.4
Pram neu blentyn	149	10.8
Beic	506	36.5
Cadair Olwyn	22	1.6

Dŵr / Diod	1092	78.8
Bwyd	769	55.5
Ffôn clyfar / Tabled	944	68.1
Ceffyl	242	17.5
Dim byd	38	2.7
Arall	146	10.5
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>		

Graff005




### 3.09 Cwestiwn 8. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw broblemau wrth ddefnyddio hawliau tramwy yng Ngwynedd?

Mae dros hanner (61.2%, N=848) yr ymatebwyr wedi dod ar draws unrhyw broblemau wrth ddefnyddio hawliau tramwy yng Ngwynedd.

Tabl007

	Nifer	Canran
Do	848	61.2
Naddo	493	35.6
Dim ateb	45	3.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>1386</b>	<b>100%</b>

Graff006



### 3.10 Cwestiwn 9. Ydych chi wedi dod ar draws y problemau isod wrth ddefnyddio hawliau tramwy yng Ngwynedd?

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Do' yn gwestiwn 8 i ateb y cwestiwn yma.

Y rhesymau a nodwyd gyda'r canran uchaf yn nodi eu bod yn broblemau difrifol, sef sgôr rhif 5, oedd llwybr wedi ei rwystro'n fwiadol (36.6%, N=261), diffyg arwyddion neu arwyddion camarweiniol (29.3%, N=216), a gordyfiant / coed wedi disgyn (28.0%, N=215).


Y rhai a oedd yn broblem lefel isel i'r ymatebwyr oedd cael eu bygwth gan dirfeddianwyr neu rywun arall ar y llwybr (44.6%, N=267), pontydd mewn cyflwr gwael/perylus (37.8%, N=227), a cwn bygythiol (34.8%, N=218).

Tabl008

	1 (problem lefel isel)	2	3	4	5 (problem ddifrifol)
Diffyg arwyddion neu arwyddion camarweiniol	90 (12.2%)	98 (13.3%)	181 (24.5%)	153 (20.7%)	216 (29.3%)
Gordyfiant / coed wedi disgyn	103 (13.4%)	117 (15.3%)	192 (25.0%)	140 (18.3%)	215 (28.0%)
Wyneb anwastad, tyllau, dŵr neu fwd dwfn	146 (20.4%)	141 (19.7%)	166 (23.2%)	128 (17.9%)	135 (18.9%)

Camfeydd neu giataiu mewn cyflwr gwael	113 (15.8%)	144 (20.1%)	178 (24.9%)	150 (20.9%)	131 (18.3%)
Pontydd mewn cyflwr gwael / peryglus	227 (37.8%)	135 (22.5%)	113 (18.8%)	57 (9.5%)	69 (11.5%)
Llwybr wedi ei rwystro'n fwriadol er enghraifft giataiu wedi eu cloi neu ffens ar draws y llwybr	141 (19.8%)	84 (11.8%)	101 (14.2%)	126 (17.7%)	261 (36.6%)
Anifeiliaid fferm	176 (26.5%)	146 (22.0%)	134 (20.2%)	106 (16.0%)	101 (15.2%)
Baw ci	156 (23.1%)	131 (19.4%)	126 (18.7%)	106 (15.7%)	156 (23.1%)
Cŵn bygythiol	218 (34.8%)	140 (22.3%)	103 (16.4%)	77 (12.3%)	89 (14.2%)
Cael eich bygwth gan dirfeddiannwr neu rywun arall ar y llwybr	267 (44.6%)	110 (18.4%)	75 (12.5%)	56 (9.4%)	90 (15.1%)

Graff007



### **3.11 Cwestiwn 10. Nodwch isod os oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar y problemau rydych chi wedi dod ar eu traws wrth ddefnyddio hawliau tramwy.**

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Do' yn gwestiwn 8 i ateb y cwestiwn yma.

Rhai o'r materion oedd yn codi oedd bod llwybrau wedi cael eu blocio / cau, gordyfiant ar lwybrau, diffyg mynediad i gadair olwyn, diffyg arwyddion / llwybr ddim yn glir, sbwriel.

## Eich barn

### 3.12 Cwestiwn 11. Pa fath o lwybr sydd fwyaf pwysig i chi?

*Nodwch eu pwysigrwydd o 1 i 5, ble mae '1' yn gyfystyr ac eich dewis pwysicaf a '5' yn gyfystyr a'ch dewis lleiaf pwysig.*

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Do' yn gwestiwn 8 i ateb y cwestiwn yma.

Gweler o'r tabl isod mai'r math o lwybrau sydd yn fwyaf pwysig i'r ymatebwyr oedd llwybrau cylchdaith (43.5% (N=311) a thaith leol yn fy ardal (42.0%, N=303). Y math o lwybrau oedd lleiaf pwysig i bobl oedd llwybrau o un lle i'r llall (24.7%, N= 169) a theithiau pellter hir (16.6%, N=113).

Tabl009

	1	2	3	4	5
Teithiau pellter hir	178 (26.1%)	112 (16.4%)	152 (22.3%)	126 (18.5%)	113 (16.6%)
Llwybrau o un lle i'r llall (A i B)	169 (24.7%)	129 (18.9%)	173 (25.3%)	108 (15.8%)	104 (15.2%)
Llwybrau Cylchdaith	311 (43.5%)	106 (14.8%)	93 (13.0%)	75 (10.5%)	130 (18.2%)
Teithiau thema neu deithiau o daflen	120 (18.8%)	118 (18.5%)	166 (26.0%)	125 (19.6%)	110 (17.2%)
Taith leol yn fy ardal	303 (42.0%)	116 (16.1%)	88 (12.2%)	64 (8.9%)	150 (20.8%)
Llwybrau hygyrch	238 (35.2%)	99 (14.6%)	120 (17.7%)	67 (9.9%)	153 (22.6%)

### 3.13 Cwestiwn 12. Sut fydddech yn cyrraedd y llwybr cerdded?

Gweler fod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cyrraedd y llwybr cerdded un ai drwy gerdded (66.5%, N= 922), neu drwy ddefnyddio car (63.6%, N=881).


Tabl010

	Nifer	Canran
Car	881	63.6
Bws	225	16.2
Trên	161	11.6
Beic	281	20.3
Cerdded	922	66.5



Arall	104	7.5
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>		

Graff008




### 3.14 Cwestiwn 13. Ble fydddech chi yn chwilio am wybodaeth am Hawliau Tramwy?

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y buasant yn chwilio am wybodaeth am hawliau tramwy ar fap OS (62.7%, N=869). Rhai o'r atebion fwyaf cyffredin eraill oedd gofyn i ffrindiau / teulu (34.3%, N=476), ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri (33.0%, N=457), ac ar wefan Cyngor Gwynedd (31.6%, N=438).

Tabl011

	Nifer	Canran
Ar wefan Cyngor Gwynedd	438	31.6
Ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri	457	33.0
Gwefannau eraill	404	29.1
Swyddfeydd y Cyngor	44	3.2
Cyfoeth Naturiol Cymru	157	11.3
Canolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid	302	21.8
Taflen neu Lawlyfr	420	30.3
Llyfr gwybodaeth am gerdded	348	25.1
Map O.S	869	62.7
Llyfrgell	102	7.4
Gwybodaeth ar baneli	207	14.9
Gofyn i ffrindiau / teulu	476	34.3
Arall	91	6.6
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>		



### 3.15 Cwestiwn 14. Pa wybodaeth am Hawliau Tramwy sydd bwysicaf gennyh chi?

Y wybodaeth am hawliau tramwy sydd yn bwysicaf gan yr ymatebwyr yw gwybodaeth gyffredinol am lwybrau cyhoeddus, defnydd ohonynt a chefn gwlad gyffredinol (17.5%, N=243). Mae nifer uchel hefyd yn rancio union leoliadau dechrau llwybrau yn bwysig (16.6%, N=230). Doedd dim llawer o wahaniaethau yn y categorïau eraill, heblaw bod nifer wedi rancio hawliau cyfreithiol penodol yn llai pwysig (18.5%, N=256).

Tabl012

	Ranc 1	Ranc 2	Ranc 3	Ranc 4	Ranc 5	Ranc 6	Ranc 7	Ranc 8	Ranc 9	Ranc 10
Gwybodaeth gyffredinol am lwybrau cyhoeddus, defnydd ohonynt a chefn gwlad yn gyffredinol	243 (17.5%)	157 (11.3%)	96 (6.9%)	90 (6.5%)	83 (6.0%)	73 (5.3%)	69 (5.0%)	50 (3.6%)	67 (4.8%)	64 (4.6%)
Hawliau cyfreithiol penodol	66 (4.8%)	96 (6.9%)	49 (3.5%)	55 (4.0%)	52 (3.8%)	63 (4.5%)	75 (5.4%)	81 (5.8%)	107 (7.7%)	256 (18.5%)

Union leoliadau dechrau llwybrau	230 (16.6%)	212 (15.3%)	147 (10.6%)	126 (9.1%)	80 (5.8%)	78 (5.6%)	44 (3.2%)	39 (2.8%)	29 (2.1%)	17 (1.2%)
Teithiau o leoliad penodol a'u pellter	81 (5.8%)	151 (10.9%)	166 (12.0%)	131 (9.5%)	145 (10.5%)	98 (7.1%)	78 (5.6%)	53 (3.8%)	49 (3.5%)	16 (1.2%)
Llwybrau wedi eu marcio â phaneli	65 (4.7%)	118 (8.5%)	128 (9.2%)	118 (8.5%)	127 (9.2%)	125 (9.0%)	94 (6.8%)	78 (5.6%)	71 (5.1%)	30 (2.2%)
Pamffledi am lwybrau	25 (1.8%)	56 (4.0%)	94 (6.8%)	116 (8.4%)	106 (7.6%)	119 (8.6%)	117 (8.4%)	129 (9.3%)	109 (7.9%)	59 (4.3%)
Addasrwyd d llwybr ar gyfer gwahanol anghenion	77 (5.6%)	90 (6.5%)	103 (7.4%)	76 (5.5%)	78 (5.6%)	96 (6.9%)	127 (9.2%)	115 (8.3%)	117 (8.4%)	67 (4.8%)
Niferoedd a mathau o giatau a chamfeydd	17 (1.2%)	49 (3.5%)	70 (5.1%)	79 (5.7%)	65 (4.7%)	80 (5.8%)	99 (7.1%)	161 (11.6%)	167 (12.0%)	117 (8.4%)
Trafnidiaeth a mynediad at lwybrau	39 (2.8%)	95 (6.9%)	106 (7.6%)	108 (7.8%)	125 (9.0%)	108 (7.8%)	111 (8.0%)	100 (7.2%)	80 (5.8%)	72 (5.2%)
Cyfleusterau ger llaw (toiledau, meysydd parcio, lluniaeth)	312 (22.5%)	64 (4.6%)	82 (5.9%)	84 (6.1%)	89 (6.4%)	82 (5.9%)	86 (6.2%)	78 (5.6%)	80 (5.8%)	91 (6.6%)
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn aml-ddewis</i>										

### 3.16 Cwestiwn 15. Ydych yn credu fod y rhwydwaith hawliau tramwy presennol yn addas ac yn cwrdd â gofynion y mwyafrif o ddefnyddiwr?


Roedd yr atebion yma yn eithaf cyfartal, gyda canran ychydig yn uwch, 44.0% (N=610) yn nodi bod hawliau tramwy presennol yn addas, ac 41.0% (N=568) yn nodi eu bod ddim yn meddwl eu bod yn addas.

Tabl013

	Nifer	Canran
--	-------	--------

Ydw	610	44.0
Nac ydw	568	41.0
Dim ateb	208	15.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1386</b>	<b>100%</b>

Graff010



### 3.17 Cwestiwn 16. Beth ydych yn credu yw'r prif gamau dylid eu cymryd i wella'r rhwydwaith?

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Nacydw' yn cwestiwn 15 i ateb y cwestiwn yma.

Roedd canran uwch yn cytuno gyda'r sylwadau y dylid dynodi rhagor o dir yn dir agored, ac y dylid newid deddfwriaeth i'w gwneud yn haws i Awdurdodau Lleol greu, diddymu neu wyro hawliau tramwy. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr yn anghytuno'n gryf gyda'r datganiad fod yna ormod o lwybrau, nid oes defnydd o'r mwyafrif ohonynt dylid canolbwyntio ar y llwybrau poblogaidd (16.6%, N=230).

Tabl014

	Cytuno'n llwyr	Syniad da ond dim yn flaenoriaeth uchel	Dim barn arbennig	Anghytuno, ddim yn flaenoriaeth	Anghytuno'n gryf
Mae yna ormod o lwybrau, nid oes defnydd	39 (2.8%)	57 (4.1%)	80 (5.8%)	109 (7.9%)	230 (16.6%)

20

o'r mwyafrif ohonynt dylid canolbwyntio ar y llwybrau poblogaidd					
Mae angen rhagor o lwybrau beic	237 (17.1%)	115 (8.3%)	88 (6.3%)	37 (2.7%)	50 (3.6%)
Mae angen rhagor o lwybrau marchogaeth	204 (14.7%)	60 (4.3%)	158 (11.4%)	61 (4.4%)	52 (3.8%)
Mae angen rhagor o lwybrau sy'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn	174 (12.6%)	137 (9.9%)	174 (12.6%)	15 (1.1%)	15 (1.1%)
Dylid caniatáu beicwyr a cheffylau ar y mwyafrif o lwybrau troed	253 (18.3%)	75 (5.4%)	48 (3.5%)	73 (5.3%)	93 (6.7%)
Dylid newid y ddeddfwriaeth i'w gwneud yn haws i Awdurdodau Lleol greu, diddymu neu wro hawliau tramwy er enghraifft i symud llwybr i ffwrdd o fuarth fferm neu i greu rhan newydd o'r Llwybr Arfordir.	260 (18.8%)	133 (9.6%)	64 (4.6%)	32 (2.3%)	51 (3.7%)
Dylid dynodi rhagor o dir yn dir agored	315 (22.7%)	112 (8.1%)	65 (4.7%)	26 (1.9%)	23 (1.7%)
Dylai twristiaid a busnesau twristiaeth gyfrannu tuag at gynnal	184 (13.3%)	152 (11.0%)	105 (7.6%)	41 (3.0%)	54 (3.9%)

hawliau tramwy					
----------------	--	--	--	--	--


### 3.18 Cwestiwn 17. Oes yna ardaloedd penodol neu leoliadau ble mae angen rhagor o lwybrau neu newid statws llwybr i ganiatáu aml ddefnydd?

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oes yna ardaloedd penodol neu leoliadau ble mae angen rhagor o lwybrau neu newid statws llwybr i ganiatáu am ddefnydd (49.9%, N=692).

Tabl015

	Nifer	Canran
Oes	459	33.1
Nac oes	692	49.9
Dim ateb	235	17.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1386</b>	<b>100%</b>

Graff011



### 3.19 Cwestiwn 18. Rhowch ddisgrifiad byr ac eglurwch bydd i ddefnyddwyr.

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Oes' yn gwestiwn 17 i ateb y cwestiwn yma.

Y math o themâu oedd yn codi yn yr ymatebion i'r cwestiwn yma oedd cael mwy o lwybrau amldefnydd a mwy o lwybrau marchogaeth a beicio, gyda llawer o ymatebwyr yn rhoi enghreifftiau penodol o ble all llwybrau newydd gael eu creu neu newid llwybrau sy'n bodoli yn barod.

## Eich barn o Hawliau Tramwy


### 3.20 Cwestiwn 19. Ydych chi'n gwybod beth yw 'Map Diffiniol'?

Gweler fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ddim yn gwybod beth yr 'map diffiniol' (41.8%, N=580).

Tabl016

	Nifer	Canran
Ydw	526	38.0
Nac ydw	580	41.8
Dim ateb	280	20.2
<b>Cyfanswm</b>	<b>1386</b>	<b>100%</b>

Graff012



### 3.21 Cwestiwn 20. Ydych chi erioed wedi edrych ar Fap Diffiniol Gwynedd?

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Ydw' yn gwestiwn 19 i ateb y cwestiwn yma.


O'r rhai a oedd yn gwybod beth yw map diffiniol, roedd 44.4% (N=232) ohonynt wedi edrych ar fap diffiniol Gwynedd.

Tabl017

	Nifer	Canran
Do	232	44.4
Naddo	291	55.6

<b>Cyfanswm</b>	523	100%
-----------------	-----	------

Graff013



■ Do ■ Naddo

### 3.22 Cwestiwn 21. Gawsoch chi ateb boddhaol wrth edrych arno?

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Ydw' yn gwestiwn 19 ac 'Do' i gwestiwn 20 i ateb y cwestiwn yma.


O'r rheini a oedd yn gwybod am fap diffiniol, ac wedi edrych ar fap diffiniol Gwynedd, roedd 83.6% (N=189) wedi cael ateb boddhaol wrth edrych arno.

Tabl018

	<b>Nifer</b>	<b>Canran</b>
Do	189	83.6
Naddo	37	16.4
<b>Cyfanswm</b>	<b>226</b>	<b>100%</b>

Graff014





### 3.23 Cwestiwn 22. Beth oedd y brif problem?

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi ateb 'Naddo' yng nghwestiwn 21 i ateb y cwestiwn yma.

O'r rhai a oedd yn dweud eu bod ddim wedi cael ateb boddhaol ohono, roedd y sylwadau yn cynnwys ei bod yn anodd ei ddeall, ei fod ddim yn gyfoes, a bod eisiau map ar raddfa mwy.


### 3.24 Cwestiwn 23. Mae rhannau o Wynedd wedi ei ddynodi'n dir Mynediad Agored (yn bennaf tir mynydd a'r ucheldir). Ers y dynodiad hwnnw yn 2005, ydych chi wedi'i ddefnyddio?

Gweler fod bron i hanner (45.6%, N=632) o'r ymatebwyr wedi gwneud defnydd o'r hawl tir mynediad agored. Mae bron i un o bob pump o'r ymatebwyr (18.8%, N=260) wedi dweud y bod yn well ganddynt i ddilyn llwybrau dynodedig, tra fod 14.9%, (N=206) o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod heb wneud unrhyw defnydd o'r hawl.

Tabl019

	Nifer	Canran
Heb wneud unrhyw ddefnydd o'r hawl	206	14.9
Wedi gwneud defnydd o'r hawl	632	45.6
Mae'n well gennyf ddilyn llwybrau dynodedig	260	18.8
Dim ateb	288	20.8
<b>Cyfanswm</b>	<b>1386</b>	<b>100%</b>

Graff015




### 3.25 Cwestiwn 24. Dylid dynodi rhagor o dir yn Dir Mynediad Agored?

Mae y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (57.3%, N=794) yn nod y dylid dynodi rhagor o dir mynediad agored.

Tabl020

	Nifer	Canran
Dylid	794	57.3
Na ddylid	287	20.7
Dim ateb	305	22.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>1386</b>	<b>100%</b>

Graff016



### 3.26 Cwestiwn 25. Dros y blynyddoedd diweddar mae Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol wedi wynebu toriadau i'w cyllidebau ar gyfer cynnal a gwella hawliau tramwy. Sut hoffech weld y ddau gorff yn blaenoriaethu adnoddau dros y blynyddoedd nesaf?

Gweler isod mai'r opsiynau fwyaf poblogaidd ar gyfer blaenoriaethu i'r dyfodol yw blaenoriaethu'r gwaith ar y map diffiniol a cheisiadau i ddiwygio'r map (21.8%, N=302) a chynnal pob llwybr sydd ar y map diffiniol fel bo'r angen a pheidio blaenoriaethu gwaith yn unol â'r drefn categoreiddio (17.5%, N=243). Y ddau opsiwn lleiaf ffafriol yw cynnal llwybrau sydd o fewn Categori 1 yn unig (24.9%, N=345) a chynnal llwybrau sydd o fewn categorïau 1 a 2 yn unig.

Tabl021

	Ranc 1	Ranc 2	Ranc 3	Ranc 4	Ranc 5	Ranc 6	Ranc 7	Ranc 8	Ranc 9	Ranc 10
Cynnal llwybrau sydd o fewn Categori 1 yn unig	29 (2.1%)	31 (2.2%)	32 (2.3%)	27 (1.9%)	40 (2.9%)	23 (1.7%)	40 (2.9%)	56 (4.0%)	95 (6.9%)	345 (24.9%)
Cynnal llwybrau sydd o fewn Categorïau 1 a 2 yn unig	59 (4.3%)	60 (4.3%)	49 (3.5%)	48 (3.5%)	52 (3.8%)	55 (4.0%)	57 (4.1%)	96 (6.9%)	276 (19.9%)	27 (1.9%)
Cynnal pob llwybr sydd ar y map diffiniol fel bo'r angen a pheidio blaenoriaethu gwaith yn unol â'r drefn categoreiddio	243 (17.5%)	162 (11.7%)	108 (7.8%)	77 (5.6%)	70 (5.1%)	59 (4.3%)	48 (3.5%)	56 (4.0%)	34 (2.5%)	22 (1.6%)
Dylid blaenoriaethu adnoddau i llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo ac yn denu ymwelwyr i'r ardal e.e. llwybrau'r Arfordir,	78 (5.6%)	117 (8.4%)	100 (7.2%)	98 (7.1%)	76 (5.5%)	69 (5.0%)	95 (6.9%)	120 (8.7%)	37 (2.7%)	31 (2.2%)

Ilwybrau'r Wyddfa, Ilwybrau hamdden y Parc Cenedlaethol , Y Lonydd Glas a chylchdeithia u lleol										
Gwneud defnydd o lwybrau presennol i sefydlu rhagor o lwybrau cylch a theithiau hir sy'n cael eu hyrwyddo	119 (8.6%)	208 (15.0%)	128 (9.2%)	102 (7.4%)	89 (6.4%)	65 (4.7%)	61 (4.4%)	47 (3.4%)	24 (1.7%)	9 (0.6%)
Dylid rhoi blaenoriaeth i ddatrys anghydfod a phroblemau drwy gydweithio gyda pherchnogion tir a defnyddwyr	25 (1.8%)	50 (3.6%)	94 (6.8%)	92 (6.6%)	95 (6.9%)	100 (7.2%)	122 (8.8%)	91 (6.6%)	68 (4.9%)	55 (4.0%)
Dylid rhoi rhagor o adnoddau i gynghorau Cymuned a Thref neu i fudiadau gwirfoddol i'w galluogi i gynnal y rhwydwaith hawliau tramwy	85 (6.1%)	115 (8.3%)	119 (8.6%)	124 (8.9%)	93 (6.7%)	95 (6.9%)	76 (5.5%)	62 (4.5%)	35 (2.5%)	30 (2.2%)
Dylid rhoi rhagor o bwyslais ar waith gorfodaeth i	51 (3.7%)	82 (5.9%)	98 (7.1%)	96 (6.9%)	95 (6.9%)	91 (6.6%)	95 (6.9%)	71 (5.1%)	61 (4.4%)	76 (5.5%)

gynnal ac agor hawliau tramwy fydd yn arwain at gymryd camau cyfreithiol yn erbyn tirseffianwyr										
Dylid cael y map diffiniol a Gwybodaeth arall am y rhwydwaith ar wefan y Cyngor	42 (3.0%)	104 (7.5%)	134 (9.7%)	123 (8.9%)	117 (8.4%)	108 (7.8%)	75 (5.4%)	63 (4.5%)	42 (3.0%)	24 (1.7%)
Blaenoriaeth u'r gwaith ar y map diffiniol a cheisiadau i ddiwygio'r map (newid statws llwybr, cofrestru llwybrau sydd heb eu cofnodi)	302 (21.8%)	34 (2.5%)	43 (3.1%)	63 (4.5%)	76 (5.5%)	106 (7.6%)	82 (5.9%)	77 (5.6%)	58 (4.2%)	51 (3.7%)
<i>Ni fydd y canrannau yn adio i 100 gan fod hwn yn gwestiwn amlddewis</i>										

### 3.27 Cwestiwn 26. I gloi, os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ychwanegol am yr holiadur yma neu am rwydwaith hawliau tramwy a mynediad i gefn gwlad yng Ngwynedd, gallwch eu nodi isod.

Dyma'r rhai o'r prif themâu a ymddangosodd mewn ateb i'r cwestiwn uchod.

Roedd nifer fawr o'r atebion yn pwysleisio pwysigrwydd y llwybrau. Roedd ymatebwyr yn sôn am eu defnydd hwy a thrigolion lleol o'r llwybrau. Roedd nifer o'r ymatebwyr hefyd yn awyddus i ddweud bod nifer o dwristiaid yn defnyddio'r llwybrau ac yn ymweld â'r ardal yn benodol oherwydd hynny. Roedd nifer yn dweud y dylai cynnal a chadw llwybrau fod yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd a ddylai mwy, nid llai cael ei wneud. Roedd nifer o ymatebwyr hefyd yn canmol llwybr neu lwybrau penodol. Roedd nifer bychan yn beirniadu llwybr neu lwybrau penodol.

Ymateb arall cyffredin i'r cwestiwn yma oedd beirniadaeth o'r holiadur. Roedd nifer wedi cael trafferth ei lenwi mewn, yn enwedig y cwestiynau ble roedd angen blaenoriaethu. Roedd eraill yn credu bod rhai cwestiynau yn rhy gaeedig ac eraill yn dweud bod angen opsiwn "ddim yn gwybod" i rai o'r cwestiynau.

Roedd nifer o ymatebwyr yn cynnig bod modd i wirfoddolwyr helpu gyda'r gwaith o gynnal a chadw llwybrau. Roedd rhai yn cynnig y byddai Cyngor Gwynedd yn gallu darparu hyfforddiant ar hyn.

Roedd nifer yn meddwl bod angen gwneud mwy i hyrwyddo rhwydwaith llwybrau Gwynedd drwy bamffledi a gwefan. Roedd nifer bychan o ymatebwyr yn cynnig bod angen Map cyflawn 'open source' o'r rhwydwaith.

Roedd beicwyr yn cynnig bod angen gwell ddarpariaeth iddynt hwy. Gyda rheini sydd ddim yn beicio yn dweud bod llwybrau beicio yn bwysig i gadw beiciau oddi ar y prif ffyrdd sydd yn gallu bod yn beryglus.

Roedd y rheini sydd yn farchog ceffyl yn dweud eu bod nhw angen gwell ddarpariaeth a llwybrau ble nad oes ceir o gwmpas.

Roedd rhai ymatebion yn dweud bod hawliau tramwy yn angenrheidiol er mwyn annog mwy o bobl i deithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy.

Roedd ychydig o ymatebion yn dweud bod angen cymryd camau i stopio cerbydau rhag dinistrio llwybrau.

Roedd nifer o ymatebion yn cwyno nad oedd digon o arwyddion ar y llwybrau.

Roedd ychydig o ymatebion yn dweud bod angen ffordd o wybod os yw llwybr am arwain at dir fferm, roedd hyn yn bwysig iawn i berchnogion cŵn.

Roedd rhai ymatebion yn dweud eu bod wedi cysylltu â'r Cyngor ynglŷn â llwybrau yn y gorffennol a heb gael ymateb. Roedd ymatebion eraill yn canmol y gwasanaeth mae'r Cyngor yn ei ddarparu.

Roedd rhai ymatebwyr yn awgrymu lobio Llywodraeth Cymru i gymryd rhan o'r cyfrifoldeb ariannol am gynnal y rhwydwaith.

## **Paratowyd yr adroddiad yma gan**

### **Tîm Ymchwil a Dadansoddeg**

Adran Cefnogaeth Gorfforaethol  
Cyngor Gwynedd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

E-bost: [ymchwil@gwynedd.llyw.cymru](mailto:ymchwil@gwynedd.llyw.cymru)

Ffôn: 01286 679619

[www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil](http://www.gwynedd.llyw.cymru/ymchwil)

<b>ATODIAD 1</b>		
<b>Tabl gweithrediadau a gyflwynwyd yn CGHT 2007 oedd i'w gweithredu heb adnoddau ychwanegol.</b>		
<b>Cyfeirnod</b>	<b>Gweithred</b>	<b>Sylwadau</b>
2 / 3	Cynhyrchu Map wedi' i gyfuno - cyfuno newidiadau o'r Map Swyddogol presennol ar fap newydd sydd â dyddiad newydd perthnasol arno.	Nid yw hyn wedi ei gyflawni oherwydd diffyg adnoddau staff
2/ 4	Gweithio tuag at gynhyrchu fersiwn electronig gyfredol o'r Map Swyddogol gweithredol.	Wedi ei gyflawni 2013 Mae'r map yma ar gael ar systemau mapio mewnol y Cyngor ond hyd yma ddim ar y wefan allanol.
2/5	Clirio'r ôl-groniad o geisiadau am Orchmynion Diwygio Map Swyddogol	Heb ei gyflawni oherwydd lleihad mewn staff ers 2007 ,nifer y ceisiadau newydd gyda sawl cais yn eithriadol o gymhleth
3/1	Datblygu polisi cadarn ar gyfer camau gorfodi / erlyniadau	Wedi ei gwblhau 2012. Bydd y polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau fel rhan o'r gwaith i adolygu'r CGHT.
3/2	Cynhyrchu ystod o bolisiau eglur ar reoli hawliau tramwy	Wedi ei gwblhau 2012 Bydd y polisiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau fel rhan o'r gwaith i adolygu'r CGHT.
3/5	Cynhyrchu canllaw i ddibenion diogelu a gorfodaeth gan ddefnyddio enghraifft Cyngor Sir Gaer fel model ymarfer da.	Heb ei gyflawni, drafft wedi ei baratoi. Ail edrychir ar ganllawiau gorfodaeth fel rhan o'r adolygiad
3/ 6	Negodi Cytundeb ffurfiol gyda'r APCE er mwyn sefydlu dull o weithio mwy integredig	Trafodaethau wedi arwain at sefydlu / cytuno ar egwyddorion cydweithio fydd yn weithredol yn ystod 2017.



3/7	Annog gweithio mewn partneriaeth gydag adrannau eraill o'r Cyngor, cynghorau cymuned ac asiantaethau eraill.	Mwyafrif o'r Cynghorau Cymuned a Thref wedi bod yn rhan o'r trefniant cynnal a chadw, adolygwyd y trefniant yn 2016 yn sgil lleihad yn y gyllideb cynnal. Newidiadau strwythurol ers 2007 wedi hwyluso cydweithio o fewn y Cyngor.
4/3	Trafod gyda thirfeddianwyr a rheolwyr i leihau gwrthdaro - trefnu a chynnal gweithdai gyda thirfeddianwyr i drafod materion sy'n effeithio ar dirfeddianwyr.	Cysylltiad â thrafodaethau yn digwydd yn rheolaidd ynglŷn â llwybrau a materion penodol sy'n effeithio ar dirfeddianwyr.
4 / 6	Hyfforddiant anabledd i swyddogion Hawliau Tramwy - sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfredol o ran cydraddoldeb anabledd.	Aelodau staff wedi derbyn , ac yn parhau i dderbyn hyfforddiant ym maes anghenion defnyddwyr anabl a chydraddoldeb.
4 / 7	Cysylltu â gwahanol grwpiau defnyddwyr a grwpiau anabledd - ymgynghori a chynrychiolwyr i helpu i ganfod llwybrau addas posibl.	Cysylltiad ac ymgynghori ar lwybrau a materion penodol yn digwydd.
5 / 4	Integreiddio a llwybrau diogel i'r ysgol / gwaith - penderfynu pa lwybrau penodol a ddefnyddir i gymudo i'r ysgol ac i'r gwaith a nodi gwelliannau posibl	Mae'r Ddeddf Teithio Lesol wedi disodli llawer o'r ymgyrchoedd oedd yn weithredol yn 2007.
6/2	Archwilio llwybrau presennol a hyrwyddir ac edrych ar gysylltiadau ac estyniadau posibl.	Llawer o waith wedi ei wneud i uwchraddio a datblygu llwybrau i'w hyrwyddo ond ers 2008 rhoddwyd pwyslais ar ddatblygu'r Llwyr Arfordir.
6/3	Nodi mwy o deithiau cerdded iach - archwilio llwybrau newydd / gwahanol i sicrhau bod hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad yn cynorthwyo i ddarparu manteision iechyd	Cefnogwyd datblygiad teithiau cerdded iach ond ers 2007 mae ymgyrchoedd a deddfwriaeth newydd megis Deddf Teithio Lesol wedi disodli ymgyrchoedd unigol.
6/5	Datblygu gwefan ryngweithiol o ansawdd - adolygu / diwygio ,trefnu a chynnal y wefan bresennol i hyrwyddo mynediad a gwaith yr Uned Cefn Gwlad a Mynediad	Mae gwybodaeth am y rhwydwaith hawliau tramwy a phriffyrdd ar gael i'r cyhoedd ar safle we Cyngor Gwynedd. Mae darpariaeth ar y map sy'n galluogi'r cyhoedd gysylltu gydag ymholiadau neu gwynion.



# Eitem 6


<b>Pwyllgor</b>	<b>PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>25 Chwefror 2021</b>
<b>Teitl</b>	<b>Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (adroddiad ymgynghori)</b>
<b>Aelod Cabinet</b>	<b>Cynghorydd Gareth W Griffith</b>
<b>Awdur</b>	<b>Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd</b>
<b>Pwrpas</b>	<b>I godi ymwybyddiaeth am y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (drafft ôl ymgynghoriad cyhoeddus) a rhoi cyfle i'r Pwyllgor gynnig adborth cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd</b>

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn ydi codi ymwybyddiaeth Aelodau'r Pwyllgor Craffu o ddatblygiad y Canllaw Cynllunio Atodol: 'Cyfleusterau a llety i dwristiaid a sicrhau ei fod y canllaw ynghyd a'r Adroddiad Ymgynghori perthnasol yn cael ei graffu gan y Pwyllgor hwn cyn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd benderfynu ynglŷn â'i addasrwydd i'w fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2021. Mae Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Chymunedau (Cyngor Sir Ynys Môn) wedi ei graffu ar 9 Chwefror 2021.
- 1.2 Fe gyflwynwyd y Canllaw drafft i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn flaenorol (4 Ebrill, 2019) yn sgil pryder a fynegwyd mewn perthynas â'r angen i roddi ystyriaeth i effaith gronol safleoedd carafanau teithiol. Yn dilyn y cyfarfod hynny mae'r Canllaw wedi cael ei ddiwygio ymhellach er mwyn gyfarch y pryder hwn (gweler para 6.2.1 yn Atodiad 2).

## 2. PWRPAS

- 2.1 Mae'r Canllaw yn cynnig arweiniad yn gysylltiedig â'r polisiau twristiaeth a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan gynnwys arweiniad o ran polisiau yn gysylltiedig â llety gwyliau parhaol, safleoedd carafanau sefydlog a safleoedd carafanau teithiol.
- 2.2 Gall Canllawiau Cynllunio Atodol dim ond ymdrin â darparu rhagor o wybodaeth neu fanylion ynghylch polisiau neu gynigion a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol.
- 2.3 Ni all Canllawiau newid polisi neu gynigion a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol ac ni ellir cyflwyno polisiau newydd trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.
- 2.4 Gall Canllaw fod yn 'ystyriaeth cynllunio berthnasol' ddylid rhoi sylw iddo ochr yn ochr â'r polisiau mae'n cefnogi yn y Cynllun Datblygu Lleol pan fydd gweithredoedd penodol wedi digwydd. Mae Ffigwr 1 yn rhoi ciplun o'r gweithredoedd sy'n angenrheidiol i Ganllaw gael statws 'ystyriaeth cynllunio berthnasol'.



Ffigur 1: Gweithredoedd i baratoi Canllaw Cynllunio Atodol

### 3.0 PARATOI CCA: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

3.1 Yn ystod y broses o baratoi'r Canllaw dan sylw, mae'r Panel Cynllun Datblygu ar y Cyd wedi bod yn rhan o graffu ei gynnwys. Yn dilyn derbyn ystyriaeth gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fe dderbyniwyd y Canllaw sêl bendith gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'w ryddhau ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus gwreiddiol (gwanwyn 2018) hyn ac yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd, ystyriwyd yn briodol cynnal diwygiadau pellach i'r Canllaw mewn perthynas â dau fater penodol sef:-

1. Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth, a;
2. Sut i ddelio gyda cheisiadau am newid defnydd a cholli gwestai.

3.2 Gan fydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar ôl ei fabwysiadu, ystyriwyd y Cynghorau ei fod yn bwysig i rhan-ddeiliaid gael dweud eu dweud ar y newidiadau arwyddocaol hyn. Felly gymeradwyodd rhyddhau'r ddogfen ymgynghori bellach ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref 2018.

3.3 Yn ystod cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 fe gyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn dilyn yr ymgynghoriad pellach hwn, gan nodi na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiad pellach i'r Canllaw yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori pellach ac yn gofyn am yr hawl i gyflwyno'r Canllaw i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu.

3.4 Ers cynnal cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Mawrth, 2019) fe gyflwynwyd y Canllaw i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd

yn ystod y cyfarfod yma ystyriwyd yn briodol gwneud man ddiwygiad i eiriad y Canllaw. Ymhellach mae dyfarniadau apeliadau diweddar sydd yn ymwneud a'r ystyriaethau yn gysylltiedig â asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau wedi amlygu'r angen i wneud diwygiad pellach i'r Canllaw.

- 3.5 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr, 2020.
- 3.6 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16eg o Hydref hyd at 27ain o Dachwedd, 2020.
- 3.7 Nodir fod y prif ddiwygiad i'r Canllaw a arweiniodd at y trydydd cyfnod ymgynghori yn ymwneud a chynnal diwygiad pellach i'r diffiniad yn gysylltiedig â'r orddarpariaeth o lety gwyliau. Bellach mae'r diffiniad (gweler adran 4.6 o'r Canllaw yn Atodiad 2) yn cynnwys trothwy penodol o ran pryd ystyrir fo yno orddarpariaeth o lety gwyliau hunan arlwy o fewn ardal benodol. Yn unol â'r arweiniad diwygiedig o fewn y Canllaw, ni ellir rhoi ystyriaeth ffafriol i geisiadau ac ar gyfer llety gwyliau hunan arlwyo pan fo'r gyfradd gyfunol bresennol o lety gwyliau hunan arlwyo ynghyd a ail-gartrefi eisoes wedi cyrraedd trothwy o 15% o'r holl stoc dai. Ystyrir fod gosod trothwy diffiniadol yn ei wneud yn haws i Swyddogion asesu 'gorddarpariaeth' yng nghyswllt y gofyn hynny sydd wedi ei nodi ym Mholisi TWR 2 o'r CDLI ar y Cyd.
- 3.8 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, cyrff amgylcheddol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn y CCA.
- 3.9 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:
  - Ffurflen ymateb ar-lein mewn *Word* a *pdf*. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr UPC ar y Cyd.
  - E-byst; a
  - Llythyr
- 3.10 Derbyniwyd cyfanswm o 15 o sylwadau dilys. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd. Ymhellach nodir fod 8 sylw annyls wedi ei dderbyn (gweler yr ail dabl yn atodiad 1). Gan fod y sylwadau hyn yn ymwneud a rhannau o'r ddogfen nad oedd yn destun y cyfnod ymgynghori cyhoeddus nid oes ystyriaeth bellach wedi ei roddi i'r sylwadau hyn.
- 3.11 Mae'r adran a ganlyn (Atodiad 1) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymhell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad. Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **ffont drom wedi'i thanlinellu**.
- 3.12 Gellir gweld y Canllaw cyfan ar ei ffurf drafft ôl ymgynghoriad cyhoeddus yn **Atodiad 2**.

- 3.13 Pan gaiff ei fabwysiadu bydd y Canllaw'n disodli'r canllawiau cyfredol am lety gwyliau a thwristiaeth a gafodd eu mabwysiadu gan y ddau Gyngor i gefnogi'r hen gynlluniau datblygu, sef Cynllun Datblygu Unedol (yn achos ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd).
- 3.14 Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y camau nesaf a'r amserlen:

Gweithred	Pryd?
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd – ystyried: <ol style="list-style-type: none"> <li>i. sylwadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio;</li> <li>ii. adborth a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus;</li> <li>iii. copi drafft terfynol o'r Canllaw Cynllunio Atodol er mwyn penderfynu os ydi'r Canllaw yn addas i'w fabwysiadu (ac felly disodli'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n bodoli am y pwnc hwn).</li> </ol>	12 Mawrth 2021
Defnyddio'r Canllaw mabwysiedig fel ystyriaeth cynllunio berthnasol	13 Mawrth 2021 ymlaen
Gwneud trefniadau i godi ymwybyddiaeth am y Canllaw hwn i'r ddau Bwyllgor Cynllunio, swyddogion amrywiol yn y ddau Gyngor, a chwmnïau ac unigolion sy'n rhoi cyngor i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio	Gwanwyn 2021

#### 4. ARGYMHELLION

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau:

- Derbyn yr adroddiad ac ystyried y Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid a'r Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig;
- Penderfynu os oes unrhyw sylwadau i gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

---

#### ATODIADAU

Atodiad 1 – Adroddiad am yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Atodiad 2 – Canllaw Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a llety i dwristiaid (fersiwn drafft terfynol)

CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL  
CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

ADRODDIAD YMGYNGHORI AC  
ARGYMHELLION SWYDDOGION AR Y  
DDOGFEN YMGYNGHORI'N BELLACH



CYNGOR SIR  
YNYYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

RHAGFYR 2020

## Cynnwys

1.0	CEFNDIR .....	3
	Pwrpas Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) .....	3
	Y Cyd-destun Polisi .....	3
	Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol.....	3
	Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol.....	3
2.0	CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID .....	4
	Ymgynghoriadau Cyhoeddus .....	4
	<b>ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION GAN SWYDDOGION (CYFNOD YMGYNGHORI HYDREF/TACHWEDD 2020) .....</b>	<b>6</b>



## 1.0 CEFNDIR

### Pwrpas Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)

- 1.1 Pwrpas y Canllawiau hyn yw:
- Cynorthwyo ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
  - cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
  - chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apelïadau.
- 1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau sydd yn cyd-fynd gyda pholisïau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol.

### Y Cyd-destun Polisi

#### Y Cynllun Datblygu Lleol

- 1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisïau cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.
- 1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisïau amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn:
- galluogi i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisï cenedlaethol; ac
  - arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

### Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

- 1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar-ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n darparu amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun fydd yn darparu canllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Polisi.

### Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

- 1.6 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwysau sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisïau cynllunio newydd ac ni allant newid polisïau'r Cynllun.
- 1.7 Ar ôl ei fabwysiadu dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.

## 2.0 CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL: CYFLEUSTERAU A LLETY I DWRISTIAID

- 2.1 Mae'r CCA hwn yn ymdrin â phob ffurf a graddfa ar lety gwyliau ac atyniadau i dwristiaeth. Mae twristiaeth yn sector deinamig ac yn newid yn barhaus. Mae'n chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y cynllun. Gweler pwysigrwydd twristiaeth yn y tabl<sup>1</sup> isod:

2017	Gwynedd*	Ynys Môn
Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth	£1.06 biliwn	£304.23 miliwn
Cyfanswm niferoedd ymwelwyr (miliynau)	7.28	1.71
Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau)	3.53	1.03
Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau)	3.75	0.68
Nifer yr FTE <sup>2</sup> swyddi a gefnogir gan wariant twristiaeth	15,601	4,102

\*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

- 2.2 Mae Ynys Môn a Gwynedd yn elwa o asedau naturiol a diwylliannol eang sy'n gynnig potensial sylweddol i drigolion ac ymwelwyr eu mwynhau. Fodd bynnag, gall datblygiadau twristiaeth newydd effeithio'n negyddol ar amgylchedd a chymunedau lleol os cant eu datblygu mewn modd ansensitif neu eu gosod mewn llefydd amhriodol.
- 2.3 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd ac mae datblygiad cynaliadwyedd wrth graidd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod y dylai pob datblygiad yn ardal y cynllun ymgorffori'r egwyddorion hyn, gan gydbwysu'r angen i gefnogi'r economi wledig, wrth gynnal a chyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal y cynllun.

### Ymgynghoriadau Cyhoeddus

- 2.4 Roedd fersiwn drafft cyflawn o'r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17eg Mai a 28ain o Fehefin 2018. Ystyriwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gwreiddiol gan y Cynghorau.
- 2.5 Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau i'r Canllaw Cynllunio Atodol a wnaed yn dilyn y cyfnod ymgynghori gwreiddiol yn fân newidiadau, fodd bynnag, ystyriwyd bod sylwadau a'r diwygiadau a gynigwyd ar ddau fater yn gofyn am newidiadau arwyddocaol i'r CCA sef:
1. Sut i ddiffinio gormodedd o lety hunanwasanaeth, a;
  2. Sut i ddelio gyda cheisiadau am newid defnydd a cholli gwestai.
- 2.6 Gan fydd y CCA yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar ôl ei fabwysiadu, ystyriwyd y Cynghorau ei fod yn bwysig i rhan-ddeiliaid gael dweud eu dweud ar y newidiadau arwyddocaol hyn. Felly gymeradwyodd rhyddhau'r ddogfen ymgynghori bellach ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 26 Hydref 2018.

1 Adroddiad STEAM 2017

2 FTE = Cyfwerth ag Amser Llawn

- 2.7 Derbyniwyd cyfanswm o 8 sylw: 2 yn cefnogi a 6 yn gwrthwynebu yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori. Yn ystod cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 fe gyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn dilyn yr ymgynghoriad pellach hwn, gan nodi na fyddai angen gwneud unrhyw ddiwygiad pellach i'r Canllaw yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori pellach ac yn gofyn am yr hawl i gyflwyno'r Canllaw i gyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer ei fabwysiadu (gweler Atodiad 2 sydd yn cyflwyno crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor iddynt)
- 2.8 Ers cynnal cyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd (Mawrth, 2019) fe gyflwynwyd y Canllaw i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. Yn sgil y drafodaeth a gafwyd yn ystod y cyfarfod yma ystyriwyd yn briodol gwneud man ddiwygiad i eiriad y Canllaw. Ymhellach mae dyfarniadau apeliadau diweddar sydd yn ymwneud a'r ystyriaethau yn gysylltiedig â asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau wedi amlygu'r angen i wneud diwygiad pellach i'r Canllaw.
- 2.9 Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â swyddogion perthnasol o'r ddau Awdurdod. Cyn hyn, cafodd y CCA ei adolygu gan y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 24 Ionawr, 2020.
- 2.10 Roedd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16eg o Hydref hyd at 27ain o Dachwedd, 2020.
- 2.11 Rhoddwyd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar wefannau'r ddau Gyngor ac anfonwyd e-byst/llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymuned, asiantau cynllunio, ymgynghorwyr statudol, cyrff amgylcheddol, awdurdodau cyfagos a'r sawl a oedd wedi datgan diddordeb yn y CCA.
- 2.12 Roedd nifer o ffyrdd gwahanol ar gael i bobl ymateb i'r ymgynghoriad, yn cynnwys:
- Ffurflen ymateb ar-lein mewn *Word* a *pdf*. Roedd copïau papur o'r ffurflen ymateb hefyd ar gael ar gais gan yr UPC ar y Cyd.
  - E-byst; a
  - Llythyr
- 2.13 Derbyniwyd cyfanswm o 15 o sylwadau dilys. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i bob sylw a dderbyniwyd. Ymhellach nodir fod 8 sylw annilys wedi ei dderbyn (gweler yr ail dabl yn atodiad 1). Gan fod y sylwadau hyn yn ymwneud a rhannau o'r ddogfen nad oedd yn destun y cyfnod ymgynghori cyhoeddus nid oes ystyriaeth bellach wedi ei roddi i'r sylwadau hyn.
- 2.14 Mae'r adran a ganlyn (Atodiad 1) yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, yn cynnwys ymateb y Cynghorau iddynt a phan fo'n briodol, yn argymhell unrhyw newidiadau sydd eu hangen i'r CCA yn sgil y sylwad. Nodir unrhyw newid arfaethedig i eiriad y CCA mewn **ffont drom wedi'i thanlinellu**.

ATODIAD 1 – CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD AC ARGYMHELLION GAN SWYDDOGION (CYFNOD YMGYNGHORI HYDREF/TACHWEDD 2020)

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
Tud. 96	1.	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	Rhan 4.6	<p>Cefnogi'r newidiadau bwriedig yn unfrydol.</p> <p>Mae cynnwys y frawddeg "Ymhellach, nodir y dylid rhoi ystyriaeth i'r gyfradd o ail gartrefi o fewn gymuned" yn gymwys iawn i gynuned Llanengan o ystyried bod dros 50% o dai Abersoch yn unig yn ail gartrefi. Cefnogir cynnwys AirBnB hefyd gan bod cymaint ohonynt.</p> <p>Pryderir ym mhob cyfarfod o'r Cyngor wrth drafod ceisiadau cynllunio mai creu estyniadau er mwyn ehangu'r cyfleusterau hunan arlwyo a wnâi'r perchenogion er mwyn denu mwy o 'bennau'. O ganlyniad mae hyn yn lleihau argaeledd tai 'fforddiadwy' a chynyddu eu gwerth tu hwnt i afael trigolion lleol.</p>	<p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Derbyn y sylw cefnogol</p>
	2.	Gwrthwynebu	Bourne Leisure	4.6.1-4.6.6	<p>Mae paragraffau drafft 4.6.1- 4.6.6 yn ceisio cynnwys meini prawf ychwanegol yn adran 4.6 i gynorthwyo i ddiffinio gor-grynhoed o llety hunanarlwyo mewn cymunedau. Mae'r meini prawf a gynigir yn adran 4.6 yn canolbwyntio ar reoli unedau hunanarlwyo o fewn cymunedau/aneddiadau (e.e. Airbnb a unedau gwyliau ar osod). Nid oes gan Bourne Leisure unrhyw wrthwynebiad i hyn mewn egwyddor, ond mae'r Cwmni'n awyddus i sicrhau na fyddai'r meini prawf yn arwain at ganlyniadau anfwriadol drwy gael eu cymhwyso hefyd i gyrchfannau gwyliau pwrpasol fel y rhai a weithredir gan Bourne Leisure, os yw'n dymuno cyflwyno llety hunanarlwyo sylfaenol sefydlog yn ei barciau sefydledig yn y dyfodol.</p>	<p>Mae geiriad y Canllaw presennol yn gwbwl eglur o ran cymhwyso yr egwyddorion a gynhwysir yn rhan 4.6 mewn perthynas a cheisiadau a fyddai'n cael eu hasesu yn erbyn polisi TWR 2. Pe fyddai yna gais ar gyfer llety gwyliau parhaol, sydd yn golygu adeiladwaith a fyddai'n cael ei adeiladu ar y safle a na ellir ei symud oddi yno a'i ail adeiladu mewn lleoliad arall, yna fe fyddai'r bwriad serch ei leoliad o fewn parc gwyliau yn gorfod cydymffurfio hefo egwyddorion Polisi TWR 2 a'r CCA cysylltiedig.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
Tud. 97				<p>Pwysleisiwn na fyddai gweithrediadau posibl Bourne Leisure yn y dyfodol yn ychwanegu at ormodedd neu glystyrau lety hunanarlwyo/fflatiau Airbnb mewn aneddiadau, sef yr hyn y mae'r adran hon yn ceisio'i gyflawni.</p> <p>Gofynnwn felly bod y geiriad newydd yn gwneud yn glir nad yw'r meini prawf yn berthnasol i barciau gwyliau neu ganolfannau presennol lle mai unig ddiben y parc yw darparu llety gwyliau a chyfleusterau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni hyn, awgrymwn fod paragraff 4.6.2 wedi'i ddiwygio fel a ganlyn (wedi'i danlinellu ac mewn print trwm)</p> <p>" Mae'r enghreifftiau o'r math yma o lety yn cynnwys llety gwyliau hunanarlwyo (gan gynnwys Airbnb) ynghyd a llety gwyliau pwrpasol (hynny yw unedau parhaol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn bwrpasol ar gyfer defnydd gwyliau). <u>Nid yw'r math hwn o lety yn cynnwys unedau hunanarlwyo sydd wedi'u lleoli o fewn parciau gwyliau neu ganolfannau...."</u></p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder, rydym hefyd yn argymhell y ychwanegu'r canlynol at baragraff 4.6.6 drafft (wedi'i danlinellu ac mewn print trwm):</p> <p><b>• Cynnig sydd wedi'i leoli mewn parc gwyliau neu ganolfan bresennol".</b></p>	
3.	Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.6.1	Nid yw polisi TWR2 yn benodol yn darllen na ddylai datblygiad arwain at ormodedd o lety hunan wasanaeth. Mewn perthnasol i lety gwasanaethol a hunan wasanaeth.	Cytuno hefo'r sylw. Argymhellir dileu y cyfeiniad at 'hunanarlwyo', er mwyn sicrhau cysondeb hefo'r polisi a'r meini prawf perthnasol.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Diwygio geiriad paragraff 4.6.1 fe a chanlyn:-</p> <p>“Mae Polisi TWR 2 (maen prawf 5) yn nodi'n eglur na ddylai unrhyw ddarpariaeth o lety gwyliau arwain at 'ormodedd' o lety gwyliau hunanarlwyo mewn ardal benodol.”</p>
Tud. 98	Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.6.2	<p>Nid yw diffyg cyflenwad tai yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu unedau gwyliau sy'n cael eu rheoli at y diben hwnnw. Mae'n ymwneud ag anheddau a ddefnyddir at ddibenion gwyliau ond nad ydynt yn cael eu rheoli at y diben hwnnw drwy amod.</p> <p>Ail gartrefi yw'r ffactor sy'n bennaf yn arwain at brisiau tai uwch yn hytrach na darparu unedau gwyliau sy'n cael eu rheoli'n benodol at y diben hwnnw.</p> <p>Dylid egluro hyn yn y CCA.</p>	<p>Mae'r rhestr o'r sgil effeithiau yn gysylltiedig â llety gwyliau a gynhwysir ym mharagraff 4.6.2 yn enghreifftiau yn unig. Cydnabyddir fod unedau gwyliau sydd yn derbyn caniatâd cynllunio pwrpasol ar gyfer y defnydd hynny ddim yn cael effaith uniongyrchol ar brisiau tai. Fodd bynnag fe all cynnydd yn y niferoedd o lety gwyliau a dyfodiad ardal fel cyrchfan gwyliau gael sgil effaith ar y farchnad dai gan gynyddu'r galw am dai yn yr ardal ac ar draul hynny cynyddu prisiau.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>
5.	Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.6.5	<p>Mae'r canllawiau yn y CCA yn llywio unedau o'r fath i dir o fewn y ffin ddatblygu/o fewn aneddiadau neu safleoedd sy'n agos at yr aneddiadau hynny. Felly, mae'n anochel y bydd y canllawiau'n gorfodi unedau o'r fath i ardaloedd preswyl o fewn aneddiadau. Mae gwrthdaro yma ac mae angen sicrhau gwell cydbwysedd.</p> <p>Mae'r un ystyriaeth yn berthnasol i fusnesau lleol sy'n darparu ar gyfer anghenion ymwelwyr yn fwy nag anghenion trigolion. Dyma'r effaith a gaiff ei gwireddu os yw unedau gwyliau'n cael eu gwthio tuag at aneddiadau,</p>	<p>Mae'r arweiniad lleoliadol a gynhwysir o fewn y Canllaw yn cyd-fynd gyda'r arweiniad a gynhwysir yn meini prawf y polisi. Ymhellach ni ystyrir fod yna wrth-daro gan fod Polisi TWR 2 yn hyrwyddo datblygiadau newydd o fewn y ffin neu safle addas sydd wedi ei ddatblygu o'r blaen (sydd yn cynnwys safleoedd sydd tu allan i'r ffin datblygu).</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> - Dim newid</p>
6.	Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.6.5	<p>Er eglurder a thryloywder, dylai'r CCA ddarparu tystiolaeth i ddangos pam mae'r ffigur o 15% wedi'i ddewis. Nid oes esboniad o fewn y CCA</p>	<p>Mae maen prawf 'v' o fewn polisi TWR 2 yn nodi'n glir na ddylai'r bwriad o lety gwyliau arwain at ormodedd o lety o'r fath. Er mwyn diffinio'r hyn a</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
Tud. 99				<p>drafft i esbonio hyn. Gan y byddai hyn yn cyflwyno trothwy nad yw wedi'i bennu ar hyn o bryd gan bolisi cynllunio mabwysiedig o fewn y JLDP, dylid archwilio a chraffu'n gadarn ar y trothwy gyda chyfle ychwanegol i ymgynghori ac ymgysylltu ag asiantau cynllunio ac aelodau o'r cyhoedd.</p>	<p>olygir gan 'gormodedd' mae yna trothwy penodol yn cael ei nodi o fewn y Canllaw.</p> <p>Lle ceir niferoedd uchel o gartrefi gwyliau, gall hyn olygu llai o deuluoedd yn yr anheddle drwy gydol y flwyddyn i ddefnyddio gwasanaethau megis ysgolion, bysiau, swyddfeydd post, ac efallai bod eu hyfywdra yn cael ei fygwth oherwydd defnydd isel.</p> <p>Mae gwaith ymchwil sydd wedi ei gynnal yn Ardal y Llynnoedd fel rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer eu Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeiro at ddau ddogfen ymchwil sydd yn ymwneud a effaith llety gwyliau ar gymunedau. Y cyntaf yw '<i>Housing: An Effective Way to Sustain our Rural Communities</i>' lle mae'n datgan '<i>the percentage of holiday homes should not be more than 20 per cent as this appears to affect the sustainability of any village.</i>' Mae'r ail adroddiad, '<i>The Cumbria Housing Strategy 2006/2011</i>' yn mynd gam ymhellach drwy ei 'Ddangosyddion Cydbwysedd', gan awgrymu na ddylai'r ganran fod yn fwy na 10 y cant.<sup>3</sup> Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw wrth archwilio'r effeithiau y mae ail gartrefi yn eu cael ar gynaliadwyedd unrhyw gymuned.</p> <p>Ymhellach wrth archwilio'r cymunedau yng Nghynedd a Môn ble fo'r ffigwr cyfunol o ail-gartrefi a llety gwyliau yn gyfunol yn fwy na 15% o'r stoc dai, mae'n ymddangos fod yna batrwm o ran, prisiau tai uwch, effaith ar yr iaith gymraeg</p>

<sup>3</sup> [Review of Second Home Data and Assessment of the Effects Second Homes are Having on Rural Communities \(Saesneg yn unig\)](#)

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
					<p>ynghyd a diffyg cyfleusterau ar gyfer y boblogaeth leol.</p> <p>Gan hynny, ystyrir fod y ffigwr o 15% fel a gynhwysir yn y CCA draff wedi ei chyfiawnhau yn llawn ac yn rhesymol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid.</p>
7.	Cefnogi	Cadnant Planning Ltd.	4.6.6.	Croesewir cynnwys yr amgylchiadau eithriadol. Fel arall bydd y Cynllun yn arwain at ormodd o adeiladau allanol na ellir eu hail-ddefnyddio ac yn mynd yn adfeiliedig.	<u>ARGYMHELLIAD</u> – Derbyn y sylw cefnogol
8. Tud. 100	Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.6.6	Os yw'r fenter yn dir addas a ddatblygwyd o'r blaen, beth yw'r niwed yn cynnwys hyn?	<p>Mae'r eithriad er mwyn cefnogi menter gwledig yn cael ei wneud yn benodol er mwyn gwarchod allan-dai adfeiliedig a allai gael eu hail-ddefnyddio. Nodir mai eithriad yn unig dylai rhain fod a bod angen sicrhau fod gan yr ACLI rheolaeth lawn dros yr eithriad hyn.</p> <p>Ymhellach nodir fod tir ble roedd adeiladwaith amaethyddol arno wedi ei eithrio o'r diffiniad (Polisi Cynllunio Cymru) o dir a ddatblygwyd o'r blaen.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid.</p>
9.	Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.6.6	<p>Ni ddylai cytundeb cyfreithiol fod yn gyfyngol heb fod angen. Yn unol â'r canllawiau a nodir yn TAN 6 'Canllawiau Ymarfer', dylid rhoi sylw i 'corddiad' arferol asedau tir drwy eu gwerthu a'u caffael ac effaith gwneud hynny ar weithrediad y fenter.</p> <p>Er mwyn ymdrin â gofynion polisi tebyg, mae ACLI eraill yn defnyddio amod i'w gwneud yn ofynnol i'r uned gael ei rhedeg a'i rheoli ar y cyd</p>	<p>Nodir y sylw sy'n ymwneud â'r gofyniad i beidio â bod yn rhy gaeth. Fe ddefnyddir y mecanwaith priodol i sicrhau bod y llety gwyliau ynghlwm a'r fenter wledig. Er enghraifft, gall y llety gwyliau gael ei rwymo'n gyfreithiol drwy amod neu gytundeb cyfreithiol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid.</p>



Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
				â daliad y fferm ac i gynnwys Rhif Daliad Amaethyddol y fferm. Ystyrir bod hwn yn fecanwaith mwy priodol yn hytrach na chytundeb cyfreithiol.	
10.		Cyngor Cymuned Llaneilian	4.6	Yn gefnogol o'r newid i gymal 4.6	<u>ARGYMHELLIAD</u> – Derbynn y sylw cefnogol
Tud. 101		Cyngor Tref Porthmadog	4.6.5.	<p>Nodir na roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunanwasanaeth pan fo cyfuniad o'r nifer presennol o lety gwyliau ac ail gartrefi 'o fewn ardal y cyngor Cymuned/Tref/Dinas' yn uwch na 15%.</p> <p>Mae Cyngor Tref Porthmadog yn cefnogi hyn yn frwd, ond yn gofyn ystyried ychwanegu 'o fewn ward cyngor sir' neu 'o fewn anheddle penodol' at y diffiniadau hyn (ni fyddai'n eu disodli). Y rheswm am hyn yw y gallai nifer yr ail gartrefi fod yn sylweddol uwch mewn un rhan o ardal cyngor cymuned/tref na rhan arall.</p> <p>Er enghraifft, yn ardal Cyngor Tref Porthmadog sydd yn cynnwys Porthmadog, Tremadog, Borth-y-Gest a Morfa Bychan, mae'r broblem yn waeth o dipyn yn Borth-y-Gest a Morfa Bychan nag yw mewn rhannau eraill o ardal y cyngor tref. Pe bai'r ffigwr ar gyfer ardal y cyngor tref yn digwydd disgyn o dan 15% o ryw fymryn, gallai fod yn briodol o hyd weithredu'r polisi hwn yn y rhannau hynny o'r ardal a fyddai uwchben y trothwy.</p>	<p>Nodir y sylw a dderbyniwyd. Mae'r data a dderbynnir mewn perthynas a niferoedd o ail gartrefi/llety gwyliau yn seiliedig ar ddata gan yr Adran Dreth Cyngor sydd yn cael ei gasglu fesul Cyngor Cymuned/Tref/Dinas.</p> <p>Mae'r pwynt sydd wedi ei godi yn un teg, yn enwedig mewn perthynas a'r enghraifft a gyfeirir ato yn yr achos yma gan y gall fod yna wahaniaethau rhwng anhedleoedd a leolir o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas.</p> <p>Ystyrir gan hynny fod angen diwygio'r Canllaw er mwyn rhoi fwy o hyblygrwydd a galluogi'r ACLI i roi ystyriaeth i ardal fwy leol wrth ystyried y ddarpariaeth presennol o lety gwyliau mewn achosion eithriadol/arbennig.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Diwygio'r CCA fel a chanlyn:-</p> <p>"Ardal</p> <p>4.6.3 Fe ddylid ystyried y ddarpariaeth o lety gwyliau o fewn yr ardal/anheddle mae'r bwriad wedi ei leoli ynghyd a'r ardal ehangach. Mae ffigyrau treth cyngor o ran ail-gartrefi a llety gwyliau annomestig (treth busnes) yn seiliedig ar ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn rhai achosion, yn enwedig ardaloedd gwledig sydd yn</p>

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
Tud. 102					<p>ymylu a neu yn amlwg yn cael ei ddylanwadu gan gyngor cymuned/tref/ dinas gyfagos bydd yn briodol rhoddi ystyriaeth i'r lefel o ddarpariaeth yn yr ardal hynny yn ogystal. <b><u>Ymhellach, gall enghreifftiau o achosion godi ble fo yna nifer uchel o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn eithriadau o'r fath gall yr ACLI ystyried y ddarpariaeth leol (hynny yw tu hwnt i lefel Cyngor Cymuned Tref/Dinas) os ystyrir yn briodol a theg i wneud hynny."</u></b></p> <p><b>Pwynt bwled olaf paragraff 4.6.5:-</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• "Nifer o lety gwyliau - Ni roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunanwasanaeth pan fo cyfuniad o'r nifer presennol o lety gwyliau ac ail gartrefi o fewn ardal y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas yn uwch na 15%. Dylid defnyddio gwybodaeth Treth Cyngor fel y ffynhonnell wybodaeth er mwyn canfod y wybodaeth yma. <b><u>Gall eithriadau godi, ble ystyrir fod yna lefel uchel (mwy na 15%) o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Efallai, mewn achosion o'r fath y bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth tu hwnt i lefel y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas."</u></b></li> </ul>
12.	Obection	Rod Bulmer	4.6.5 (bullet point 6)	Er fy mod yn deall ac yn cefnogi'r hyn sy'n gyrru'r polisi cyffredinol i gyfyngu ar ddarpariaeth, credaf fod y defnydd syml o 15% yn anghywir a bydd yn arwain at ganlyniadau anfwriadol oni bai bod y ffigurau ei hun yn cael eu haddasu neu fel arall caiff adran 4.6.6 ei	Cydnabyddir y pwynt a nodir mewn perthynas a'r system drethu a'r cymhelliad presennol i drosglwyddo drosodd i dalu'r dreth busnes. Fe fyddai newid y gyfundrefn drethu yn golygu newid mewn deddfwriaeth cynradd. Nodir fodd bynnag fod cael rheolaeth ar yr unedau gwyliau sydd angen derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer y

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
Tud. 103				<p>diweddarau ymhellach i fanylu ar amgylchiadau eithriadol ychwanegol.</p> <p>Mae'r trothwy o 15% eisoes wedi'i gyrraedd mewn llawer o gymunedau yng Ngwynedd. Y prif sbardun ar gyfer cyrraedd y trothwy hwn yw trosi eiddo preswyl presennol yn eiddo hunanarlwyo. Ysgogir hyn gan yr atyniad o osgoi premiwm y dreth gyngor ac mewn llawer o amgylchiadau symud yr eiddo ymlaen ibeidio talu trethi oherwydd yr rhyddhad ardrethi busnesau bach sydd ar gael.</p> <p>I bobl sy'n ceisio troi adeiladau adfeiliedig presennol i lety gwyliau, bydd y trothwy o 15% yn atal hyn rhag digwydd. Bydd hyn yn cael effaith leol andwyol fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- bydd masnach sylweddol yn cael ei symud o'r ardal - adeiladu, cynnal a chadw, lletygarwch</li> <li>- bydd adeiladau adfeiliedig presennol yn parhau i fod yn "hyll"</li> <li>- dros amser bydd atyniad yr ardal ar gyfer mewnfuddsoddiad yn cael ei leihau.</li> </ul> <p>Fel y cyfryw, mae gosod y trothwy o 15% fel y'i cynigiwyd i bob pwrpas yn atal datblygiadau newydd ac addasu eiddo adfeiliedig tra'n caniatáu parhau i drosglwyddo eiddo preswyl presennol i'w osod fel llety gwyliau.</p> <p>Cynigir bod y canllawiau hyn (a chanllawiau eraill o bosibl) yn cael eu diweddarau mewn un</p>	<p>defnydd yn gyfrifoldeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol ac y byddai gosod y trothwy fel sydd wedi ei nodi yn y CCA yn cynorthwyo gyda'r nod hynny.</p> <p>Mae maen prawf 'v' o fewn polisi TWR 2 yn nodi'n glir na ddylai'r bwriad o lety gwyliau arwain at ormodedd o lety o'r fath. Er mwyn diffinio'r hyn a olygir gan 'gormodedd' mae yna trothwy penodol yn cael ei nodi o fewn y Canllaw.</p> <p>Lle ceir niferoedd uchel o gartrefi gwyliau, gall hyn olygu llai o deuluoedd yn y pentref drwy gydol y flwyddyn i ddefnyddio gwasanaethau megis ysgolion, bysiau, swyddfeydd post, ac efallai bod eu hyfywra yn cael ei fygwth oherwydd defnydd isel.</p> <p>Mae gwaith ymchwil sydd wedi ei gynnal yn Ardal y Llynnoedd fel rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer eu Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeiro at ddau ddogfen ymchwil sydd yn ymwneud a effaith llety gwyliau ar gymunedau.</p> <p><i>Y cyntaf yw 'Housing: An Effective Way to Sustain our Rural Communities' lle mae'n datgan 'the percentage of holiday homes should not be more than 20 per cent as this appears to affect the sustainability of any village.'</i> Mae'r ail adroddiad, <i>'The Cumbria Housing Strategy 2006/2011'</i> yn mynd gam ymhellach drwy ei 'Ddangosyddion Cydbwysedd', gan awgrymu na ddylai'r ganran fod yn fwy na 10 y cant.<sup>4</sup> Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth hon fel canllaw wrth archwilio'r effeithiau y mae ail</p>

<sup>4</sup> [Review of Second Home Data and Assessment of the Effects Second Homes are Having on Rural Communities \(Saesneg yn unig\)](#)

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad	
Tud. 104				<p>neu fwy o'r ffyrdd a nodir isod i fynd i'r afael â'r broblem wirioneddol heb gosbi:-</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Amgylchiadau Eithriadol Ychwanegol - dylid diweddarau'r rhestr amgylchiadau eithriadol i ganiatáu lefel uwch o hyblygrwydd i awdurdodau cynllunio lleol lle mae'r trothwy wedi ei gyrraedd. Lle gellir dangos "effaith gadarnhaol ar yr ardal leol" yna dylid cael hyblygrwydd. Er enghraifft, ble mae adeiladau adeiledig yn dod yn nol i ddefnydd ac yn creu masnach a swyddi.</li> <li>2. Cynnwys goddefgarwch - 15-20% - Mewn ardaloedd lle mae'r trothwy o 15% yn cael ei dorri, dylid cael goddefgarwch (dyweder hyd at 20%). Byddai hyn yn decach a byddai'n caniatáu i reolaeth gael ei chynnal heb bolisi "gwrthod cyffredinol" na fydd o fudd i'r ardal leol mewn rhai amgylchiadau.</li> <li>3. Newid Trosglwyddo Eiddo Preswyl i Eiddo Busnes fel bod angen Caniatâd Cynllunio cyn gwneud hynny. Mewn gwirionedd, dyma brif sbardun y mater yn yr ardaloedd lleol sy'n fwy na 15%. Pe bai'r canllawiau hyn yn cael eu diweddarau a bod angen caniatâd cynllunio arnynt, yna byddai llawer mwy effeithiol.</li> </ol>	<p>gartrefi yn eu cael ar gynaliadwyedd unrhyw gymuned.</p> <p>Ymhellach wrth archwilio'r cymunedau yng Nghynedd a Môn ble fo'r ffigwr cyfunol o ail-gartrefi a llety gwyliau yn gyfunol yn fwy na 15% o'r stoc dai, mae'n ymddangos fod yna batrwm o ran, prisiau tai uwch, effaith ar yr iaith gymraeg ynghyd a diffyg cyfleusterau ar gyfer y boblogaeth leol.</p> <p>Gan hynny, ystyrir fod y ffigwr o 15% fel a gynhwysir yn y CCA draff wedi ei chyfiawnhau yn llawn ac yn rhesymol.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid.</p>	
	13.	Cefnogi	Cyfoeth Naturiol Cymru	6.2.1	Rydym yn croesawu diwygio paragraff 6.2.1 o'r CCA Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid i gynnwys ystyried effeithiau cronol y dirwedd.	<u>ARGYMHELLIAD</u> – Derbyn y sylw cefnogol
	14.	Cefnogi	Cyngor Cymuned Llanengan	6.21	Cefnogi'r newid.	<u>ARGYMHELLIAD</u> – Derbyn y sylw cefnogol.

Rhif Adnabod y Sylw	Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
15.		Cadnant Planning Ltd.	6.2.1	Mae angen eglurhad yma ar raddfa neu nifer yr unedau ychwanegol a allai sbarduno gofyniad am asesiad cronol o'r effaith ar wasanaethau neu drafnidiaeth. Dylai'r gofyniad ymwneud â datblygu 10 uned neu fwy o lety yn unig.	<p>Ystyriod fod bod yn rhagnodol o ran trothwyon ble fod angen rhoi ystyriaeth i effaith gronol yn amhosib i'w wneud. Fe ddylai phob achos gael ei ystyried ar ei haeddiannau eu hunain.</p> <p>Gall ystyriaeth megis ffurf, lleoliad a sensitifrwydd y dirwedd i gyd fod yn ffactorau wrth ystyried effaith gronol datblygiadau.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>

Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y CCA yn benodol ymwneud a'r diwygiadau i rannau o adran 4.6 a pharagraff 6.2.1 o'r Canllaw. Roedd y rhannau a oedd yn destun y diwygiad wedi ei hamlygu mewn ysgrifen fras ac wedi eu tanlinellu. Derbyniwyd y sylwadau canlynol mewn perthynas â rhannau eraill o'r Canllaw nad oedd yn destun y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Gan hynny, nid oes ystyriaeth bellach wedi cael ei roddi i'r sylwadau a ni chynigir diwygio'r Canllaw mewn ymateb i'r sylwadau hyn:-

Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
	Dafydd Roberts	Cyffredinol	<p>Mae egwyddor gorddarpariaeth yn cael ei fynegi yn 4.6.1 mewn perthynas â llety gwyliau hunanarlwyo.</p> <p>Mae cynnydd aruthrol wedi bod mewn nifer "cytiau bugail" yn ddiweddar. Doeth fyddai hefyd ystyried prawf gorddarpariaeth ar gyfer meysydd carafanau teithiol, gweryslla a llety gweryslla amgen dros dro, er mwyn ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd ac er mwyn lleihau'r risg o dagfeydd a gorlenwi ym mhrif atyniadau ymwelwyr yr ynys, fel y gwelwyd yn haf 2020.</p> <p>Mae wynebu "gridlock" wrth geisio mynychu ein traethau yn debygol o atal ymwelwyr rhag ail ymweld.</p>	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>

Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
			Mae sawl cyfeiriad at "yr ardal leol" yn yr adroddiad. Ymhle mae'r diffiniad o "ardal leol", ac os oes gan ymwelwyr geir - onid yw'r holl ynys yn "ardal leol".	
Tud. 106	Bourne Leisure	1.1.7	<p>Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol</p> <p>Mae paragraff 1.1. 7 yn datgan:-</p> <p>"O ganlyniad felly, dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth cynllunio berthnasol."</p> <p>Mae Pennod 9 Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) (LICD) yn datgan:-</p> <p>"Dim ond y polisiau yn y cynllun datblygu mabwysiedig sydd â statws arbennig o dan adran 38(6) PCPA 2004 wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, gellir ystyried canllawiau cynllunio atodol fel ystyriaeth berthnasol cyn belled â'u bod yn deillio o'r cynllun datblygu mabwysiedig ac yn gyson ag ef a'u bod wedi bod yn destun ymgynghoriad eu hunain, a fydd yn eu gwneud yn fwy dylanwadol."</p> <p>Er y cydnabyddir mai dim ond pwysau cyfyngieidg y gellir ei rhoi i CCA nad ydynt wedi dilyn y camau a nodir yn y (LICD), nid yw'n dilyn pwysau sylweddol yn cael ei roi lle mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u dilyn.</p> <p>Mae'r cyfeiriad at (LICD) 2015 (argraffiad 2) yn Nodyn Gweithdrefnol y Cyngor ar gyfer paratoi CCA bellach wedi'i disodli gan y llawlyfr diweddaraf, nad yw'n rhoi pwysau arwyddocaol na sylweddol. Er mwyn sicrhau "cysondeb" â phennod 9, awgrymwn fod y gair "sylweddol" yn cael ei dynnu o baragraff drafft 1.1.7. Bydd hyn yn sicrhau mai mater i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau yw penderfynu wrth gwneud penderfyniadau ar ganiatáu ceisiadau cynllunio y pwysau y dyid eirhoi i CCA ac nid yn sylweddol yn awtomatig, gan adlewyrchu polisi a chanllawiau cenedlaethol.</p>	<p>Ddim yn sylw dilyn. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>

Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
			<p>Mae Bourne Leisure yn awgrymu bod paragraff drafft 1.1.7. yn cael ei aileirio fel a ganlyn (wedi'i danlinellu ac mewn print trwm):</p> <p>"O ganlyniad felly, dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol. "</p>	
Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	3.1.3.	Nid yw pob busnes gwledig yn amaethyddol. Dylid diwygio hyn i gynnwys arallgyfeirio gwledig yn hytrach nag amaethyddiaeth yn unig.	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>
Gwrthwynebiad Tud. 107	Cadnant Planning Ltd.	3.3.2	<p>Mae Tabl 1 o'r CCA mewn perthynas â 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy' yn ystyried manwerthu a datblygu masnachol fel y rhai sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd aneddiadau ac sy'n ymwneud â pholisiau MAN 1-MAN 6 o'r CDLI ary Cyd. Nid yw datblygiadau twristiaeth yn perthyn i'r categorïau hynny.</p> <p>Felly, nid yw Polisi PS1 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau twristiaeth fod yn ddarostyngedig i DIG neu AEIG, dim ond er mwyn cydymffurfio â meini prawf 4 a 5 y polisi</p>	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>
Gwrthwynebiad	Cadnant Planning Ltd.	4.4.2	Dylai hyn ddarllen "Lleoliad - gan fod y cynllun yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, ni ystyrir bod cynigion sy'n cynnwys datblygu ar ddatblygiad sydd wedi'i leoli'n wael yn alinio â dull y Polisi. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, disgwylir y bydd datblygiadau newydd wedi'u lleoli o fewn neu yn agos at aneddiadau presennol, sydd â seilwaith i wasanaethu'r datblygiad yn barod ac sy'n hygyrch drwy ddulliau cludiant cynaliadwy."	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>

Math o sylw	Sylwebydd	Rhan	Sylwadau	Sylwadau'r swyddogion a'r argymhelliad
Tud. 108	Cadnant Planning Ltd.	4.6.8 (Business Plan)	<p>Yn ôl eu natur, mae gan berchnogion busnes yr arbenigedd i baratoi cynlluniau busnes ac mae angen i hyn gael ei adlewyrchu yn y CCA. Ni ddylid ystyried cynllun busnes yn annigonol ar sail pwy sydd wedi paratoi'r ddogfen honno'n unig. Nid yw penseiri'n adnabyddus am baratoi cynlluniau busnes er enghraifft.</p> <p>Os yw cynlluniau busnes a baratoir gan berson busnes yn dderbyniol gan fanciau a benthycwyr, ni ddylai'r ACLI fod mor gyfarwyddol.</p> <p>Ystyrir ei bod yn fwy priodol awgrymu i geisio am gymorth gan. Os yw'r ACLI o'r farn bod y cynllun busnes yn annigonol, yna byddai'n rhesymol gofyn am gyflwyno cynllun busnes digonol.</p>	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>
	Cadnant Planning Ltd.	5.5.1 (Difiniad o siale)	Dylai hwn adlewyrchu y diffiniad yn y CDLI ar Cyd.	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>
	Cadnant Planning Ltd.	6.6.1	<p>“Ble bo modd, dylid cymryd mesurau i adfer y safle hwn i'w gyflwr gwreiddiol pan nad ydyw'n cael ei ddefnyddio / yn ystod y tymor pan fo safleoedd ar gau.”</p> <p>Ystyrir bod hyn yn ofyniad gormodol a dylid ei ddileu. Mae'n anghynladwy cael gwared ar loriau caled neu arwynebau mandyllog yn ystod y tymor caeedig. Byddai mwy o ddifrod yn cael ei wneud i safleoedd a'r dirwedd yn gyffredinol, drwy ddefnyddio peiriannau trwm i amnewid llecynnau teithiol a thraciau cerrig.</p> <p>Mae gan rhai safleoedd dim ond 'tymor caeedig' o 4-6 wythnos – byddai'n gwbl anymarferol adfer safleoedd i'w cyflwr gwreiddiol am y cyfnodau cyfyngedig hyn.</p>	<p>Ddim yn sylw dilys. Nid yw'r sylw yn benodol ymwneud a rhan o'r CCA a oedd yn destun y cyfnod ymgynghori.</p> <p><u>ARGYMHELLIAD</u> – Dim newid</p>



**CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL**

**DRAFFT YMGYNGHORI**

**CYFLEUSTERAU A  
LLETY I DWRISTIAID**



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**Mawrth 2021**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YNYS MÔN A GWYNEDD**

## Cynnwys

1.0 Cyflwyniad a Phwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol .....	4
1.1 Pwrpas .....	4
1.2 Cyflwyniad .....	5
2.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio .....	6
2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol.....	6
2.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.....	6
3.0 Twristiaeth - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol .....	8
3.1 Datblygiad Ansawdd Uchel .....	8
3.2 Ystyriaethau Tirwedd/Amgylcheddol.....	9
3.3 Ystyriaethau Iaith Gymraeg.....	11
4.0 Llety Gwyliau Gwasanaeth a Hunan-wasanaeth Parhaol.....	12
4.1 Math o unedau .....	12
4.2 Graddfa'r datblygiad.....	12
4.3 Trosi adeiladau presennol.....	13
4.4 Tir addas a ddatblygwyd o'r blaen .....	14
4.5 Estyniadau i ddatblygiadau busnes llety gwyliau parhaol .....	15
4.6 Cyflenwad presennol / Gorddarpariaeth o ddatblygiadau gwyliau hunan-arlwygo parhaol <b>Error! Bookmark not defined.</b>	
4.7 Ceisiadau i ddileu Amodau Deiliadaeth .....	17
4.8 Newid Defnydd Gwestai Presennol .....	18
5.0 Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol .....	20
5.1 Math o Unedau.....	20
5.2 Datblygiadau ar wahân .....	20
5.3 Dwysâd arwyddocaol .....	20
5.4 Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol.....	21
5.5 Defnyddio carafanau sefydlog a siales er dibenion preswyl .....	22
6.0 Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro .....	24
6.1 Math o Unedau.....	24
6.2 Ystyriaethau tirwedd.....	24
6.3 Ystyriaethau priffyrdd .....	25
6.4 Cyfnodau Gweithredu .....	25
6.5 Cyfleusterau ategol .....	25
6.6 Gor-ddefnydd o leiniau caled a nodweddion gwneud .....	26
7.0 Amodau Deiliadaeth .....	27
8.0 Atyniadau a Chyfleusterau i Ymwelwyr.....	28
8.1 Lleoliad y Datblygiad .....	28
9.0 Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau.....	29
Atodiad 1 – Polisiâu CDLI ar y Cyd Perthnasol12 .....	30
POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT .....	30
POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY.....	30

POLISI PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU.....	31
POLISI PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE .....	32
POLISI PCYFF 4: DYLUNIO A THIRWEDDU.....	33
POLISI ARNA 1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL.....	33
POLISI TWR 1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR .....	35
POLISI TWR 2: LLETY GWYLIAU .....	36
POLISI TWR 3: SAFLEOEDD CARAFANAU SEFYDLOG A SIALÉ A LLETY GWERSYLLA AMGEN PARHAOL .....	36
POLISI TWR 4: DEILIADAETH GWYLIAU .....	37
POLISI TAI 14: DEFNYDD PRESWYL O GARAFANAU.....	38
POLISI TWR 5: SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN DROS DRO .....	39
Atodiad 2 - Enghraifft Ffeil Casglwyr LANDMAP (paragraff 3.6.2) .....	41
Atodiad 3 - Mapiau Sensitifrwydd a Chapasiti (paragraff 5.3.3) .....	43
Atodiad 4 Templed Cynllun Busnes (paragraff 4.6.8).....	52
Atodiad 5 - Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol (rhan 5.4).....	55

## 1.0 Cyflwyniad a Phwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol

### 1.1 Pwrpas

#### 1.1.1 Pwrpas y Canllawiau hyn yw:

- cynorthwyo'r cyhoedd a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

#### 1.1.2 Y nod gyffredinol yw gwella ansawdd datblygiadau newydd a hwyluso ffordd gyson a thryloyw o wneud penderfyniadau.

### Y Cyd-destun Polisi

#### Y Cynllun Datblygu Lleol

#### 1.1.3 Dan ddeddfwriaeth gynllunio, mae'r polisiâu cynllunio ar gyfer pob ardal wedi'u cynnwys yn y 'cynllun datblygu'. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn ar 31 Gorffennaf 2017. Mae'n ymwneud ag ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn.

#### 1.1.4 Mae'r Cynllun yn darparu polisiâu amrywiol ynghyd â dyraniadau ar gyfer y prif ddefnyddiau tir, megis tai, cyflogaeth a manwerthu; bydd yn cynorthwyo i siapio dyfodol ardal y Cynllun yn ffisegol ac yn amgylcheddol, a bydd hefyd yn dylanwadu arno yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Felly, mae'r Cynllun yn ceisio:

- arwain yr Awdurdodau Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau rhesymegol a chyson ar geisiadau cynllunio drwy ddarparu fframwaith polisi sy'n gyson â pholisi cenedlaethol; ac
- arwain datblygiadau i ardaloedd addas yn ystod y cyfnod hyd at 2026.

#### Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

#### 1.1.5 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisiâu sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all ddarparu'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar-ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n darparu amrediad o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun fydd yn darparu canllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisiâu a chynigion y Polisi.

### Statws y Canllawiau Cynllunio Atodol

#### 1.1.6 Efallai yr ystyrir Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi pwys sylweddol ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o gynllun datblygu ac sy'n gyson ag ef. Nid yw'r CCA yn cyflwyno unrhyw bolisiau cynllunio newydd.

#### 1.1.7 Yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, mae'r CCA wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a phenderfyniad i fabwysiadu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar ran y Cynghorau. Cymeradwywyd fersiwn drafft o'r CCA hwn am ymgynghoriad cyhoeddus

ar *dyddiad* gan *enw Pwyllgor*. Bu'r canllaw cynllunio atodol hwn yn destun ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus rhwng *dyddiad*. Ystyriwyd y sylwadau a gyflwynwyd i'r Cynghorau a, ble bo'n briodol, mae newidiadau priodol wedi'u cynnwys yn y drafft terfynol a gymeradwywyd gan y *Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd* ar *ddyddiad* i'w ddefnyddio fel ystyriaeth berthnasol wrth asesu a gwneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio ac apeliadau. Gweler crynodeb o'r sylwadau ac ymateb y Cynghorau yn *Atodiad neu leoliad yr adroddiad Pwyllgor*.

**O ganlyniad felly, dylid rhoi pwys sylweddol i'r ddogfen hon fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.**

## 1.2 Cyflwyniad

- 1.2.1 Mae'r CCA hwn yn ymdrin â phob ffurf a graddfa llety gwyliau ac atyniadau dwristiaeth. Mae twristiaeth yn sector deinamig ac yn newid yn barhaus. Mae'n chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y cynllun. Gweler pwysigrwydd twristiaeth yn y tabl<sup>1</sup> isod:

2017	Gwynedd*	Ynys Môn
Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth	£1.06 biliwn	£304.23 miliwn
Cyfanswm niferoedd ymwelwyr (miliynau)	7.28	1.71
Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau)	3.53	1.03
Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau)	3.75	0.68
Nifer yr FTE <sup>2</sup> swyddi a gefnogir gan wariant twristiaeth	15,601	4,102

\*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

- 1.2.2 Mae Ynys Môn a Gwynedd yn elwa o asedau naturiol a diwylliannol eang sy'n gynnig potensial sylweddol i drigolion ac ymwelwyr eu mwynhau. Fodd bynnag, gall datblygiadau twristiaeth newydd gael effaith negyddol ar yr amgylchedd a chymunedau lleol os ydynt wedi'u datblygu'n ansensitif neu wedi'u lleoli'n amhriodol.
- 1.2.2 Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i egwyddorion cynaliadwyedd ac mae datblygiad cynaliadwyedd wrth graidd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod y dylai pob datblygiad yn ardal y cynllun ymgorffori'r egwyddorion hyn, gan gydbwysu'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal a chyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardal y cynllun. Gweler polisi PS 5 Datblygiad Cynaliadwy yn Atodiad 1.

1 Adroddiad STEAM 2017

2 FTE = Cyfwerth ag Amser Llawn

## 2.0 Cyd-destun Polisi Cynllunio

### 2.1 Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 2.1.1 Mae canllaw polisi cynllunio cenedlaethol ar dwristiaeth wedi'u nodi ym Pholisi Cynllunio Cymru (PCC, Rhifyn 10, Rhagfyr 2018) ac yn adnabod ei fod yn cynnwys pob math o weithgareddau, cyfleusterau a mathau o ddatblygiad, ac mae'n hollbwysig i ffyniant economaidd ac i greu swyddi mewn sawl rhan o Gymru ac hefyd yn adnabod bod twristiaeth yn gallu bod yn gatalydd ar gyfer adfywio, gwella'r amgylchedd adeiledig a diogelu'r amgylchedd (5.5.1).
- 2.1.2 Mae'n cydnabod mewn ardaloedd gwledig bod datblygiadau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn elfen hanfodol er mwyn darparu economi iach ac amrywiol. Dylai datblygiadau twristiaeth newydd fod yn sympathetig o ran ei natur a'i raddfa i'r amgylchedd lleol (5.5.3). Mae hefyd yn cydnabod efallai bod angen cyfyngu ar ddatblygiadau newydd i osgoi difrod i'r amgylchedd neu i amwynder pobl leol ac ymwelwyr (5.5.2).
- 2.1.3 Mae canllawiau pellach wedi'u cynnwys yn Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) NCT13: Twristiaeth (1997) sy'n darparu cyngor ar ddatblygiadau gwesty, carafanau sefydlog a theithiol ac amodau meddiannaeth dymhorol. Mae NCT6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) yn cynnwys cyngor megis lleoliad y datblygiad a throsi adeiladau er defnydd gwyliau.

### 2.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

- 2.2.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLI ar y Cyd) Ynys Môn a Gwynedd ar 31 Gorffennaf 2017 ac mae'n darparu fframwaith polisi cynllunio ar gyfer y CCA hwn. Mae rôl bwysig twristiaeth yn ardal y cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLI ar y Cyd sy'n ceisio cefnogi a galluogi datblygiad twristiaeth wrth sicrhau ar yr un pryd fod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig yn cael eu cynnal a'u cyfoethogi.
- 2.2.2 Y polisi strategol trosfwaol ar gyfer twristiaeth yn y CDLI ar y Cyd yw polisi PS14: Yr Economi Ymwelwyr fel y'i nodir isod:

#### **POLISI STRATEGOL PS14: YR ECONOMI YMWELWYR**

Wrth sicrhau cysondeb â'r economi leol a chymunedau lleol a sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael ei gwarchod, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth leol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy:

1. Ganolbwyntio datblygiadau twristiaeth, diwylliannol, celfyddydol a hamdden sy'n gynaliadwy, yn actif ac ar raddfa fwy yn y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol ac, os yn briodol, y canolfannau gwasanaeth lleol;
2. Gwarchod a chyfoethogi llety wedi'i wasanaethu presennol a chefnogi'r ddarpariaeth o lety wedi'i wasanaethu o ansawdd uchel yn y canolfannau isranbarthol, trefol a lleol a phentrefi;
3. Rheoli a chyfoethogi'r ddarpariaeth o lety twristiaid heb ei wasanaethu o ansawdd uchel ar ffurf bythynnod a fflatiau hunanarlwyo, gweryslla, gweryslla moethus amgen, parciau carafanau sefydlog neu deithiol neu siales;
4. Cefnogi darpariaethau a mentrau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn lleoliadau cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, os yw hynny'n briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn

enwedig os yw'r rhain hefyd o fudd i'r cymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, ac os ydynt yn unol â'r amcanion datblygu cynaliadwy;

5. Atal datblygiadau'n fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar y cyfleusterau twristiaeth, gan gynnwys nodweddion llety a llefydd o ddi-ddordeb i ymwelwyr neu eu gosodiad, a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i adfer difrod a wnaed eisoes i'r dirwedd.

### 2.2.3 Mae'r CCA hwn yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Adran 3 - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol
- Adran 4 - Llety Gwyliau Gwasanaeth a Hunan-wasanaeth Parhaol
- Adran 5 - Safleoedd Carafanau Sefydlog a Sialé a Gwersylla Amgen Parhaol
- Adran 6 - Safleoedd Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro
- Adran 7 - Deiliadaeth Gwyliau
- Adran 8 - Atyniadau a Chyfleusterau i Ymwelwyr

### 3.0 Twristiaeth - Ystyriaethau Cynllunio Trosfwaol

Mae nifer o ystyriaethau sy'n berthnasol i fwyafrif y cynigion am gyfleusterau twristiaeth a llety gwyliau newydd neu estyniadau a nodir isod. Fodd bynnag, fe allai ystyriaethau eraill fod yn berthnasol i'r gwahanol fathau o gynigion sy'n cael eu cyflwyno. Ystyrir y materion hyn mewn adrannau diweddarach o'r CCA hwn.

#### 3.1 Datblygiad Ansawdd Uchel

(Polisi TWR 1 maen prawf ii; Polisi TWR 2; Polisi TWR 3 maen prawf 1; Polisi TWR 5 maen prawf 1)

3.1.1 Mae hyn yn cyfeirio at ansawdd y datblygiad o ran ystyriaethau defnydd tir ac nid at unrhyw gynllun graddio cydnabyddedig a weithredir gan y diwydiant twristiaeth. Yn ogystal â gofynion polisi lleol, noda canllaw polisi cenedlaethol y dylai datblygiadau mewn ardaloedd gwledig ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, gan gydbwysu'r angen i gefnogi'r economi wledig, tra'n cynnal ac yn cyfoethogi ansawdd amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ardaloedd gwledig (NCT13: Trafnidiaeth, para 3.11).

3.1.2 Dylai'r holl ddatblygiadau twristiaeth arfaethedig fod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad. Bydd ansawdd cyffredinol y 'cynllun' yn brif ystyriaeth, a bydd yn cael ei fesur yn erbyn gofynion polisiâu rheoli datblygu'r cynllun (gweler Atodiad 1):

- Polisi PCYFF2: Meini Prawf Datblygu, sy'n nodi na ddylai cynigion datblygu gael effaith andwyol ar iechyd, diogelwch na mwynderau'r gymuned leol yn sgil cynnydd mewn gweithgareddau, aflonyddu, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, ysbwriel, draeniad, llygredd golau neu ffurfiau eraill o lygredd neu niwsans.
- Polisi PCYFF3: Dylunio a Siapio Lle, sy'n nodi y bydd disgwyl i'r holl gynigion arddangos ansawdd dylunio uchel sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig a chyfrannu at greu llefydd atyniadol, cynaliadwy, a,
- Polisi PCYFF4: Dylunio a Thirweddu, sy'n nodi y dylai'r holl gynigion integreiddio gyda'r hyn sydd o'u cwmpas. Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio.

3.1.3 Mae'r meini prawf sy'n cynorthwyo i ddiffinio datblygiad ansawdd uchel yn ganolog i wneud penderfyniadau ar effeithiau defnydd tir. Ni all unrhyw ddogfen bolisi fod yn rhagnodol, neu'n gynhwysfawr, o ran disgrifio'r cyfleoedd a allai godi. O ran cynllunio datblygiadau o ansawdd uchel, bydd y materion fel arfer yn ymwneud â math y ffactorau a nodir isod. (Noder nad ydyw'r rhestr hon yn rhestr gynhwysfawr a bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei haeddiant).

#### **Mae'r meini prawf sy'n cynorthwyo i ddiffinio datblygiad o ansawdd uchel o ran ystyriaethau defnydd tir yn cynnwys:**

- Safleoedd wedi'u lleoli mewn lleoliad cynaliadwy, h.y. agos at aneddiadau cyfredol ble y gellir cynnwys datblygiadau newydd orau o ran seilwaith, mynediad a gwarchod cynefinoedd a thirwedd a safleoedd nad ydynt fel arfer wedi'u lleoli mewn cefn gwlad agored oni bai bod cyfiawnhad cadarn am hyn;
- Safleoedd sy'n agos i'r prif rwydwaith priffyrdd ag sydd â chysylltiadau da i ddulliau cludiant amrywiol;



- Safleoedd nad ydynt yn amharu'n weledol ar y dirwedd, sydd wedi'u sgrinio'n dda ac nad ydynt yn achosi niwed andwyol i dirweddau gwarchoddedig (e.e. yr AHNE a'r ATA) na asedau treftadaeth (e.e. Safle Treftadaeth y Byd neu Henebion Cofrestredig).
- Safleoedd sydd ddim o fewn parth C fel a ddiffinir gan mapiau cyngor datblygu (TAN15);
- Safleoedd sydd o faint addas i gyd-fynd â eu hamgylchoedd
- Safleoedd sydd â gorchudd tirwedd gyfredol a dim effaith weledol fawr;
- Amddiffyn yr arfordir sydd heb ei ddatblygu;
- Amddiffyn a hyrwyddo buddion bioamrywiaeth;
- Parch tuag at yr amgylchedd hanesyddol a naturiol;
- Cynorthwyo i atgyfnerthu a chryfhau canolfan dwristiaeth gyfredol a gwneud gwell defnydd o dir drwy atgyfnerthu ardaloedd o weithgarwch twristiaeth gyfredol (atyniadau i dwristiaid, marina ac ati);
- Cyfoethogi tir addas a ddatblygwyd o'r blaen (tir llwyd);
- Rhan o gynllun ar gyfer arallgyfeirio amaethyddol a chefnogi'r economi wledig.

### 3.2 Ystyriaethau Tirwedd/Amgylcheddol

(Polisi TWR 3 maen prawf 1; Polisi TWR 5 maen prawf 1)

- 3.2.1 Mae lleoliad a chymeriad y dirwedd, nodweddion naturiol ac yr amgylchedd adeiladol, argaeledd olygfeydd, gosodiad y safle a sgrinio yn ystyriaethau pwysig wrth asesu cynigion twristiaeth. Noda polisiau'r CDLI ar y Cyd y dylid lleoli datblygiadau newydd mewn lleoliad anymwithiol. Mae lleoliad anymwithiol wedi'i ddiffinio yn y cynllun fel un sydd wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion tirwedd gyfredol ac/neu ble y gellir cydweddu unedau yn rhwydd yn y dirwedd heb yr angen am nodweddion gwneud gormodol.
- 3.2.2 Datgan Polisi PCYFF4: Dylunio a Thirweddu, y dylai'r holl gynigion integreiddio gyda'r hyn sydd o'u cwmpas. Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio. Mae'r polisi yn rhoi arweiniad ar gynnwys cynllun tirlunio, a dylai, ble bo'n berthnasol:
1. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i'r Aseiad Ardal Cymeriad y Dirwedd neu Aseiad Ardal Cymeriad y Morlun;
  2. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu cyfuchlinau naturiol y dirwedd;
  3. Dangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn amddiffyn safbwyntiau lleol a strategol;
  4. Parchu, cadw ac ychwanegu at unrhyw nodweddion naturiol cadarnhaol sy'n bodoli, neu dirweddau neu unrhyw nodweddion eraill ar y safle;
  5. Adnabod coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi i gael eu cadw;
  6. Rhoi cyfiawnhad dros amgylchiadau lle nad oes modd osgoi tynnu / colli coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi gan gyflwyno manylion o'r hyn a roir yn eu lle;
  7. Darparu manylion unrhyw dirweddu newydd arfaethedig yn ogystal â rhaglen o waith plannu graddol;
  8. Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys rhywogaethau planhigion a choed cynhenid lleol yn bennaf ac nad yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau ymwithiol estron;

9. Sicrhau bod y detholiad o rywogaethau a lleoliad y plannu yn caniatáu i goed dyfu i'w huchder aeddfed heb beri niwed i adeiladau, gwasanaethau nac unrhyw blannu arall gerllaw; a
  10. Darparu tirlunio ar wynebau hydraiddd caled.
- 3.2.3 Ble bo'n briodol, dylid darparu deunydd gweledol, asesiad ardrawiad gweledaeth a tirwedd, lle'n briodol, a *photomontages* sydd wedi eu cymryd o safbwyntiau a gytunir gan yr ACLI er mwyn ddangos unrhyw effeithiau gweledol posib datblygiad ynghyd â mesurau lliniaru i gyfarch unrhyw effeithiau a adnabyddir.
- 3.2.4 Dylid cyflwyno Cynllun Tirweddu gan berson gymwys ynghyd a'r cais. Fe fydd amodau yn cael eu defnyddio er mwyn sicrhau fod y cynlluniau tirweddu a gytunir arnynt yn cael ei gweithredu cyn i'r datblygiad fod yn weithredol a'u bod yn cael eu cynnal am byth.
- 3.2.5 Fe fydd yna leoliadau mewn cefn gwlad agored h.y. ble nad oes yna sgrinio naturiol sefydledig neu pan fo'r datblygiad wedi ei leoli mewn man amlwg ble na all unrhyw tirweddu o sylwedd liniaru'r effaith.
- 3.2.6 Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut maent wedi ystyried y wybodaeth a ddarperir gan Strategaeth Tirlun Gwynedd<sup>3</sup>, Strategaeth Tirlun Ynys Môn<sup>4</sup>, Sensitifrwydd a Strategaeth Tirwedd Cyffredinol<sup>5</sup> a'r adnodd LANDMAP<sup>6</sup>. Mae LANDMAP yn adnodd tirlun Cymru gyfan ble mae nodweddion y dirwedd, rhinweddau a dylanwadau ar y dirwedd oll yn cael eu cofnodi a'u harfarnu. Mae'n cynnwys arolygon manwl ar gyfer ardaloedd unigol a elwir yn Ffeiliau Casglwyr. Gweler enghraifft o ffeil casglwr yn Atodiad 2.
- 3.2.7 O fewn yr AHNE ac ATA fe ddylai unrhyw ddatblygiad roddi ystyriaeth i rhinweddau arbennig yr AHNE a'r ATA. Bydd ceisiadau sy'n cael effaith sylweddol ar u rhinweddau arbennig yn cael eu gwrthod.

Mae rhagor o wybodaeth am y rhinweddau arbennig ar gael

- Cynllun Rheoli AHNE Llyn: <https://www.ahne-llyn-aonb.org/7/cy-GB/Rheoli-r-AHNE>
- Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn (2105-2020): <https://www.ynysmon.gov.uk/documents/Dogfennau-Cy/Cefn-Gwlad/Adolygiad-Cynllun-Rheoli-2015-2020-AHNE-Ynys-Môn.pdf>
- Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig yng Ngwynedd a Môn: [https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-Môn-\(DC.008\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Dogfennau-cefndirol/Adolygiad-o-ATA-yng-Ngwynedd-a-Môn-(DC.008).pdf)

3 [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-\(DC.020\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-(DC.020).pdf)

4 [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Angesey-Landscape-Strategy---Update-2011-\(DC.011\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Angesey-Landscape-Strategy---Update-2011-(DC.011).pdf)

5 [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Gwynedd-Landscape-Strategy-Update-2012-\(DC.010\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Gwynedd-Landscape-Strategy-Update-2012-(DC.010).pdf)

6 <https://landmap-maps.naturalresources.wales/>

### 3.3 Ystyriaethau iaith Gymraeg

(Polisi PS 1; Polisi PS 5 maen prawf 4)

- 3.3.1 Mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd trigolion ac ymwelwyr yn ardal y Cynllun. Pan fo datblygiad yn cael ei gynnig, rhaid ystyried cyfoethogi a gwarchod yr iaith a'r diwylliant. Mae Polisi Strategol PS1 yn nodi'r cyd-destun ar gyfer yr asesiad o effaith bosib y cynigion ar yr iaith a diwylliant (gweler Atodiad 1).
- 3.3.2 O ran datblygiadau twristiaeth, bydd angen Datganiad Iaith Gymraeg fydd yn gwarchod, hyrwyddo a chyfoethogi'r iaith Gymraeg o ran y cynigion mwy sy'n ymwneud â chyflogi mwy na 50 o bobl ac/neu gydag ardal o 1,000 metr sgwâr. Bydd disgwyl i'r holl gynigion, waeth beth fo'u math, eu maint na'u lleoliad, gydymffurfio â maen prawf 4 a 5 o PS1 sef y gofyn am gynllun arwyddion dwyieithog i ymdrin â'r holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnig mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chan gwmnïau masnachol a busnesau. Disgwylir i enwau Cymraeg presennol gael eu cadw ac i enwau Cymraeg priodol gael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd.
- 3.3.3 Noda Maen Prawf 3 PS1 y bydd Cynghorau yn gwrthod cynigion fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir ei osgoi na'i liniaru'n addas gan fecanweithiau cynllunio priodol.
- 3.3.4 Gweler gwybodaeth bellach ar yr uchod yn y CCA "Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy".

## 4.0 Llety Gwyliau Gwasanaeth a Hunan-wasanaeth Parhaol

Mae Polisi TWR 2: Llety Gwyliau (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu cyfleusterau llety gwyliau gwasanaeth a hunanwasanaeth parhaol newydd neu ymestyn rhai presennol. Mae'r prif ystyriaethau polisi fel a ganlyn:

- Math o Unedau
- Graddfa'r datblygiad
- Trosi adeiladau presennol
- Tir addas a dd atblygwyd eisoes
- Estyniadau i ddatblygiadau llety gwyliau parhaol presennol
- Gorddarpariaeth o ddatblygiadau gwyliau hunan-arlwyo parhaol
- Amodau Cynllunio

### 4.1 Math o unedau

- 4.1.1 Mae'r mathau o unedau sydd yn cael eu hystyried o dan y polisi yma yn cynnwys adeiladau parhaol sy'n cael eu hadeiladu ar y safle dros gyfnod o amser yn hytrach na chael eu cario yno fel uned rhagsaerniol (prefabricated), ble fo yna gysylltiad ffisegol ynghlwm a'r ddaear a ble fo'r adeiladwaith yn awgrymu elfen o sefydlogrwydd sy'n golygu y byddai rhaid dymchwel (yn hytrach nag ddatgymalu) a ni ellir eu hailadeiladu mewn manau eraill.

### 4.2 Graddfa'r datblygiad

- 4.2.1 Noda Maen Prawf ii TWR 2 y dylai graddfa pob datblygiad arfaethedig fod yn briodol gan ystyried y safle, y lleoliad a/neu'r anheddiad dan sylw. Er mwyn sicrhau y cyflawnir hyn, bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod y cynnig yn rhoi ystyriaeth lawn i gymeriad y safle a'r ardal o'i amgylch a pherthynas bresennol neu bosib y safle gydag unrhyw bwyntiau gweledol, golygfeydd neu adeiladau hanesyddol pwysig ac ati. Dylai'r asesiad hwn fod yn gymesur â graddfa a chyd-destun y cynigion. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, disgwylir y bydd datblygiadau newydd ar raddfa fawr wedi'u lleoli o fewn aneddiadau presennol neu ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen, sydd â seilwaith i wasanaethu'r datblygiad yn barod, a gwarchod cefn gwlad agored rhag datblygiad amhriodol. Mae'r ffactorau i'w hystyried wrth asesu graddfa cynnig yn cynnwys:

1. Bod y safle o faint digonol ar gyfer y cynnig heb gyfaddawdu unrhyw ddarpariaeth briodol o gyfleusterau atodol megis tirlunio meddal ac ardaloedd parcio a gwasanaethu. (Gweler polisi PCYFF4, Atodiad 1).
2. Bod graddfa'r datblygiad yn cydweddu ac yn ffitio'n gyfforddus i'w amgylchfyd (Gweler polisi PCYFF 3, Atodiad 1).
3. Yn unol ag egwyddorion hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, mae'n bwysig lleoli datblygiadau graddfa fawr (gan gynnwys rhai ar safleoedd a ddatblygwyd eisoes), a allai gynyddu nifer y siwrneiau a wneir gan gerbydau preifat, mor agos â phosib i'r canolfannau gwasanaeth sydd wedi'u hadnabod yn hierarchaeth aneddiadau'r cynllun, neu o fewn pellter cerdded diogel rhesymol iddynt, a/neu o fewn pellter cerdded rhesymol i gyfnewidfeydd neu lwybrau cludiant cyhoeddus, pan fo hynny'n bosib. Wrth asesu agweddau cludiant cynigion bydd yr ACLI yn cydbwysu'r angen swyddogaethol am leoliad y cynnig a'i fudd i'r economi leol yn erbyn yr angen i hyrwyddo'r dulliau cludiant mwyaf cynaliadwy.
4. Nad yw graddfa'r datblygiad yn effeithio'n andwyol ar gymeriad diwylliannol y gymuned leol ond yn gymesur i faint a chymeriad unrhyw adeiladau/busnes neu anheddiad sydd wedi'i leoli'n gyfagos.

### 4.3 Trosi adeiladau presennol

4.3.1 Wrth asesu ceisiadau cynllunio ar aildefnyddio neu addasu adeilad i lety gwyliau gwasanaeth neu hunanwasanaeth, y brif ystyriaeth fydd p'un a yw natur a graddfa'r defnydd newydd a gynigir ar gyfer yr adeilad yn dderbyniol mewn termau cynllunio. Fe ellir gweld gwybodaeth bellach yn yr CCA "Addasu Adeiladau Gwledig yng Nghefn Gwlad".

4.3.2 Mae'r hyn a ganlyn yn rhestr o faterion a ystyrir er mwyn asesu addasrwydd yr adeilad i'w ddefnyddio yn benodol fel llety gwyliau:

- i. Mae'r adeilad yn strwythurol gadarn ac mae modd ei drosi heb waith ailadeiladu mawr neu ailadeiladu'n llwyr, estyniadau mawr neu addasiadau mawr;
- ii. Mae'r adeilad yn addas ar gyfer y defnydd penodol;
- iii. Bod unrhyw nodweddion teilwng sydd yn yr adeilad yn cael eu cadw a bod unrhyw nodweddion o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol yn cael eu diogelu;
- iv. Gwarchod buddion bioamrywiaeth fel ystlumod;
- v. Nad yw'r trosiad yn arwain at effeithiau annerbyniol ar strwythur, ffurf, cymeriad neu osodiad pan fo'r adeilad o ddiddordeb hanesyddol ac/neu bensaernïol;
- vi. Mae'r trosiad yn parchu cymeriad, graddfa a gosodiad yr adeilad presennol;
- vii. Mae eu ffurf, swmp a'r dyluniad cyffredinol yn cydweddu â'r ardal o'u cwmpas;
- viii. Nid yw'r trosiad yn arwain at wasgaru gweithgarwch ar y fath raddfa fel ei fod yn cyfaddawdu bywiogrwydd trefi a phentrefi;
- ix. Yr angen am wasanaethau newydd yn yr eiddo;
- x. Er na fyddai angen ystyried fel arfer p'un a oes angen yn parhau am yr adeilad ar gyfer ei ddibenion cyfredol, byddai'n briodol ymchwilio (a) hanes yr adeilad i sefydlu p'un a gafodd erioed ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion yr honnwyd iddo gael ei adeiladu, ac/neu (b) effaith ei golli ar eiddo cyffiniol / cyfagos (e.e. colli unrhyw adeiladau cwrtil);
- xi. Cydweddiad y defnydd arfaethedig â defnyddiau eiddo presennol cyffiniol / gerllaw o ran sŵn, aflonyddwch traffig, diffyg preifatrwydd ar gyfer unrhyw eiddo cyffiniol / gerllaw;
- xii. Effaith yr adeilad presennol ar y dirwedd o ran mwynderau gweledol a p'un a fyddai'r cynnig yn sicrhau gwelliant yn ymddangosiad allanol yr adeilad.
- xiii. Ni fyddai'r bwriad yn niweidio mwynderau'r gymdogaeth,

4.3.3 Rhaid i unrhyw gais i drosi adeilad presennol gynnwys arolwg strwythurol llawn gan berson cymysgedig sydd yn nodi bod yr adeilad yn strwythurol addas i gael ei drosi heb waith ailadeiladu, addasu ac estyniadau sylweddol. Fe fydd rhaid i'r arolwg strwythurol gyfeirio at y cynlluniau arfaethedig h.y. fod yr adeilad yn gallu ymdopi a'r gwaith a fwriedir, ac fe ddylid cynnwys pyllau arbrawf (trial pit) er mwyn sicrhau fod y materion sylfaenol yn wybyddus, e.e. pa fath o sylfaen sy'n bodoli, oes angen ategion (underpinning) ayyb.

4.3.4 Gweler canllawiau pellach mewn canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Noda baragraff 3.2.1 NCT 23: Datblygiad Economaidd<sup>7</sup> bod gan aildefnyddio ac addasu adeiladau gwledig sy'n bodoli eisoes rôl bwysig i'w chwarae mewn diwallu anghenion ardaloedd gwledig ar gyfer datblygiadau masnachol a diwydiannol, a thwristiaeth, chwaraeon a hamdden. Wrth gydnabod hyn, mae disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu dull cadarnhaol o weithredu wrth drawsnewid adeiladau gwledig at

<sup>7</sup> <http://gov.wales/docs/desh/policy/140207tan-23-economic-development-cy.pdf>

ailldefnydd busnes, yn enwedig yr adeiladau hynny sydd wedi'u lleoli ar gampysau adeiladau fferm neu wrth eu hymyl.

#### 4.4 Tir addas a ddatblygwyd o'r blaen

- 4.4.1 O ran cynigion am atyniadau newydd i ymwelwyr a llety gwyliau gwasanaeth a hunanwasanaeth, bydd rhaid i bob cynnig datblygu fod wedi'i leoli naill ai o fewn ffin ddatblygu neu ar dir addas a ddatblygwyd o'r blaen. Mae'r CDLI ar y Cyd yn defnyddio'r diffiniad o dir a ddatblygwyd o'r blaen a welir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Tachwedd 2016: Ffigur 4.4) sy'n nodi:

Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw tir y mae arno neu yr oedd arno adeiladwaith parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog yn gysylltiedig ag ef. Cynhwysir cwrtil (gweler nodyn 1 isod) y datblygiad, ac adeiladau diogelwch hefyd, a thir a ddefnyddiwyd i gloddio mwynau a gwaredu gwastraff (gweler nodyn 2 isod) lle na wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer ei adfer drwy weithdrefnau rheoli datblygu.

Ni chynhwysir y rhain yn y diffiniad:

- tir ac adeiladau a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth;
- tir mewn ardaloedd adeiledig nas datblygwyd o'r blaen – e.e. parciau, meysydd chwaraeon a rhandiroedd – hyd yn oed pe bai'r ardaloedd hyn yn cynnwys rhai nodweddion trefol fel llwybrau, pafiliynau ac adeiladau eraill;
- tir lle mae olion unrhyw adeiladwaith neu weithgaredd wedi ymdoddi i'r dirwedd gydag amser fel gellir ystyried yn rhesymol eu bod yn rhan o'r amgylchedd naturiol;
- tir a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cyfrannu at gadwraeth natur a hynny i raddau a allai fod yr drech na'r angen am ailldefnyddio'r safle;
- tir a ddatblygwyd o'r blaen a ddefnyddiwyd wedyn fel amwynder.

#### Nodiadau:

1. Y diffiniad o gwrtil yw'r darn o dir sydd ynghlwm wrth adeilad. Diffinnir yr holl dir oddi mewn cwrtil y safle hefyd fel tir a ddatblygwyd o'r blaen. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y dylai holl arwynebedd y cwrtil gael ei ailldatblygu. Er enghraifft, pan nad yw troed adeilad ond yn cymryd cyfran o safle, ac y mae'r gweddill ohono'n dir agored (ysbyty er enghraifft), fel rheol ni ddylid datblygu'r safle cyfan hyd at derfyn y cwrtil. Dylai'r awdurdod cynllunio lleol ddyfarnu ynghylch patrwm y safle yn y cyd-destun hwn, gan gadw mewn cof ystyriaeth cynllunio eraill megis polisiâu i ddiogelu mannau agored a chaeau chwarae neu ddatblygu yng nghefn gwlad. Dylid ystyried ffactorau megis perthynas y safle â'r ardal o'i gwmpas a'r angen am fannau agored, lleiniau clustogi a mannau wedi eu tirweddu ar y safle.
2. Mae hyn yn ymwneud â safleoedd mwynau a gwastraff a fyddai heb eu hadfer fel arall ar ôl eu defnyddio, am nad oedd y caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn cynnwys amod i'w hadfer. Adferir pob safle arall o'r fath i statws maes glas, yn rhinwedd yr amod gynllunio.

- 4.4.2 Unwaith y sefydlir bod y datblygiad wedi'i leoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen (yn unol â'r diffiniad yn y blwch uchod), rhaid cynnal asesiad o'i addasrwydd. Mae'r ffactorau sy'n diffinio addasrwydd y tir a ddatblygwyd o'r blaen yn cynnwys:

- Lleoliad - gan fod y cynllun yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, ni ystyrir bod cynigion sy'n cynnwys datblygu ar ddatblygiad sydd wedi'i leoli'n wael yn alinio â dull y Polisi. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, disgwylir y bydd datblygiadau newydd wedi'u lleoli o fewn neu yn agos at aneddiadau presennol, sydd â seilwaith i wasanaethu'r datblygiad yn barod ac sy'n hygyrch drwy ddulliau cludiant cynaliadwy.
- Natur y tir a ddatblygwyd o'r blaen - yn aml, gellir ystyried datblygiad trefol (ei natur a'i ymddangosiad) yn y chefn gwlad agored yn rhywbeth estron yn ei amgylchfyd naturiol ac felly dylid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith gweledol/tirwedd datblygiad o'r fath, h.y. bydd adeiladau newydd sydd wedi'u lleoli uwchben llinell y crib neu sydd ar ben clogwyn/ lleoliad y crib neu sydd a fyddai fel arall yn nodwedd amlwg annerbyniol yn y dirwedd. Dylid sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn cael effaith sylweddol fwy ar gymeriad ac ar ba mor agored yw'r ardal o gwmpas o gymharu â'r tir a ddatblygwyd o'r blaen.

4.4.3 Rhaid i bob cais i ddymchwel ac ailadeiladu adeilad presennol gynnwys arolwg strwythurol er mwyn asesu cyflwr strwythurol yr adeilad presennol i ganfod p'un a oes modd ei drosi ai peidio. Nid bwriad y polisi yw caniatáu i adeilad strwythurol cadarn gael ei ddymchwel er mwyn creu tir llwyd newydd.

#### **4.5 Estyniadau i ddatblygiadau busnes llety gwyliau parhaol presennol**

- 4.5.1 Rhaid i unrhyw gais am estyniadau i ddatblygiadau llety gwyliau parhaol presennol brofi bod cysylltiad sefydlog rhwng y datblygiad arfaethedig a phresennol, h.y. ei fod yn ffurfio rhan o'r un uned cynllunio, rhaid bod yn rhan o'r un busnes a bod y cais i ymestyn y busnes llety gwyliau yn rhan o gynllun ehangach i wella'r cynnig busnes a thwristiaid yn ardal y Cynllun.
- 4.5.2 Rhaid i raddfa a dyluniad y datblygiad arfaethedig fod yn gymesur a'r busnes presennol.

#### **4.6 Diffinio gorddarpariaeth**

- 4.6.1 Mae nifer uchel o lety gwyliau neu grynodiad o lety gwyliau mewn ardal benodol yn gallu cael effaith andwyol ar wead cymdeithasol y cymunedau hynny. Mae Polisi TWR 2 (maen prawf 5) yn nodi'n eglur na ddylai unrhyw ddarpariaeth o lety gwyliau arwain at 'ormodedd' o lety gwyliau mewn ardal benodol.

#### ***Diffinio'r mathau o unedau sydd angen eu hystyried***

- 4.6.2 Wrth ystyried gorddarpariaeth o lety gwyliau hunanarlwyo fe ddylid rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth a'r amrediad o lety gwyliau parhaol hunan arlwyo sydd ar gael. Mae'r enghreifftiau o'r math yma o lety yn cynnwys llety gwyliau hunanarlwyo (gan gynnwys Airbnb) ynghyd a llety gwyliau pwrpasol (hynny yw unedau parhaol sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn bwrpasol ar gyfer defnydd gwyliau). Ymhellach, nodir y dylid hefyd rhoi ystyriaeth i'r gyfradd o ail-gartrefi o fewn cymuned. Mae'r 'materion' sydd yn gysylltiedig ag effaith ail-gartrefi ar gymunedau yn aml yn cyd-fynd a'r materion yn gysylltiedig â 'llety gwyliau hunanarlwyo' er enghraifft gall lefelau uchel o ail gartrefi ynghyd a llety gwyliau olygu:-
- Diffyg cyflenwad o dai er mwyn cwrdd â'r angen lleol;
  - Effaith ar wasanaethau lleol, mwynderau trigolion lleol a'r gymuned;



- Diffyg poblogaeth segur er mwyn cynnal a chefnogi cyfleusterau cymunedol lleol;
- Cyfleoedd gwaith tymhorol yn unig;
- Effaith ar y prisiau tai lleol.

### **Ardal**

4.6.3 Fe ddylid ystyried y ddarpariaeth o lety gwyliau o fewn yr ardal/anheddle mae'r bwriad wedi ei leoli ynghyd a'r ardal ehangach. Mae ffigyrau treth cyngor o ran ail-gartrefi a llety gwyliau annomestig (treth busnes) yn seiliedig ar ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn rhai achosion, yn enwedig ardaloedd gwledig sydd yn ymylu a neu yn amlwg yn cael ei ddylanwadu gan gyngor cymuned/tref/dinas gyfagos bydd yn briodol rhoddi ystyriaeth i'r lefel o ddarpariaeth yn yr ardal hynny yn ogystal. Ymhellach, gall enghreifftiau o achosion godi ble fo yna nifer uchel o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Mewn eithriadau o'r fath gall yr ACLI ystyried y ddarpariaeth leol (hynny yw tu hwnt i lefel Cyngor Cymuned Tref/Dinas) os ystyrir yn briodol a theg i wneud hynny.

### **Ffynonellau gwybodaeth**

4.6.4 Dylid defnyddio gwybodaeth Treth Cyngor ynghyd ac unrhyw wybodaeth sydd yn deillio o'r Arolwg Llety Gwlâu perthnasol wrth geisio casglu gwybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth bresennol o lety gwyliau ac ail-gartrefi. Er mwyn sicrhau fod y wybodaeth gywir a chyfredol yn cael ei ddefnyddio, anogir ymgeiswyr i gysylltu hefo'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn derbyn arweiniad.

4.6.5 Wrth asesu os oes yna orddarpariaeth o lety gwyliau, fe ddylid ystyried y canlynol:-

- Oes yna wasgariad cyson o lety gwyliau ar draws ardal - Mae darpariaeth o lety gwyliau sydd wedi ei ddosbarthu'n gyson ar draws ardal yn fodd o sicrhau nad yw'n arwain at bocedi o eiddo gwag yn ystod y gaeaf ac yn sicrhau nad oes yna ormod o bwysau ar wasanaethau ac isadeiledd lleol yn ystod y tymor brig;
- Effaith cymdeithasol-diwylliannol - Gall treiddiad o lety gwyliau i ardal sydd yn draddodiadol yn ardal breswyl arwain at newid yn werthoedd ac ymddygiad pobl ac yn sgil hynny colli eu hunaniaeth ddiwylliannol.
- Effaith ar fwynderau trigolion lleol, e.e. cwynion yn ymwneud a sŵn, aflonyddwch, cynnydd mewn traffig ayyb.
- Diffyg cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol - Busnesau lleol yn darparu ar gyfer anghenion ymwelwyr yn fwy nag anghenion y trigolion lleol ac yn agor yn dymhorol yn unig.
- Pwysau ar isadeiledd lleol – Gallu a capasiti yr isadeiledd lleol i ymdopi yn ystod y tymor brig.
- Nifer o lety gwyliau - Ni roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau ar gyfer llety gwyliau hunanwasanaeth pan fo cyfuniad o'r nifer presennol o lety gwyliau ac ail gartrefi o fewn ardal y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas yn uwch na 15%. Dylid defnyddio gwybodaeth Treth Cyngor fel y ffynhonnell wybodaeth er mwyn canfod y wybodaeth yma. Gall eithriadau godi, ble ystyrir fod yna lefel uchel (mwy na 15%) o lety gwyliau mewn anheddle/ardal benodol o fewn ardal Cyngor Cymuned/Tref/Dinas. Efallai,



mewn achosion o'r fath y bydd angen rhoi ystyriaeth i'r ddarpariaeth tu hwnt i lefel y Cyngor Cymuned/Tref/Dinas."

- 4.6.6 Cydnabyddir fod yno rai amgylchiadau eithriadol yn gallu codi ble fo yno fanteision amlwg i ganiatáu llety gwyliau mewn ardal sydd eisoes hefo nifer uchel o lety gwyliau ac ail-gartrefi (tu hwnt i'r trothwy o 15%). Mae'r achosion eithriadol hyn yn cynnwys:
- Menter sydd yn gysylltiedig â arallgyfeirio gwledig. Byddai angen profi fod y bwriad yn gysylltiedig â menter wledig (yn unol â diffiniad Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy) sydd yn bodoli eisoes a bod y bwriad yn cyfrannu at gynnal y fenter hynny. Dylai unrhyw fenter o'r fath (yr eithriad) olygu trosi adeilad(au) traddodiadol segur sydd yn strwythurol gadarn yn hytrach na datblygiadau newydd. Ymhellach fe ddylai'r bwriad gael ei glymu'n gyfreithiol i'r fenter wledig sydd yn bodoli.
  - Bwriad a fyddai'n golygu cadw a gwneud defnydd amgen o adeilad rhestredig sydd o werth hanesyddol.

### **Y cynllun busnes**

- 4.6.7 Ni ddisgwylir i'r Cynllun Busnes fod yn ddogfen faith a chymhleth, fodd bynnag, bydd angen gwybodaeth fanwl wedi'i chefnogi gan wybodaeth feintiol ac ansoddol (fel sy'n berthnasol). Yn ogystal, mae angen i lefel y manylion/gwybodaeth a ddisgwylir i fod wedi'i chynnwys yn y Cynllun Busnes fod yn gymesur â'r cynnig. Dylid cynnwys ac atodi tystiolaeth sy'n cefnogi unrhyw ragdybiaethau yn y Cynllun Busnes fel sy'n briodol yn y Cynllun.
- 4.6.8 Dylai'r Cynllun Busnes gael ei baratoi gan unigolyn/cwmni cymwys. Er enghraifft, gallai'r rhai sy'n ymgymryd â'r Cynllun Busnes fod yn Bensaer, Cynlluniwr Proffesiynol, Syrfêwr Siartredig, Ymgynghorydd Ariannol neu'n arbenigwr yn y maes twristiaeth (neu gyfuniad o'r unigolion hyn) gyda mewnbwn yr ymgeisydd o ran gweledigaeth y busnes ar gyfer y dyfodol. Dylai'r 'Cynllun Busnes' nodi'n glir pwy sydd wedi ymgymryd â'r Cynllun ynghyd â chymhwyster yr unigolyn o ran ymgymryd â'r gwaith.
- 4.6.9 Bydd yr holl Gynlluniau Busnes yn cael eu hasesu gan y Swyddog Cynllunio mewn ymgynghoriad â swyddogion cymwys yn y Cyngor. Efallai y bydd angen cymorth pellach gan arbenigwyr allanol a hynny ar gost yr ymgeisydd.
- 4.6.10 Er mwyn rhoi cyngor i ymgeiswyr o ran pa wybodaeth y dylid ei chynnwys yn y Cynllun Busnes, mae templed wedi'i gynnwys yn atodiad 4. Noder nad yw'r templed yn gynhwysfawr ond mae'n rhoi arweiniad ar y math o wybodaeth sydd ei hangen. Mae'r templed hwn yn addasiad o ganllawiau a roddir gan Fusnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/starting-up/cy/cynllun-busnes>

## **4.7 Ceisiadau i ddileu Amodau Deiliadaeth**

- 4.7.1 Gosodir amod cynllunio ar bob cais yn nodi mae ar gyfer defnydd llety gwyliau yn unig y bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer. Mae nifer o'r adeiladau hyn wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored, ymhell oddi wrth aneddiadau a nodwyd yn y CDLI ar y Cyd, mewn ardaloedd ble na fyddai datblygiadau anheddol fel arfer yn cael ei ganiatáu. Os dderbynnir tystiolaeth rymus yn profi fod yr eiddo bellach ddim yn hyfyw fel llety gwyliau yn unol â chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, bydd angen ymgymryd â phrawf dilyniannol er myn rheoli meddiannaeth yr eiddo. Yn y lle cyntaf, bydd angen i'r ymgeisydd ddangos rhesymau cynllunio cadarn na ellir addasu'r eiddo ar gyfer defnydd cyflogaeth amgen. Yna, os gellir profi nad oes yna

ddefnyddiau cyflogaeth amgen ar gyfer yr adeilad yna fe allai o bosib fod yn addas ar gyfer gweithwyr sydd yn gweithio mewn menter wledig yn lleol ac nad oes yna unrhyw anheddau sy'n bodoli eisoes ar gael ar gyfer y mentrau hyn (yn amodol ar ganiatâd cynllunio).

- 4.7.2 Yn olaf, os yw'r ACLI yn fodlon nad oes dim gweithwyr menter wledig gymwys sy'n chwilio am lety, bydd y cymhwysedd yn cael ei ymestyn i bobl leol a fyddai'n gymwys i'w hystyried ar gyfer tai fforddiadwy. Yn y cyswllt hwn, dylid derbyn barn ar y Gwasanaeth Tai mewn perthynas a'r angen lleol am dai fforddiadwy.
- 4.7.3 Oherwydd y rhesymau yma fe gyfyngir meddiannaeth yr eiddo fel a chanlyn:  
Bydd yr uned(au) gwyliau yn cael ei meddiannu ar gyfer defnyddiau gwyliau yn unig a ni fydd yn cael ei feddiannu fel unig neu brif fan preswyl yr unigolyn. Dylai perchnogion / gweithredwyr yr uned(au) gwyliau gadw cofrestr gyfredol yn cofnodi enwau'r holl berchnogion/meddianwyr yr uned(au) gwyliau ar y safle ac o'r prif gyfeiriad cartref ac fe ddylem sicrhau fod yr wybodaeth ar gael ar bob amser rhesymol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Os gellir dangos nad yw'r defnydd gwyliau bellach yn hyfyw mwyach, ystyrir y defnydd a ganlyn:

- a) defnydd cyflogaeth amgen addas, neu gael ei feddiannu gan berson yn unigol neu yn bennaf ar fenter wledig yn yr ardal leol; lle mae/lle'r oedd angen swyddogaethol wedi'i ddiffinio; neu os gellir dangos nad oes unrhyw ddefnydd cyflogaeth amgen cymwys iddo;
  - b) I'r rhai fyddai'n gymwys i'w hystyried ar gyfer tai fforddiadwy o dan bolisiau tai'r awdurdod lleol; neu os gellir dangos nad oes unigolion yn gymwys ar gyfer meddiannaeth o dan (a);
  - c) gweddwon, gwŷr gweddw neu bartneriaid sifil o'r uchod ac unrhyw ddibynyddion y preswylwyr.
- 4.7.4 Ni ddylai maint yr unedau gwyliau newydd neu sy'n cael ei drosi fod yn ormodol o ran ei faint neu efallai na fyddai'n fforddiadwy, os ar gyfer pwy bynnag reswm fod y llety gwyliau ddim bellach yn hyfyw. Sylwer fod hyn yn berthnasol i eiddo sy'n cael eu adnabod fel defnydd C3 yn y gorchymyn dosbarth defnydd.

## **4.8 Newid Defnydd Gwestai Presennol**

- 4.8.1 Mae maen prawf 2 o Bolisi Strategol PS 14: Yr Economi Ymwelwyr yn nodi y bydd y Cynghorau yn cefnogi cynigion datblygu ar gyfer sector dwristiaeth drwy gydol y flwyddyn drwy warchod a gwella'r ddarpariaeth o lety gwasanaethol. Bydd ceisiadau ar gyfer newid defnydd gwestai yn cael eu gwrthod oni bai fod yna dystiolaeth gadarn yn cael ei gyflwyno sydd yn datgan fod y gwesty ddim bellach yn hyfyw.
- 4.8.2 Os yw'r gwesty yn wag a ddim bellach yn gweithredu fel busnes fe ddylai'r ymgeisydd brofi fod yna ymdrech gwirioneddol wedi bod i farchnata'r uned am gyfnod o leiaf 12 mis ar gyfer defnydd gwesty.
- 4.8.3 Dylai'r dystiolaeth gynnwys copïau o'r hysbysiad marchnata/gwerthu o'r gwesty ynghyd a chadarnhad ysgrifenedig gan yr arwerthwr gwerthu mewn perthynas â'r diddordeb/cynigion sydd wedi bod. Dylid sicrhau fod y strategaeth marchnata i werthu'r busnes wedi targedu'r farchnad fwyaf addas h.y. y defnydd o asiantau arbenigol sydd hefo profiad o farchnata a gwerthu gwestai.

- 4.8.4 Wrth ystyried cynigion a fyddai'n arwain at newid defnydd gwestai, fe fydd yn angenrheidiol derbyn tystiolaeth ariannol fod y busnes presennol ddim yn hyfyw. Dylid cyflwyno Adroddiad Ariannol sydd yn profi fod y busnes ddim yn ariannol hyfyw mwyach a ni ddisgwylir y gallai fod yn economaidd hyfyw yn y dyfodol.

DRAFFT TERFYNOL

## 5.0 Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol

Mae Polisi TWR 3: Safleoedd Carafanau Sefydlog, Sialé a Llety Gwersylla Amgen Parhaol (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu safleoedd newydd neu ymestyn rhai presennol. Mae'r prif ystyriaethau polisi fel a ganlyn:

- Math o unedau
- Datblygiadau ar wahân
- Ceisiadau am unedau sengl ar wahân
- Dwysâd arwyddocaol
- Ardaloedd rheoli newid arfordirol
- Defnyddio carafanau sefydlog a siales er dibenion preswyl

### 5.1 Math o Unedau

5.1.1 Y math o unedau sy'n dderbyniol dan y polisi hwn yw unedau y mae modd eu datgymalu a'u hail-adeiladu rywle arall os oes angen, gan gynnwys unedau parod nad oes gofyn am lawer o waith adeiladu arnynt ar y safle.

- Carafán - strwythur a ddyluniwyd fel trigfan i fodau dynol y gellir ei symud o un lle i'r llall fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960 (a addaswyd gan Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968).
- Sialé - uned barod lled-barhaol un-llawr y gellir ei datgymalu a'i hailadeiladu rywle arall.
- Llety Gwersylla Amgen Parhaol - Mae'r rhain yn unedau, yn sgil pa mor barhaol ydyn nhw, eu hymlyniad ffisegol i'r ddaear ac yn sgil natur eu dyluniad, na ellir eu tynnu'n gyfan oddi ar y safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

### 5.2 Datblygiadau ar wahân

5.2.1 Ni ystyrir bod ceisiadau am garafanau neu siale sengl ar wahân a leolir mewn cae neu o fewn cwrtill annedd breswyl heb unrhyw gyfleusterau cysylltiedig yn ddatblygiad o ansawdd uchel ac felly nid ydynt yn alinio â Pholisi TWR 3. Nid yw'r mathau hyn o ddatblygiadau yn cyfoethogi math ac ansawdd y cynnig twristiaeth yn ardal y cynllun ac fe all effeithiau cronrus y fath ddatblygiadau gael effaith negyddol ar y dirwedd.

### 5.3 Dwysâd arwyddocaol

5.3.1 Mae Polisi TWR 3 yn nodi mai'r unig adeg y caniateir cynigion am ddatblygiadau carafanau sefydlog neu sialé y tu allan i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) yw pan fo'r cynnig yn cydymffurfio â'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn y polisi. Noda'r maen prawf cyntaf fel a ganlyn:-

*"i) gellir profi nad yw'n arwain at ormodedd o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd sialé neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol."*

5.3.2 Er mwyn diffinio 'gormodedd' o fewn cylch gwaith Polisi TWR 3, mae'r eglurhad i'r Polisi yn cyfeirio at 'Astudiaeth Capasiti a Sensitifrydd y Dirwedd yn Ynys Môn, Gwynedd

a Pharc Cenedlaethol Eryri' (Gillespies, 2014) <sup>8</sup>. O fewn yr astudiaeth mae pob 'Ardal Cymeriad y Dirwedd' (fel y'i diffinnir gan Strategaeth Tirwedd Ynys Môn<sup>9</sup> a Strategaeth Tirwedd Gwynedd<sup>10</sup>) yn cael ei hasesu i bennu capasiti cyffredinol y dirwedd ar gyfer datblygiadau parciau carafán a sialé pellach. Wrth ystyried ceisiadau am ddatblygiadau newydd, dylid felly gyfeirio at gapasiti'r dirwedd leol fel y'i nodir yn yr Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd.

5.3.3 Mae'r tablau yn Atodiad 3 yn nodi'r teipoleg amrywiol ar gyfer datblygiadau parciau carafán a sialé ynghyd â chpasiti a sensitifrwydd cyffredinol ar gyfer pob Ardal Cymeriad y Dirwedd. Mae'r mapiau yn Atodiad 3 yn dangos pob Ardal Cymeriad y Dirwedd a'u capasiti ar gyfer datblygiadau carafanau sefydlog a sialé.

## 5.4 Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol

5.4.1 Mae Cynlluniau Rheoli'r Draethlin (CRhT) yn cael eu datblygu gan Grwpiau Arfordirol gydag aelodau o gynghorau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd (bellach yn rhan o Gyfoeth Naturiol Cymru). Maent yn adnabod y dull mwyaf cynaliadwy o reoli'r risgiau llifogydd ac erydiad arfordirol i'r morlin yn y:

- tymor byr (hyd at 2025)
- tymor canolig (2026 hyd 2055)
- hirdymor (2056 hyd 2105)

Mae CRhT2 Gorllewin Cymru<sup>11</sup> yn ymdrin ag ardal y cynllun ac yn darparu asesiad graddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosesau arfordirol yn ystod y cyfnodau uchod a dyma'r brif ffynhonnell o dystiolaeth i ddiffinio ardaloedd rheoli newid arfordirol. Mae'n gosod amrediad o bolisiau ar gyfer y morlin sy'n

- Dal y llinell
- Dim Ymyrryd Gweithredol
- Ad-drefnu wedi ei Reoli

5.4.2 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gynorthwyo i leihau'r risg o lifogydd ac effaith erydu arfordirol trwy osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd bregus. Diffinnir Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARNA) pan fo'r polisi cynllun rheoli traethlin a dderbynnir yn un ar gyfer 'dim ymyrryd gweithredol' neu 'ad-drefnu wedi'i reoli' yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae Atodiad 5 yn darparu atodlen o ardaloedd arfordirol a ddiffinnir fel yr ARNA. Yr ardaloedd arfordirol sydd wedi'u cynnwys yn yr ARNA yw'r rhai pan fo CRhT 2 yn nodi dull polisi 'dim ymyrryd gweithredol' neu 'ad-drefnu wedi ei reoli' naill ai hyd at 2015 neu rhwng cyfnodau polisi 2026 a 2055 neu'r ddau gyfnod polisi.

5.4.3 Nid yw Polisi TWR 3 yn caniatáu ar gyfer unedau newydd yn yr AHNEau a'r ATAAu. Fodd bynnag, noda maen prawf 2 y polisi, mewn amgylchiadau eithriadol, bod cynigion

<sup>8</sup> [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-\(DC.020\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Landscape-Sensitivity-and-Capacity-Assessment-(DC.020).pdf)

<sup>9</sup> [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Angesey-Landscape-Strategy---Update-2011-\(DC.011\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Angesey-Landscape-Strategy---Update-2011-(DC.011).pdf) a [Strategaeth Tirwedd Gwynedd](#)

<sup>10</sup> [https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Gwynedd-Landscape-Strategy-Update-2012-\(DC.010\).pdf](https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Supporting-documents/Gwynedd-Landscape-Strategy-Update-2012-(DC.010).pdf)

<sup>11</sup> [http://www.westofwalessmp.org/content.asp?nav=23&parent\\_directory\\_id=10](http://www.westofwalessmp.org/content.asp?nav=23&parent_directory_id=10)

sy'n ymwneud ag ail-leoli safleoedd presennol sydd wedi'u lleoli yn barod yn yr AHNE neu'r ATA a'r ARhNA i safle arall y tu allan i'r ARhNA ar yr amod bod y safle newydd:

- i. o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu'r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; ac
- ii. wedi'i leoli'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roddi i safleoedd tir llwyd.

## 5.5 Defnyddio carafanau sefydlog a siales er dibenion preswyl

5.5.1 Yn gyffredinol ystyrir bod carafanau a mathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol yn annerbyniol fel cartrefi parhaol. Fodd bynnag, mae'n bosib fod ganddynt rôl i'w chwarae wrth ddarparu llety tymor byr pan fo angen wedi'i brofi. Mae Polisi TAI 14: Defnydd Preswyl o Garafanau, Cartrefi Symudol a mathau eraill o Lety Nad Ydynt yn Barhaol yn darparu'r fframwaith polisi lleol i ymdrin â senarios o'r fath (gweler Atodiad 1).

5.5.2 Mae un o'r senarios posib yn cynnwys gwneud defnydd o garafanau a ffurfiau eraill o lety nad ydynt yn barhaol fel llety dros dro sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiect adeiladu sydd wedi'i gymeradwyo.

5.5.3 Mae angen ystyried y materion a ganlyn wrth asesu cynnig i ddefnyddio carafanau, cartrefi symudol neu ffurfiau eraill o lety nad ydynt yn barhaol fel llety preswyl dros dro:

### 1. Angen

- i. Mae angen y gellir ei ddangos am lety preswyl dros dro am gyfnod cyfyngedig o amser ac mae'r defnydd arfaethedig o garafanau, cartrefi symudol a ffurfiau eraill o lety nad ydynt yn barhaol yn ffurfio rhan o strategaeth letya gweithiwr adeiladu gadarn;

### 2. Lleoliad a hygyrchedd

- i. Nid yw'r safle arfaethedig wedi'i leoli o fewn AHNE neu Ardal Tirwedd Arbennig
- ii. Y tu allan i AHNE neu Ardal Tirwedd Arbennig, nid yw'r cynnig yn arwain at ormodedd sylweddol yn y ddarpariaeth o safleoedd carafanau sefydlog, sialé neu wersylla amgen parhaol yn yr ardal leol.
- iii. Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli o fewn pellter teithio a gytunwyd arno o'r prosiect adeiladu a gymeradwywyd ac a nodir yn y strategaeth lletya gweithiwr adeiladu.
- iv. Mae perthynas dda rhwng y safleoedd arfaethedig a'r aneddiadau presennol er mwyn hwyluso mynediad at wasanaethau a chyfleusterau megis iechyd a manwerthu.
- v. Mae'r safle arfaethedig wedi'i leoli'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac yn agos at ymgyfnewidfydd cludiant cyhoeddus, llwybrau bysiau ac unrhyw barciau parcio a theithio / manau codi er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat.
- vi. Gellir darparu mynediad digonol heb wneud niwed sylweddol i nodweddion y dirwedd

### 3. Math ac addasrwydd y llety a'r safle

- i. Rhaid i'r uned fod yn addas i'w meddiannu drwy gydol y flwyddyn o ran, er enghraifft, digon o wres, awyriad ac aerdymheru.
- ii. Rhaid pennu bod y safle yn addas i'w feddiannu drwy gydol y flwyddyn yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan allai tywydd garw achosi problemau.

- iii. Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac ymddangosiad ac mae wedi'i leoli mewn lleoliad anymwthiol, sydd wedi'i sgrinio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd

5.5.4 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw'r defnydd o safleoedd carafanau teithiol, gwersylla neu wersylla amgen dros dro er defnydd preswyl dros dro yn cael ei hyrwyddo gan Bolisi TWR 5 gan nad ydyw safleoedd llety carafanau teithiol, pebyll a llety gwersylla amgen dros dro sy'n darparu lleiniau ar gyfer carafanau, ac ati, sy'n 'teithio', ar agor drwy gydol y flwyddyn ac ni phennir eu bod yn addas i'w meddiannu yn ystod misoedd y gaeaf.

DRAFFT TERFYNOL

## 6.0 Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro

Mae Polisi TWR 5: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen Dros Dro (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu safleoedd newydd neu estyniadau i rai presennol. Mae'r prif ystyriaethau polisi fel a ganlyn:

- Math o Unedau
- Ystyriaethau Tirwedd
- Ystyriaethau Priffyrdd
- Cyfnodau Gweithredu
- Cyfleusterau Ategol
- Gor-ddefnydd o leiniau caled a nodweddion gwneud

### 6.1 Math o Unedau

- 6.1.1 Mae math o unedau sydd wedi'u cynnwys dan y polisi hwn yn cynnwys carafanau, cartrefi symudol, faniau gwersylla, pebyll a llety gwersylla amgen dros dro megis pebyll cloch a thipis. Fel arfer, mae gan yr unedau llety gwyliau sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn ofynion seilwaith ar ffurf blociau mwynderol gan nad yw sawl ffurf o'r unedau hyn yn cynnwys cyfleusterau megis toiledau, cawodydd a cheginau.
- 6.1.2 Mae unedau gwersylla amgen dros dro yn cael llai o effaith ar y dirwedd na'r llety gwersylla amgen parhaol (gweler paragraffau 5.1.1) ac fe ellir eu tynnu i lawr pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos sut fydd yr uned yn cael ei dynnu pam ddim mewn defnydd.

### 6.2 Ystyriaethau tirwedd

- 6.2.1 Er nad ydynt, yn aml, yn cael eu defnyddio am fwy na rhan o'r flwyddyn, mae'r safleoedd carafanau teithiol a gwersylla yn aml wedi'u lleoli mewn lleoliadau amlwg ac agored ac fe allant fod yn ymwithiol iawn mewn cefn gwlad agored, yn enwedig ar yr arfordir. Ceir ardaloedd sydd dan bwysau aruthrol mewn nifer o gymunedau sydd wedi'u lleoli ger yr arfordir, gan gynnwys rhannau helaeth o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. **Bydd angen rhoddi ystyriaeth briodol i effaith gronol y bwriad. Fel rhan o'r ystyriaeth yn gysylltiedig a'r effaith gronol** Bydd y Cyngor angen tystiolaeth i ddangos na fydd cynigion am fwy o unedau llety mewn ardaloedd o'r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu, ardrawiad traffig annerbyniol na niwed annerbyniol i gymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn, ar ôl mesurau lliniaru.
- 6.2.2 Dywed canllaw polisi Cynllunio cenedlaethol na'r prif amcan wrth ddynodi ANHE yw gwarchod a gwella ei harddwch naturiol. Dylai polisiâu cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio ar ANHE ffafrio diogelu harddwch naturiol, er mai priodol hefyd fydd ystyried lles economaidd a chymdeithasol yr ardaloedd. Mae gan awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill ac awdurdodau perthnasol eraill ddyletswydd statudol i barchu dibenion AHNE (PCC 5.3.5).
- 6.2.3 Mae gan y ddau AHNE cynlluniau rheoli sy'n nodi nodweddion a rhinweddau arbennig y dirwedd y dynodiad a sut bydd yn cael ei warchod a'i gwella. Bydd rhaid i bob datblygiad i mewn i'r AHNE (a'r ardaloedd sy'n cyfrannu at eu lleoliad) roddi ystyriaeth i'r rhinweddau arbennig yma (Polisi PS 19 a Pholisi AMG 1). Bydd ceisiadau sy'n cael effaith sylweddol ar y rhinweddau arbennig yn cael eu gwrthod (Polisi PS 19).



6.2.4 Mae graddfa'r datblygiad, lleoliad gwaith tirlunio, gosodiad y safle a sgrinio felly'n ystyriaethau pwysig wrth asesu cynigion am fathau amgen o lety gwersylla. Ym mhob achos, bydd yn rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cynllun tirlunio (Polisi PCYFF 4 – gweler adran 3.2). Gall ystyriaethau dylunio safle cynnwys:

- Osgoi defnyddio gosodiadau dwys â rhesi sydd wedi'u trefnu'n llym
- Dilyn patrwm y tirffurf, patrymau caeau, lleoliadau coed a nodweddion naturiol/diwydiannol eraill y safle ar gyfer integreiddio'r datblygiad yn gynaliadwy
- Defnyddio lliwiau naturiol er mwyn sicrhau integreiddio gweledol gwell o fewn y dirwedd
- Lleihewch effaith goleuadau nos. Defnyddiwch lampau gorchuddiedig er mwyn osgoi goleuo amlwg

### 6.3 Ystyriaethau priffyrdd

6.3.1 Mae'n bwysig bod safleoedd newydd wedi'u lleoli mor agos â phosib at y prif rwydwaith ffyrdd (h.y. ffyrdd dosbarth 'A' a 'B'). Yn gyffredinol, mae ffyrdd gwledig di-ddosbarth yn lonydd trac seagl ac maent yn cael eu hystyried yn anaddas ar gyfer llif traffig trwm. Ni chefnogir unrhyw gynnig pan fo'r Awdurdod o'r farn nad ydyw wedi'i leoli yn agos at y prif rwydwaith ffyrdd. Yn ogystal, mae'r ffyrdd hyn yn gyffredinol wedi'u ffinio â nodweddion naturiol/gwneud (e.e. waliau cerrig, cloddiau, gwrychoedd), sy'n bwysig i gymeriad gweledol ardaloedd gwledig. Er mwyn darparu mynediad addas o safleoedd newydd i'r ffyrdd hyn, efallai y bydd angen gwaredu nodweddion tirwedd bwysig. Mae pwysigrwydd nodweddion o'r fath yn cael eu nodi yn yr astudiaeth LANDMAP a bydd yr Awdurdod yn cael ei arwain gan ganfyddiadau'r astudiaeth hon. Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos sut maent wedi ystyried y wybodaeth a ddarparwyd gan yr astudiaeth LANDMAP (gweler paragraff 6.2.1).

### 6.4 Cyfnodau Gweithredu

6.4.1 Gellir caniatáu safleoedd teithiol, gwersylla a dros dro mewn ardaloedd ble na ellir cael safleoedd carafanau sefydlog, sialé a gwersylla amgen parhaol, h.y. AHNE ac ATA, oherwydd fe ellir eu hystyried yn dderbyniol mewn termau cynllunio defnydd tir fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y dirwedd na safleoedd sefydlog oherwydd, yn sgil eu natur, mae iddynt nodweddion diflanedig nad ydynt yn arwain at effeithiau parhaol, drwy gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Nid yw Polisi TWR 5 yn hyrwyddo datblygiad o 'safleoedd teithiol sefydlog' ble mae'r uned yn cael ei gadael yn parhaol ar y safle drwy gydol y tymor gwyliau ac yn cael ei defnyddio yn achlysurol gan ei berchennog ac ymwelwyr eraill. Drwy ganiatáu i'r unedau aros ar y safle bob blwyddyn fe fydd yn cael yr un effaith, o ran cynllunio defnydd tir a'r effaith weledol, â safle carafanau sefydlog neu sialé newydd. Mae maen prawf 7 o bolisi TWR 4 yn nodi'n glir bod y safle yn cael ei ddefnyddio er dibenion teithio yn unig a bod unrhyw unedau'n cael eu tynnu o'r safle yn ystod cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd teithio newydd, gosodir amod cynllunio ar y caniatâd yn cyfyngu defnydd y safle i ddefnydd teithio yn unig.

6.4.2 Noda paragraff 6.3.87 gan fod cefn gwlad yn edrych mor wahanol yn ystod misoedd y gaeaf, y gosodir amod ar unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer yr holl safleoedd newydd a ganiateir, yn cyfyngu cyfnod gweithredu'r safle i rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref yn yr un flwyddyn.

### 6.5 Cyfleusterau ategol

- 6.5.1 Yn aml, mae angen blociau mwynderol (cawodydd, toiledau, golchdy ac ardaloedd cegin) i ategu safleoedd carafanau teithiol, gweryslla a gweryslla amgen dros dro gan nad yw'r cyfleusterau hyn fel arfer wedi'u hymgorffori yn y llety ei hun. Mewn amgylchiadau o'r fath, yr hyn a ffafrir gyntaf ar gyfer y cyfleusterau hyn fyddai trosi adeiladau presennol addas (fel y nodwyd ym maen prawf polisi TWR 5). Os nad oes adeiladau addas ar gael, rhaid dangos yn glir yr angen am gyfleusterau ychwanegol, a rhaid iddynt fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad, wedi'i leoli mor agos â phosib at adeiladau cyfredol, sydd wedi'u sgrinio'n dda ac yn amodol ar ystyriaethau polisi perthnasol eraill, gan gynnwys yr effaith ar y dirwedd. Dylid rhoi ystyriaeth ofalus i raddfa a dyluniad cyfleusterau mwynderol fel eu bod yn gymesur a graddfa'r safle a ganiateir ac i sicrhau bod unrhyw effeithiau niweidiol ar y dirwedd ac ar yr amgylchedd yn cael eu lleihau.
- 6.5.2 Dylai cyfleusterau ategol fod yn gyfleusterau a rennir a ddim yn gyfleusterau unigol ar gyfer pob safle er mwyn lleihau'r effaith ar y dirwedd.

## **6.6 Gor-ddefnydd o leiniau caled a nodweddion gwneud**

- 6.6.1 Er mwyn sicrhau y ceir yr effaith weledol leiaf ar y dirwedd, yn enwedig yn ystod y tymor pan maent ar gau pan nad oes unrhyw unedau ar y safle, dylai'r datblygiad arfaethedig osgoi gor-ddefnyddio lleiniau caled a nodweddion gwneud. Ble bo modd, dylid cymryd mesurau i adfer y safle hwn i'w gyflwr gwreiddiol pan nad ydyw'n cael ei ddefnyddio / yn ystod y tymor pan fo safleoedd ar gau.
- 6.6.2 Ni ystyrir y defnydd o leiniau caled ar gyfer pob uned deithiol yn briodol wrth iddynt ddod yn nodwedd barhaol ar y dirwedd. Mae safleoedd sydd angen gormodedd o leiniau caled oherwydd amgylchiadau lleol yn cael eu hystyried yn anaddas.
- 6.6.2 Mae'r CDLI ar y Cyd a'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol yn hyrwyddo'r defnydd o Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SUDS) (polisi PS5 CYFF 6: Cadwraeth Dŵr). Noda polisi PCYFF 4 y dylid defnyddio arwynebau athraidd.

## 7.0 Amodau Deiliadaeth

- 7.1 Mae ystadegau'n dangos bod natur gwyliau yn ardal y Cynllun wedi dod yn fwy amrywiol o ran eu lleoliad, eu tymor a'u hyd mewn blynyddoedd diweddar. Mae mwy o bobl yn dewis seibiannau byr y tu allan i fisoedd traddodiadol yr haf. Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol a lleol yn cydnabod pwysigrwydd cael economi twristiaeth gynaliadwy drwy gydol y flwyddyn.
- 7.2 Mae ymestyn y tymor yn arwain at sawl mantais o ran hyrwyddo'r economi twristiaeth a lleihau anfanteision staff tymhorol, gall y galw am lety gwyliau ddigwydd mewn ardaloedd ble byddai'r ddarpariaeth o dai parhaol yn groes i ganllawiau cynllunio cenedlaethol. Ym mhob achos, ni fydd defnyddio llety gwyliau o'r fath ar gyfer deiliadaeth barhaol, yn dderbyniol. Rhaid i lety gwyliau o bob math barhau ar gyfer y diben twristiaeth a fwriadwyd fel bo'r manteision economaidd ehangach yn cael eu diogelu. Defnyddir amodau cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 7.3 Mae Polisi TWR 4 yn caniatáu cynigion i ymestyn y tymor gwyliau ar yr amod:
- Y gellir dangos bod y llety yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad yw'n dod yn brif neu'n unig gartref y deilydd;
  - Bod y llety a'r safle yn addas i'w meddiannu yn ystod misoedd y gaeaf;
  - Na fyddai'r tymor estynedig yn cynyddu canlyniadau llifogydd eithriadol;
  - Na fyddai'r tymor estynedig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol.
- 7.4 Er mwyn sicrhau bod y llety gwyliau yn cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl i'r diben a fwriadwyd, rhaid i'r perchnogion gadw cofrestr gyfredol o enwau'r holl berchnogion/meddianwyr o'r unedau a'u prif gyfeiriad cartref a bod ar gael ar bob adeg resymol i'r awdurdod cynllunio lleol.
- 7.5 Gosodir amod deiliadaeth dymhorol ar yr holl gynigion nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi TWR4. Gosodir amodau deiliadaeth dymhorol ar gyfer yr holl safleoedd carafanau teithiol, gweryslla a glampio dros dro.

## 8.0 Atyniadau a Chyfleusterau i Ymwelwyr

Mae Polisi TWR 1: Atyniadau a Chyfleusterau Twristiaeth (gweler Atodiad 1) yn darparu'r prif fframwaith polisi ar gyfer darparu atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr newydd neu estyniadau iddynt.

### 8.1 Lleoliad y Datblygiad

8.1.1 Mae'r polisi hwn yn anelu at annog datblygu atyniadau a chyfleusterau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd uchel yn y llefydd iawn. Dylid lleoli atyniadau a chyfleusterau newydd, ble bo modd, oddi mewn i ffiniau datblygu lle gall ymwelwyr gael mynediad ar ystod o wasanaethau trwy amrywiaeth o ddulliau teithio.

8.1.2 Mae'r polisi'n nodi ble nad oes cyfleoedd ar gael ar gyfer datblygu o fewn y ffin ddatblygu y byddai'r Awdurdod yn ystyried lleoliadau eraill fel a ganlyn:

- i. Ailddefnyddio adeilad addas presennol - y tu allan i ffiniau datblygu, dylai cynigion yn gyntaf edrych ar aildefnyddio adeiladau presennol. Gweler mwy o wybodaeth ynghylch trosi adeiladau presennol yn adran 5.2.
- ii. Tir addas a ddatblygwyd o'r blaen - gweler adran 5.3
- iii. Safle sydd â pherthynas agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaid presennol - gellir caniatáu datblygiadau i adeiladu o'r newydd mewn rhannau penodol o gefn gwlad agored os gellir dangos nad oes safleoedd dilyniannol a ffafir o fewn ffiniau datblygu neu nad oes adeilad presennol addas i'w aildefnyddio. Ar safleoedd y tu allan i aneddiadau presennol, ni fydd y Cynghorau ond yn cymeradwyo datblygiadau twristiaeth mewn amgylchiadau eithriadol pan fo'r ymgeisydd wedi medru dangos anghenion lleoliadol penodol a manteision economaidd fyddai'n cyfiawnhau cymeradwyo'r cynnig.
- iv. Gweithgaredd sydd wedi'i chyfyngu i leoliad penodol yn sgil ei defnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol presennol neu ei agosrwydd at yr atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef - mae'r Cynllun yn cydnabod y bydd gan rai atyniadau a chyfleusterau i dwristiaid anghenion lleoliadol penodol megis llyn neu goetir. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i asesu ei agosrwydd at yr atyniad mae'n ymwneud ag ef yn cynnwys graddfa'r gwahaniad a'r pellter ffisegol o'r atyniad. Bydd effaith weledol a dirweddol y datblygiad arfaethedig a'r gallu i integreiddio'r datblygiad yn y dirwedd a'r drefwedd hefyd yn ystyriaethau pwysig wrth asesu addasrwydd y datblygiad arfaethedig.

## 9.0 Gwybodaeth Bellach a Chysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

✉ Llawr Cyntaf,  
Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor,  
Ffordd Gwynedd,  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 1DT

☎ 01286 685003

✉ [polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru)

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd.aspx>

Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd,

✉ Swyddfeydd y Cyngor  
Ffordd y Cob  
Pwllheli  
Gwynedd  
LL53 5AA

☎ 01766 771000

✉ [cynllunio@gwynedd.llyw.cymru](mailto:cynllunio@gwynedd.llyw.cymru)

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Cynllunio-a-rheolaeth-adeiladu/Cynllunio/Cynllunio.aspx>

Gwasanaeth Cynllunio Ynys Môn

✉ Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

☎ 01286 752428

✉ [planning@anglesey.gov.uk](mailto:planning@anglesey.gov.uk)

<http://www.ynysmon.gov.uk/cynllunio-a-gwastraff/rheoli-cynllunio?redirect=false>

## Atodiad 1 – Polisiâu CDLI ar y Cyd Perthnasol<sup>12</sup>

### POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A DIWYLLIANT

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni trwy:

1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:
  - a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu
  - b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronol yn darparu mwy na'r ddarpariaeth tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 1 - TAI 6; neu
  - c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill.
2. Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pan fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu;
3. Wrthod cynigion a fyddai'n achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol;
4. Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes;
5. Gosod disgwyliad y bydd enwau Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd.

### POLISI STRATEGOL PS 5: DATBLYGU CYNALIADWY

Cefnogir datblygiadau ble gellid dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Dylai bob cynnig:

1. Lliniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel yn unol â Pholisi Strategol PS 6;
2. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen, lle bynnag bo hynny'n bosib, oddi mewn i ffiniau datblygu'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt yn unol â Pholisi Strategol PS 17, PS 13 a PS 14;
3. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau

- diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol a dewis o ddulliau teithio;
4. Gwarchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS 1;
  5. Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt yn unol â Pholisi Strategol PS 20;
  6. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS 19;
  7. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd;
  8. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy a dilyn amcanion Cynllun Rheoli Bas Afonydd Gorllewin Cymru.

Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:

9. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai yn unol â Pholisi Strategol PS 16;
10. Hyrwyddo economi leol amrywiol ac ymatebol, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig yn unol â Pholisi Strategol PS 13;
11. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS 13;
12. Lleihau'r angen i deithio gyda thrafnidiaeth breifat ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS 4;
13. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, mannau hygyrch sy'n medru ymateb i ofynion y dyfodol ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd yn unol â Pholisi Manwl PCYFF 3.

## **POLISI PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU**

Rhaid i gynnig ddangos ei fod yn cydymffurfio gyda:

1. Holl bolisiâu perthnasol yn y Cynllun;
2. Pholisiâu a chanllawiau cynllunio cenedlaethol;

Dylai cynigion:

3. Wneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is);
4. Ymgorffori gofod mwynderol ar gyfer ei feddianwyr presennol ac yn y dyfodol;

5. Gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu a chyfnod meddiannaeth;
6. Gynnwys, lle mae hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer trin a chael gwared â rhywogaethau ymwithiol yn effeithiol;

Yn ychwanegol, gwrthodir cynigion os fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar:

7. Iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch;
8. Dir sydd wedi cael ei ddynodi ar gyfer datblygiadau eraill.

### **POLISI PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE**

Bydd disgwyl i bob cynnig arddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n rhoi ystyriaeth lawn i gyd-destun

yr amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig ac sy'n cyfrannu at greu llefydd deniadol a chynaliadwy. Rhoddir cefnogaeth arbennig i ddyluniad arloesol sydd yn arddangos effeithlonrwydd ynni.

Caniateir cynigion, gan gynnwys estyniadau a newidiadau i adeiladau a strwythurau presennol dim ond os ellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol os ydynt yn berthnasol:

1. Eu bod yn ychwanegu at ac yn gwella cymeriad ac ymddangosiad y safle, yr adeilad neu'r ardal o ran y gosodiad, yr ymddangosiad, y raddfa, yr uchder, y màs a'r driniaeth i'r drychiadau;
2. Eu bod yn parchu cyd-destun y safle a'i le yn y dirwedd leol, gan gynnwys ei effaith ar brif fynedfeydd Gwynedd neu Ynys Môn, ei effaith ar y strydwedd a'r dreftadaeth hanesyddol a diwylliannol leol a'i fod yn ystyried topograffi'r safle yn ogystal â phrif nenlenni neu gefnau;
3. Eu bod yn defnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r hyn sydd o'u hamgylch ac yn ymgorffori tirlunio meddal a chaled a sgrinio pan fo hynny'n briodol, yn unol â Pholisi PCYFF 4;
4. Eu bod yn cyflawni ac yn creu lleoedd diogel a lleoedd cyhoeddus sy'n ddeniadol ac yn ystyried egwyddorion 'Diogelu trwy Ddylunio' (gan gynnwys, pan fo hynny'n briodol, goruchwyliaeth naturiol, gweledd, amgylcheddau wedi'u goleuo'n dda ac ardaloedd o symudiadau cyhoeddus);
5. Eu bod yn chwarae rôl lawn wrth gyflawni a gwella rhwydwaith cludiant a chyfathrebu diogel ac integredig gan hyrwyddo buddion cerddwyr, beicwyr a chludiant cyhoeddus a sicrhau cysylltiadau gyda'r gymuned sy'n bodoli o'i amgylch;
6. Bod eu systemau draenio wedi'u dylunio i gyfyngu rhediad dŵr wyneb a pherygl risg llifogydd ac atal llygredd;
7. Bod gosodiad a dyluniad y datblygiad yn cyflawni dyluniad cynhwysol drwy sicrhau amgylcheddau lle nad oes rhwystrau; sy'n galluogi mynediad i bawb ac sy'n cynnig darpariaeth lawn i bobl ag anableddau;
8. Eu bod yn cynnwys isadeiledd ar gyfer telegyfathrebu a gwybodaeth gyfoes, os yw hynny'n ymarferol;



9. Eu bod yn annog i wyneb datblygiadau ar lefel daear fod yn rhai bywiog os nad ydynt yn ddatblygiad preswyl;
10. Mae'n helpu creu amgylcheddau iach a bywiog, ac yn ystyried iechyd a lles defnyddwyr y dyfodol.

#### **POLISI PCYFF 4: DYLUNIO A THIRWEDDU**

Dylai pob cynnig integreiddio gyda'r hyn sydd o'i gwmpas. Gwrthodir cynigion na fyddant yn dangos (trwy ddefnyddio dulliau sy'n gyson â natur, lleoliad a graddfa'r datblygiad arfaethedig) sut roddwyd ystyriaeth i faterion tirweddu o'r cychwyn fel rhan o'r cynnig dylunio. Dylai'r cynllun tirlunio, lle'n berthnasol:

1. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig wedi rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd neu'r Asesiad Ardal Cymeriad Morlin;
2. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu cyfuchlinau naturiol y dirwedd;
3. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn parchu ac yn amddiffyn golygfeydd lleol a strategol;
4. Parchu, cadw ac ychwanegu at unrhyw nodweddion naturiol cadarnhaol sy'n bodoli, neu dirweddau neu unrhyw nodweddion eraill ar y safle;
5. Adnabod coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi i gael eu cadw;
6. Rhoi cyfiawnhad dros amgylchiadau lle nad oes modd osgoi tynnu / colli coed, gwrychoedd, cyrsiau dŵr a nodweddion topograffi gan gyflwyno manylion o'r hyn a roir yn eu lle;
7. Darparu manylion unrhyw dirwedd newydd arfaethedig yn ogystal â rhaglen o waith plannu graddol;
8. Dangos bod unrhyw blannu newydd arfaethedig yn cynnwys rhywogaethau planhigion a choed cynhenid lleol yn bennaf ac nad yw'n cynnwys unrhyw rywogaethau ymwithiol estron;
9. Sicrhau bod y detholiad o rywogaethau a lleoliad y plannu yn caniatáu i goed dyfu i'w huchder aeddfed heb beri niwed i adeiladau, gwasanaethau nac unrhyw blannu arall gerllaw; a
10. Darparu tirlunio ar wynebau hydraidd caled.

#### **POLISI ARNA 1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL**

Caiff Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) ei hadnabod yn Atodiad 6.

##### Datblygiad Preswyl newydd

Gwrthodir cynigion am dai newydd, i ail-adeiladu tai, isrannu adeiladau presennol i ddefnydd preswyl neu drosi adeiladau presennol i ddefnydd preswyl yn yr ARhNA.

##### Adleoli tai parhaol presennol yng nghefn gwlad

Caniateir cynigion i adleoli tai parhaol sy'n bodoli yng nghefn gwlad ac sydd wedi'u lleoli yn yr ARhNA a ragwelir y byddant yn cael eu heffeithio gan erydu arfordirol a/ neu risg llifogydd os ellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:

1. Mae'r datblygiad yn golygu ail-adeiladu tŷ parhaol sy'n cael ei effeithio gan erydiad neu sydd dan fygythiad o erydiad a/ neu risg llifogydd o fewn 20 mlynedd o ddyddiad y cynnig; a
2. Mae'r tŷ sy'n cael ei adleoli wedi ei leoli pellter priodol i mewn i'r tir o ran yr ARhNA a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin, a lle byddo'n bosib mae mewn lleoliad sydd:
  - i. yn achos tŷ amaethyddol, oddi mewn i ddaliad y fferm neu oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol; neu
  - ii. oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol yn agos at y lleoliad lle'r oedd yr adeilad gwreiddiol;
3. Caiff y safle presennol ei glirio a'i wneud yn ddiogel; a
4. Ni ddylai'r cynnig beri unrhyw effaith andwyol ar y dirwedd, y strydwedd neu'r fioamrywiaeth yn yr ardal.

#### Adeiladau Dibreswyl Newydd neu Bresennol

5. Ni fydd adeiladau parhaol dibreswyl nad ydynt yn gysylltiedig â defnydd neu adeilad presennol yn cael eu caniatáu mewn ardaloedd yn yr ARhNA sydd wedi cael eu hadnabod fel ardaloedd mewn perygl o newid arfordirol yn ystod y cyfnod polisi dangosol cyntaf hyd at 2025.
6. Bydd cynigion am y mathau canlynol o ddatblygiad dibreswyl newydd yn cael eu caniatáu ar safleoedd o fewn yr ARhNA a ragwelir a fydd mewn perygl o newid arfordirol o fewn yr ail gyfnod polisi dangosol (2026 – 2055), yn ddarostyngedig i Aseiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN15 neu Aseiad Sefydlogrwydd:
  - i. datblygiad sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e. cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, llety gwyliau ar osod am gyfnodau byr, safleoedd gwerysyla, safleoedd carafanau teithiol, gweithgareddau hamdden), ac
  - ii. yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned; a
  - iii. lle ellir dangos na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo; ac
  - iv. yn destun caniatâd cynllunio sydd naill ai'n cynnwys cyfyngiad amser, a / neu'n cyfyngu'r tymor, fel sy'n briodol.
7. Caniateir ailddatblygu neu estyniadau i eiddo dibreswyl presennol neu ddwysáu defnyddiau tir dibreswyl presennol yn yr ARhNA cyn belled ag y ceir Aseiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN 15 neu Aseiad Sefydlogrwydd sy'n dangos na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo ac yn amodol ar ganiatâd cynllunio sydd â chyfyngiad amser (pan fo hynny'n briodol) a bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda TAN 15 yn ystod cyfnod ei ganiatâd.

#### Estyniadau i Dai Presennol, Cyfleusterau neu Wasanaethau neu Isadeiledd Cymunedol

Caniateir y mathau canlynol o ddatblygiad yn yr ARhNA, cyn belled ag y ceir Aseiad Canlyniadau

Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN 15 neu Aseiad Sefydlogrwydd:

8. Estyniadau preswyl cyfyngedig sy'n agos iawn at raddfa'r eiddo presennol ac felly nad ydynt yn peri cynnydd posib yn nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo;

9. Datblygiad atodol tu mewn i gwrtil tai presennol y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer;
10. Isadeiledd allweddol i'r gymuned, y mae'n rhaid ei leoli yn yr ARhNA i ddarparu'r budd a fwriedir i'r gymuned ehangach ac mae yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu;
11. Isadeiledd hanfodol e.e. ffyrdd, cyn belled â bod yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno, ac na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfraddau newid arfordirol mewn llefydd eraill.

### Cynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu i amnewid rhai blaenorol

Caniateir cynigion am gynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu gynlluniau sy'n amnewid hen ddarpariaeth, dim ond os ellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y wyneb blaen a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac na fydd yna effaith andwyol faterol ar yr amgylchedd.

### Rheoli Datblygiad

Bydd amodau cynllunio'n cael eu gosod neu caiff rhwymedigaeth gynllunio ei sicrhau pan fydd angen i: gyfyngu oes datblygiad neu ei gyfyngu i ddefnydd tymhorol; tynnu datblygiad sydd â chyfyngiad amser neu dai presennol pan ddaw eu defnydd i ben; adolygu caniatâd cynllunio perthnasol; rheoli meddiannaeth tŷ sy'n cael ei adleoli.

### **POLISI TWR 1: ATYNIADAU A CHYFLEUSTERAU YMWELWYR**

Cefnogir cynigion i ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu i wella ac ehangu safon y cyfleusterau presennol cyn belled â'u bod tu mewn i'r ffin ddatblygu.

Pan nad oes cyfleoedd addas ar gael tu mewn i'r ffin ddatblygu, dim ond cynigion sy'n cynnwys yr hyn a ganlyn fydd yn cael eu caniatáu:

1. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle addas a ddefnyddiwyd o'r blaen, neu
2. Ailddefnyddio adeilad(au) presennol neu safle sydd â chyswllt agos ag adeiladau presennol eraill sy'n ffurfio rhan o gyfleuster twristiaeth bresennol, neu
3. Datblygu gweithgaredd sy'n gyfyngedig i leoliad penodol oherwydd ei ddefnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol neu ei agosatrwydd i'r atyniad y mae'n gysylltiedig ag ef.

Bydd gofyn i'r holl gynigion gydymffurfio gyda'r holl feini prawf canlynol:

- i. Mae graddfa, math a chymeriad y datblygiad arfaethedig yn addas i'w osodiad trefol/gwledig;
- ii. Mae'r datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad;
- iii. Bydd y datblygiad arfaethedig yn cefnogi ac yn ehangu'r ystod o gyfleusterau yn ardal y Cynllun;
- iv. Mae'r bwriad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth i ddangos y byddai yna gyfleoedd cyflogaeth leol.

Lle y bo'n briodol, gellir cael mynediad at y datblygiad trwy amryw o ddulliau teithio, yn enwedig dulliau teithio cynaliadwy megis cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus.

## **POLISI TWR 2: LLETY GWYLIAU**

Bydd cynigion ar gyfer:

1. Datblygu llety gwyliau parhaol newydd â gwasanaeth, neu rai hunanwasanaeth, neu
2. Trosi adeiladau presennol i lety o'r fath, neu
3. Ymestyn sefydliadau llety gwyliau sy'n bodoli,

yn cael eu caniatáu cyn belled â'u bod o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, ac os gellir cwrdd gyda'r meini prawf canlynol i gyd:

- i. Yn achos llety sy'n adeilad newydd, bod y datblygiad wedi ei leoli tu mewn i ffin ddatblygu, neu'n gwneud defnydd o safle addas a ddatblygwyd o'r blaen;
- ii. Bod graddfa'r datblygiad arfaethedig yn briodol gan ystyried y safle, y lleoliad a/neu'r anheddiad dan sylw;
- iii. Na fydd y bwriad yn arwain at golled yn y stoc tai parhaol;
- iv. Nad yw'r datblygiad yn cael ei leoli mewn ardal sy'n ardal breswyl yn bennaf, neu'n peri niwed sylweddol i gymeriad preswyl ardal;
- v. Nad yw'r datblygiad yn arwain at ormodded o lety o'r fath yn yr ardal.

## **POLISI TWR 3: SAFLEOEDD CARAFANAU SEFYDLOG A SIALÉ A LLETY GWERSYLLA AMGEN PARHAOL**

2. Gwrthodir cynigion i ddatblygu safleoedd carafanau sefydlog newydd<sup>13</sup> (h.y. carafán sengl neu ddwbl), safleoedd sialé<sup>14</sup> gwyliau newydd neu lety gwersylla amgen parhaol yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn ac yn yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mewn lleoliadau eraill caniateir safleoedd carafanau sefydlog, sialé neu lety gwersylla amgen parhaol, dim ond:
  - i. Ble gellir profi nad yw'n arwain at ormodded o safleoedd carafanau sefydlog neu safleoedd sialé neu safleoedd llety gwersylla amgen parhaol yn yr ardal leol; a
  - ii. Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwithiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu'r unedau yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd; a
  - iii. Bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

<sup>13</sup> Fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Meysydd Carafanau a Rheoli Datblygiad 1960 (a addaswyd gan Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968).

<sup>14</sup> Er diben y Cynllun hwn, caiff chalet gwyliau ei ddiffinio fel unrhyw strwythur neu adeilad addas y bwriedir ei ddefnyddio fel llety gwyliau, nad yw'n cael ei ddiffinio gan y diffiniad statudol o garafán, hynny yw: pan nad yw'n bosib cludo'r strwythur i'r safle mewn un darn, a/neu

- bod y strwythur/adeilad cyn ei roi at ei gilydd yn cynnwys mwy na dau ran; a/neu
- bod y strwythur yn cael ei osod ar sylfaen sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol, a/neu
- nad oes modd symud y strwythur oddi ar y safle mewn un darn, unwaith y mae wedi'i roi at ei gilydd

2. Mewn amgylchiadau eithriadol caniateir cynigion a fyddai'n arwain at adleoli safle carafán statig neu siales presennol sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn neu Ardaloedd Tirwedd Arbennig sydd yn ffurfio rhan o'r Ardal Rheoli Newid yr Arfordir i safle arall ble fo bosib bodloni meini prawf 1. i - iii a phan fo'r safle newydd wedi cael ei leoli tu allan i'r Ardal Rheoli Newid yr Arfordir.
  
3. Oddi mewn i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd sefydlog a chalet sy'n bodoli eisoes trwy:
  - i. estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/neu
  - ii. ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg,  
  
yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio â'r meini prawf canlynol i gyd:
  - iii. Nid yw'r gwelliannau yn cynyddu nifer y carafanau sefydlog neu'r unedau chalet ar y safle, oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y cynigion yn golygu ail-leoli parciau presennol sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol;
  - iv. Bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle;
  - v. O ran safleoedd sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal Rheoli Newid yr Arfordir, fod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun ehangach i wella diogelwch preswylwyr y carafanau neu breswylwyr y siales;
  - vi. Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig gwelliannau sylweddol a pharhaol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch;
  - vii. Ei fod yn addas yng nghyd-destun polisiau eraill yn y Cynllun.
  
4. Tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd carafanau sefydlog a chalet sy'n bodoli eisoes trwy:
  - i. estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/neu
  - ii. ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg, a/neu,
  - iii. cynnydd bychan yn nifer yr unedau ar y safle,  
  
yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio â'r meini prawf canlynol i gyd:
  - iv. Bod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun i wella amrediad ac ansawdd llety a chyfleusterau ar gyfer ymwelwyr ar y safle;
  - v. Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnig gwelliannau sylweddol a pharhaol i ddyluniad, gosodiad ac edrychiad y safle a'i le yn y dirwedd o'i amgylch;
  - vi. O ran safleoedd sydd wedi eu lleoli o fewn Ardal Rheoli Newid yr Arfordir, fod y datblygiad arfaethedig yn rhan o gynllun ehangach i wella diogelwch preswylwyr y carafanau neu breswylwyr y siales;
  - vii. Bod unrhyw gynnydd yn nifer yr unedau carfanau gwyliau sefydlog neu chalets gwyliau yn fach ac yn gydnaws â graddfa unrhyw welliannau i'r safle;
  - viii. Ei fod yn addas yng nghyd-destun polisiau eraill yn y Cynllun.

#### **POLISI TWR 4: DEILIADAETH GWYLIU**

Caniateir cynigion am carafanau sefydlog a siales neu gynigion i ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafanau sefydlog a chalet presennol os gellir dangos bod y llety yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwyliau yn unig ac nad yw'n dod yn brif neu unig gartref y deilydd.

Mewn achosion sy'n ymwneud ag ymestyn y tymor gwyliau ar gyfer safleoedd carafanau sefydlog a chalet presennol, bydd angen sicrhau:

1. Bod y llety a'r safle yn addas i fyw ynddynt yn ystod y gaeaf;
2. Na fyddai'r tymor estynedig yn cynyddu canlyniadau llifogydd eithriadol;
3. Ni fydd ymestyn y tymor estynedig yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd lleol.

#### **POLISI TAI 14: DEFNYDD PRESWYL O GARAFANAU**

##### **Safleoedd carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol ar gyfer defnydd preswyl dros dro newydd**

Fel eithriad i Bolisi Strategol PS 17 a Pholisi TAI 16, caniateir cynigion am safle newydd sy'n ymwneud â lleoli carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol er mwyn eu defnyddio i ddibenion preswyl dros dro, os gellir cydymffurfio gyda'r holl feini prawf canlynol:

1. Mae'n cael ei leoli am gyfnod cyfyngedig o amser, ac mae ei angen i roi llety i weithwyr dros dro yn ystod adeiladu prosiect adeiladu penodol sydd wedi'i gymeradwyo; neu
2. Profwyd bod angen am garafán sengl neu ffurf arall o lety sydd ddim yn barhaol yn gysylltiedig gyda sefydlu mentr gwledig newydd, yn unol â pholisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol.

Yn achos senario 1 uchod:

- i. bydd lleoli carafanau preswyl dros dro neu fathau eraill o lety nad ydynt yn rhai parhaol yn destun yr un ystyriaethau lleoliadol fel a welir ym Mholisi TWR 3; a
- ii. caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio i'r isafswm a hybu'r defnydd o ddulliau cludiant cynaliadwy i'r safle prosiect adeiladu sydd wedi'i gymeradwyo neu i'r cyfleuster parcio a theithio gaiff ei ddarparu gan hyrwyddwr y prosiect adeiladu; a
- iii. gellir dangos bod y llety yn hwyluso cyflawni strategaeth llety gweithwyr adeiladu y prosiect adeiladu.

##### **Safleoedd carafanau presennol neu fathau eraill o lety gwyliau nad ydynt yn barhaol**

Caniateir cynigion sy'n ymuned â defnyddio carafanau gwyliau presennol neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol tu allan i'r cyfnod meddiannaeth arferol, neu ymestyn safleoedd presennol i'w defnyddio er dibenion preswyl dros dro, os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:

3. Profwyd bod angen am lety preswyl dros dro mewn cysylltiad â phrosiect adeiladu sydd wedi'i gymeradwyo; a

4. Caiff y safle ei leoli er mwyn lleihau'r angen i deithio i'r isafswm a hybu'r defnydd o ddulliau cludiant cynaliadwy i'r safle prosiect adeiladu sydd wedi ei gymeradwyo neu i'r cyfleuster parcio a theithio gaiff ei ddarparu gan hyrwyddwr y prosiect adeiladu; a
5. Gellir dangos bod llety'r gweithwyr adeiladu yn hwyluso gallu cyflawni strategaeth llety gweithwyr adeiladu y prosiect adeiladu.
6. Gellir dangos na fuasai'r bwriad yn cael effaith andwyol arwyddocaol ar y diwydiant twristiaeth;
7. Mae cynnig yn briodol wrth ei ystyried yn erbyn Polisi TWR 3.

### **Mecanweithiau i reoli'r datblygiad**

Pan roddir caniatâd cynllunio, caiff amod cynllunio ei osod arno, neu sicheir rhwymedigaeth, i sicrhau bod:

8. Meddiannaeth y carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol wedi'i gyfyngu i bobl sy'n gallu arddangos yr angen hanfodol am y llety; a
9. Fod y caniatâd am gyfnod penodol yn unig, ac ar ôl i'r cyfnod pan fydd yr angen am y llety wedi dod i ben, bod y carafanau neu fathau eraill o lety nad ydynt yn barhaol yn cael eu tynnu oddi ar y safle a bod y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol o fewn cyfnod penodedig, neu bod lleiniau wedi'u gwasanaethu yn cael eu cadw er defnydd yn y dyfodol sy'n cydymffurfio â pholisi.

Yn achos carafanau preswyl dros dro sy'n cael eu cymeradwyo yn unol â'r Polisi hwn, bydd ceisiadau i adnewyddu caniatâd dros dro yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf uchod

### **POLISI TWR 5: SAFLEOEDD CARAFANAU TEITHIOL, GWERSYLLA A LLETY GWERSYLLA AMGEN DROS DRO**

Caniateir cynigion am safleoedd carafanau teithiol, gweryslla neu lety weryslla amgen dros dro, estyniadau i safleoedd presennol neu leiniau ychwanegol os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:


1. Bod y datblygiad arfaethedig o ansawdd uchel o ran dyluniad, gosodiad ac edrychiad, a'i fod wedi'i leoli mewn lleoliad anymwithiol sydd wedi'i guddio'n dda gan nodweddion presennol y dirwedd, a/neu lle gellir cydweddu'r unedau teithiol yn hawdd yn y dirwedd mewn modd nad yw'n peri niwed sylweddol i ansawdd gweledol y dirwedd;
2. Yn osgoi gormodedd o ardaloedd o leiniau caled;
3. Mae ei gysylltiad ffisegol â'r ddaear yn gyfyngedig ac yn gallu cael ei symud oddi ar y safle yn y tymor caeedig;
4. Dylai unrhyw gyfleusterau atodol, os yw hynny'n bosib, gael eu lleoli mewn adeilad presennol neu fel estyniad i gyfleusterau presennol. Os nad oes adeiladau addas ar gael, rhaid dangos yn glir yr angen am gyfleusterau ychwanegol, a rhaid iddynt fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad.
5. Bod y safle'n agos at y prif rwydwaith ffyrdd ac y gellir darparu mynediad digonol heb amharu'n sylweddol ar nodweddion a chymeriad y dirwedd.

6. Mae meddiannaeth y datblygiad wedi'i gyfyngu i ddefnydd gwyliau yn unig.
7. Bod y safle'n cael ei ddefnyddio at ddibenion teithio'n unig a bod unrhyw unedau'n cael eu symud o'r safle yn y cyfnodau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

DRAFFT TERFYNOL



## Atodiad 2 - Enghraifft Ffeil Casglwyr LANDMAP (paragraff 3.6.2)

Visual and Sensory	
Aspect Area Name	Holyhead Mountain
Aspect Area Classification	Upland/Hills, Lower Plateau & Scarp Slopes/Hillside & Scarp Slopes Moorland (Level 3)
Aspect Area Code	YNSMNV001
Date Of Survey : 25/01/2007	
	
Description	
Physical Form And Elements: Topographic Form?	High Hills/Mountains
Physical Form And Elements: Landcover Pattern?	Open Land
Aesthetic Qualities: Scale?	Vast
Aesthetic Qualities: Sense of Enclosure?	Exposed
Aesthetic Qualities: Diversity?	Simple
Aesthetic Qualities: Texture?	Rock Exposure
Aesthetic Qualities: Lines?	Angular
Aesthetic Qualities: Colour?	Moderate Contrasts
Aesthetic Qualities: Balance?	Harmonious
Aesthetic Qualities: Unity?	Unity
Aesthetic Qualities: Pattern?	Random
Aesthetic Qualities: Seasonal Interest?	Summer (Heather & gorse)
Other Factors: Level of Human Access?	Occasional
Other Factors: Night Time Light Pollution?	Negligible (Few buildings)
Other Factors: Use of Construction Materials?	Appropriate
What materials? Give Details:	Local stone
There are attractive views...	...both in and out (In from coastal path, Holyhead, much of Holy Island & n-w Anglesey. Out across sea to Lleyrn, Anglesey coast, Isle of Man, Ireland, Lake District, etc.)
There are detractive views...	...neither in or out (No major detractors in view)
Perceptual and Other Sensory Qualities	Attractive Tranquil Exposed Threatening Remote Wild Spiritual Smell
What is the sense of place/local distinctiveness	Strong (Unique location overlooking Anglesey & sea. Wildest part of Anglesey, but close to Holyhead.)
Evaluation	
Value:	Outstanding (Isolated wild mountain rising from sea, unspoilt, distinct landmark, fine views)
Condition:	Good (Mainly managed for wildlife)
Trend:	Constant (No change anticipated)
Recommendations	
Define the key qualities that should be conserved:	Wildness, remoteness
Define the key qualities that should be enhanced:	
Define the key elements that should be conserved:	Upland moor habitats. Prehistoric & recent historic remains. Footpaths.
Define the key elements that should be enhanced:	Footpaths
Define the key elements that should be changed:	
Principal management recommendation:	Continue management with limited public access and interpretation, plus natural & historic conservation.
Tolerance To Change	
Are there any significant threats to the current integrity and condition of the visual & sensory features of the area?	Not known
Aspect Area Boundary	
To what level was this information site-surveyed?	Level 3
At 1:10,000, how much of the Aspect Area boundary is precise?	Most (Mainly follows walls)
What baseline information source was used for Aspect Area boundary mapping?	OS Raster
If OS Data was used, what was the scale?	1:25,000
What is the justification for the Aspect Area boundaries?	Boundary with fields to south. Break in slope with diffs to seaward sides.
Bibliography	
List the key sources used for this assessment	"Mon Mam Cymru - The Guide to Anglesey" by P. Steele & R. Williams 2006
Assessment	

<b>Additional Assessments</b>	
<b>Additional Comments</b>	
<b>Evaluation Matrix</b>	
<b>Evaluation Criteria: Overall Evaluation</b>	Outstanding (Isolated wild mountain rising from sea, unspoilt, distinct landmark, fine views)
<b>Justification of overall evaluation</b>	mainly outstanding
<b>Evaluation Criteria: Scenic quality</b>	Outstanding (Isolated wild craggy mountain adjacent to coast. Fine panoramic views.)
<b>Evaluation Criteria: Integrity</b>	High (No major intrusive development, but masts, former quarries, etc.)
<b>Evaluation Criteria: Character</b>	Outstanding (Very distinctive landmark.)
<b>Evaluation Criteria: Rarity</b>	Outstanding (Only high hill on Anglesey. Isolated, unlike most mountains in Wales.)
<b>Description</b>	
<b>Summary Description</b>	On the north-west end of Holy Island, this is the highest hill on Anglesey, at 220m, rising steeply from the sea. It has a distinctive rounded profile seen from many parts of western Anglesey and as a landmark on approaching Holyhead from Ireland. Most of the mountain is open rocky moorland, with wildlife and historic interest. At the base of the eastern slopes is the Breakwater Quarry, now a country park, and Gorman, its associated quarry village with scattered houses and smallholdings. Considering its close proximity to Holyhead there is surprisingly little access, making it feel remote. There are fine panoramic views across Anglesey and the sea to Lleyrn peninsula and Snowdonia in the distance. On a clear day the Lake District, Isle of Mann and Ireland can also be seen.
<b>Physical form and elements: Settlement pattern</b>	Linear
<b>Physical form and elements: Boundary type</b>	Stone Walls
<b>Recommendations</b>	
<b>Existing management</b>	Generally Appropriate
<b>Existing management remarks:</b>	Open access & country park.
<b>Monitoring</b>	
<b>Has the information ever been verified in the field?</b>	Yes (1:25000)
<b>Does this area have a special or functional link with an adjacent area?</b>	Yes (South Stack/North Stack cliffs (055). Backdrop to Holyhead (058))
<b>During which season(s) was fieldwork carried out?</b>	Late Summer
<b>Date of monitoring?</b>	2015-02-06
<b>Monitoring undertaken by</b>	Stages 1, 2 and 3 change detection, field verification and amendment completed by Bronwen Thomas, in conjunction with the planning authority. Quality Assurance completed by White Consultants.
<b>Has this record been updated following monitoring work?</b>	This record remains unchanged following monitoring work
<b>Change indicated by</b>	

**Atodiad 3 - Mapiau Sensitifrwydd a Chapasiti (paragraff 5.3.3)****Teipoleg Datblygiadau**

Teipoleg Safle	Meini Prawf Dangosol
Bychan iawn	Hyd at 10 o unedau (llai na 1 hectar fel arfer)
Bychan	11-25 o unedau (llai na 2 hectar fel arfer)
Canolig	26 - 75 (llai na 10 hectar fel arfer)
Mawr	76 - 200 (llai na 15 hectar fel arfer)
Mawr iawn	Dros 200 o unedau (dros 15 hectar fel arfer)

**Lefelau Sensiffrwydd**

Sensiffrwydd	Diffiniad
<b>Uchel iawn</b>	Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn hynod sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
<b>Uchel</b>	Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn hynod sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
<b>Canolig-Uchel</b>	Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
<b>Canolig</b>	Mae rhai o nodweddion allweddol y dirwedd yn sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
<b>Isel-Canolig</b>	Ychydig o nodweddion allweddol y dirwedd sy'n sensitif i newid yn sgil math a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.
<b>Isel</b>	Mae nodweddion allweddol y dirwedd yn gadarn ac yn llai tebygol o gael eu heffeithio'n andwyol gan fath a graddfa'r datblygiad sy'n cael ei asesu.

**Capasiti o fewn pob ACD**

ACD	Capasiti Cyffredinol Dangosol	Sensiffrwydd
<b>Gwynedd</b>		
G01	<b>Fel arfer, nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> ym mhob ardal sy'n cyfrannu at osodiad y Parc Cenedlaethol . Fodd bynnag, y tu allan i'r ardaloedd hyn, <b>efallai bod yna beth capasiti am ddatblygiadau bychan iawn i fychan</b> , sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda ar gyfer parciau carafanau sefydlog / sialé.	
G02	Fel arfer o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> .  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod <b>peth capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol.	
G03	<b>Fel arfer</b> o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> .  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod peth <b>capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac</b>	


ACD	Capasiti Cyffredinol Dangosol	Sensitifrwydd
	wedi'u dylunio'n dda, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol.	
G04	<b>Fel arfer</b> o fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol a STB), <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod <b>peth capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol.	
G05	Fel arfer o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, efallai bod <b>peth capasiti ar gyfer datblygiadau bychan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd trefol presennol.	
G06	Fel arfer, <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> (ac eithrio datblygiadau anaml, ar raddfa fechan iawn a ddylai berthnasu'n dda â'r anheddiad/adeiladau presennol).	
G07	Yn sgil nifer sylweddol y parciau carafanau sefydlog / sialé, mae <b>capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>	
G08	O fewn yr ardaloedd sy'n cyfrannu at osodiad yr ATA a'r Parc Cenedlaethol, fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau statig / sialé.</b>  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/gorchudd tir trefol cyfredol.  Ym mhob achos, <b>dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu, a'r lle o'i amgylch</b> ac fe ddylai gael ei wahanu'n glir fel bod eu heffeithiau yn parhau'n lleol ac nad oes dylanwad cyfunol / cronrus diffiniedig ar y dirwedd.	
G09	Yn sgil nifer sylweddol y parciau carafanau sefydlog / sialé, ar y cyd â'r sensitifrwydd uwch cyffredinol, <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>	
G10	Fel arfer o fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol), <b>nid oes capasiti fel arfer ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/gorchudd tir trefol cyfredol.	

ACD	Capasiti Cyffredinol Dangosol	Sensitifrwydd
	Ym mhob achos, <b>dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu a'r lle o'i amgylch</b> a dylai gael ei wahanu'n glir fel bod eu heffaith yn parhau'n lleol ac nad oes dylanwad cyfunol/cronnus diffiniedig ar y dirwedd.	
G11	O fewn ardaloedd sy'n cyfrannu at olygfa a gosodiad y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol (CDLIE), fel arfer <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> .  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/gorchudd tir trefol cyfredol.	
G12	<b>Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> drwy lawer o'r ACD hwn, er bod capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé bychan iawn i fychan, sydd wedi'u dylunio a'u gosod yn dda i'r de / de-ddwyrain o'r ACD.	
G13	Yn sgil y nifer sylweddol o barciau carafanau sefydlog / sialé, fel arfer mae <b>capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé</b> .	
G14	<b>Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> (ac eithrio datblygiadau bychan iawn anaml sydd wedi'u gosod yn sensitif a'u dylunio'n dda, a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig/trefol presennol).	
G15	Yn sgil y niferoedd sylweddol o barciau carafanau sefydlog / sialé, fel arfer mae <b>capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé</b> .	
G16	Fel arfer o fewn yr ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad a gosodiad y Parc Cenedlaethol, STB a'r AHNE), <b>nid oes capasiti ar gyfer datblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> .  Y tu allan i'r ardaloedd hyn, fe all fod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fechan sydd wedi gosod yn sensitif a'i ddylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.	
<b>Ynys Môn</b>		
A01	<b>Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé</b> o fewn yr ACD hon.	
A02	O fewn yr AHNE, ac ardaloedd sy'n cyfrannu at ei osodiad, fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé</b> .  Y tu allan i'r AHNE gall fod <b>capasiti cyfyngedig iawn am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog/sialé</b> , os yw'r rheini'n digwydd yn anaml iawn, ar raddfa fychan iawn, ac yn cael eu lleoli'n dda.  Ym mhob achos, <b>dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu, a'r lle o'i amgylch</b> a dylid eu gwahanu'n glir fel bod eu heffeithiau'n parhau'n lleol ac nid oes dylanwad cyfunol/cronnus diffiniedig ar y dirwedd.	




ACD	Capasiti Cyffredinol Dangosol	Sensitifrwydd
A03	Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau neu estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé o fewn yr ACD hon.	
A04	Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau neu estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé o fewn yr ACD hon.	
A05	O fewn yr AHNE a'r AGD (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u gosod yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.	
A06	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u dylunio'n dda.</b>	
A07	Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé .	
A08	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan</b> , yn enwedig pan allai'r rhain berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.	
A09	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE, efallai y bydd <b>capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ac estyniadau pellach ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n dda i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Ym mhob achos, <b>dylai datblygiadau osgoi'r ymyl arfordirol sydd heb ei ddatblygu, a'r lle o'i amgylch.</b>	
A10	Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé o fewn yr ACD hon.	
A11	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n dda.</b>	
A12	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.</b>	


ACD	Capasiti Cyffredinol Dangosol	Sensitifrwydd
	Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan sydd wedi'u lleoli'n sensitif</b> ac a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.	
A13	<b>Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau neu estyniadau i barciau carafanau sefydlog / sialé o fewn yr ACD hon.</b>	
A14	<b>Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.</b>	
A15	<b>Fel arfer, nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé o fewn yr ACD hon.</b>	
A16	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>capasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan</b> , a ddylai berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.	
A17	O fewn yr AHNE a'r ATA (a phob ardal sy'n cyfrannu at eu gosodiad), fel arfer <b>nid oes capasiti am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b>  Y tu allan i'r AHNE a'r ATA, ystyrir bod <b>peth capasiti am ddatblygiadau ar raddfa fechan iawn i fychan, ac/neu gapasiti cyfyngedig am ddatblygiadau ar raddfa fwy</b> sydd wedi'u dylunio'n dda a'u gosod yn sensitif, a ddylai ym mhob achos berthnasu'n dda i'r amgylchedd adeiledig / gorchudd tir trefol presennol.	
A18	Er y gallai llai o sensitifrwydd i ddatblygiadau parciau carafanau sefydlog / sialé awgrymu capasiti uwch yn yr AGD hon, gall fod <b>capasiti cyfyngedig iawn, os o gwbl, am ddatblygiadau ac estyniadau pellach i barciau carafanau sefydlog / sialé.</b> Mae hyn yn sgil maint cymharol fychan yr AGD ynghyd â swm y datblygiadau modern sydd yn dylanwadu'n barod ar y dirwedd (gan gynnwys Maes Awyr RAF y Fali a nifer o barciau carafanau sefydlog / sialé eraill ar raddfa fawr) .	


















#### Atodiad 4 Ttempl Cynllun Busnes (paragraff 4.6.8)

Enw'r Awdur (gan gynnwys ei gymhwyster perthnasol) Enw'r Busnes
1. Enw'r Busnes Manylion Cyswllt y Busnes
2. Crynodeb Gweithredol
(Awgrymir y dylech gwblhau'r adran hon ar ôl i chi gwblhau adrannau eraill y Cynllun Busnes).
3. Cyflwyniad a Throsolwg o'r Busnes
(Darparwch ddisgrifiad cryno o'r busnes, pwy sy'n gysylltiedig ag ef, yr hyn yr ydych am ei gyflawni a sut y mesurir llwyddiant. Cofiwch gynnwys disgrifiad o'r math o lety y byddwch yn ei gynnig ac eglurwch p'un a oes gennych Bwynt Gwerthu Unigryw (USP)).

4. Y farchnad a chystadleuwyr - beth yw'r ddarpariaeth gyfredol? Beth yw'r galw?
<p>(Rhowch drosolwg o'r farchnad y byddwch yn gweithio ynddi, gan gynnwys dadansoddiad o'ch cystadleuwyr, ac eglurwch sut byddwch yn cystadlu â hwy. Sut mae'r busnes yn berthnasol i strategaethau twristiaeth lleol, rhanbarthol a chenedlaethol? Rhowch fanylion ynghylch eich marchnad darged, anghenion cwsmeriaid a'ch dull o fodloni'r anghenion hynny).</p>
5. Strategaeth Gwerthu a Marchnata
<p>(Eglurwch eich strategaeth farchnata a beth sy'n eich gwneud chi'n arbennig. Pwy yw eich cwsmeriaid? A yw'r busnes yn debygol o greu cyfleoedd gwaith lleol a chyfrannu at yr economi leol? Cofiwch gynnwys eich strategaeth brisio a'ch rhagamcanion meddiannaeth am yr unedau gwyliau ynghyd ag unrhyw dystiolaeth gefnogi sy'n ymwneud â'r strategaeth farchnata).</p>
6. Gwybodaeth Ariannol

(Dylid cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â swm yr ecwiti sydd ei angen er mwyn i'r busnes ddod yn weithredol h.y. beth yw cost yr adeiladu/trosi. Yn yr adran hon, dylid darparu gwybodaeth hefyd sy'n ymwneud â'r rhagolygon elw wythnosol/misol (gan gynnwys y gost am redeg gwasanaethau, yswiriant, cyflogau, ac ati, y busnes o ddydd i ddydd). Bydd yn arfer dda cynnwys nifer o ragamcanion, h.y. yn seiliedig ar gyfradd meddiannaeth o 25%, 50%, 75% a 100% a thros gyfnod o amser (awgrymir rhagolygon am gyfnod o 5 mlynedd neu hyd nes y daw'r busnes yn hyfyw yn fasnachol).

#### 7. Atodiadau

(Dylid darparu'r holl ddogfennau sy'n cefnogi'r Cynllun Busnes. Gallai hyn gynnwys, ymchwil i'r farchnad, llythyrau bwriad neu orchmynion penodol sy'n ymwneud â'r busnes, geirda, portffolio o fusnesau blaenorol, dogfennau cyfreithiol ac enghreifftiau o wybodaeth farchnata. Dylech sicrhau bod yr atodiadau wedi'u cyfeirnoddi yn y cynllun busnes).

**Atodiad 5 - Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol (rhan 5.4)**

PDZ	Ffiniau Polisi CRhT2			Polisiau a Ffafir		
	MAN	PU	Enw'r Polisi	Sylwadau'r Polisi	2025	2055
11	22	PU11.4	Arfordir Ro Wen	Byddai hyn yn golygu adleoli perchnogion eiddo a busnesau o'r Friog	HTL	MR
		PU11.5	Tafod Ro Wen		MR	MR
		PU11.6	Arglawdd y Friog		HTL	MR
	24	PU11.15	Gogledd y Bermo	Gallai hyn gynnwys adleoli eiddo	HTL	MR
12	27	PU12.10	Pont Briwet a Cheunant Dwryd	Cynnal y dollffordd a'r rheilffordd	NAI	NAI
		PU12.11	Aber Dwryd Uchod	Rheoli amddiffynfeydd lleol i gynnal y priffyrdd	MR	NAI
		PU12.12	Pentir Penrhyndeudraeth	Efallai na fydd hyn yn rhwystro rheoli amddiffynfeydd lleol yn breifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol	NAI	NAI
	28	PU12.15	Bae Samson		NAI	NAI
		PU12.16	Morfa Bychan	Cynnal amddiffynfa dwyni naturiol gyda rheoli mynediad. Datblygu cynllun rheoli hirdymor ar gyfer addasu yn ardal y Parc Gwyliau ac efallai gofyniad i reoli perygl llifogydd i'r pentref yn y dyfodol.	MR	MR
	29	PU12.17	Traethellau Cricieth	Ystyried y posibilrwydd o symud y rheilffordd	HTL	MR
		PU12.19	Pentir y Castell		NAI	NAI
	30	PU12.21	Y Dryll		NAI	NAI
		PU12.22	Dwyfor	Ystyried yr effaith ar y rheilffordd	MR	NAI
		PU12.23	Clogwyni Glanllynau	Cynnal amlygiad daearegol	NAI	NAI
		PU12.24	Afon Wen	Pryderon ynglŷn â chynaliadwyedd hirdymor. Ystyried symud y rheilffordd tua'r tir.	HTL	MR
PU12.25		Dwyrain Penychain	Efallai na fydd hyn yn rhwystro rheoli amddiffynfeydd lleol yn breifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol	NAI	NAI	
13	31	PU13.1	Penychain a rhan orllewinol y bae		NAI	NAI
		PU13.2	Abererch	Yn amodol ar ystyriaeth genedlaethol o'r rheilffordd	HTL	MR
		PU13.7	Y Cwrs Golff	Astudiaeth fanwl i ganiatáu trawsnewidiad rhwng Traeth Crugan a Thraeth y De	HTL	MR
		PU13.8	Traeth Crugan	Bwriad i greu ceg aber newydd i Afon Penrhos a rheoli amddiffynfa newydd i graidd Pwllheli	HTL	MR
		PU13.9	Llanbedrog	Ni fyddai hyn yn rhwystro rheoli ardal y llithrfa'n lleol.	NAI	NAI
	32	PU13.10	Mynydd Tir Cwmwd		NAI	NAI
		PU13.11	Y Warren	Rheoli dilyniadol o'r draethlin yn cilio er mwyn cynnal y traeth	HTL	MR

PDZ	Ffiniau Polisi CRhT2			Polisiâu a Ffafir		
	MAN	PU	Enw'r Polisi	Sylwadau'r Polisi	2025	2055
		PU13.12	Abersoch	Ystyried agor Afon Soch i lifogydd llanwol a chynllunio defnydd o'r geg yn y dyfodol	HTL	MR
		PU13.14	Canol Borth Fawr	Cyfle i addasu	HTL	MR
		PU13.15	Machroes	Ni fydd hyn yn rhwystro rheoli'r ffordd yn lleol.	HTL	MR
	33	PU13.16	Pentir Machroes		NAI	NAI
		PU13.17	Ynysoedd Tudwal		NAI	NAI
		PU13.18	Porth Ceiriad		NAI	NAI
		PU13.19	Pentir Cilan		NAI	NAI
14	34	PU14.1	Gorllewin Mynydd Cilan		NAI	NAI
		PU14.2	Dwyrain Porth Neigwl	Ailaddasu lleoli a rheoli'r twyni	NAI	NAI
		PU14.3	Canol Porth Neigwl		NAI	NAI
		PU14.4	Gorllewin Porth Neigwl	Adlinio neu golli'r ffordd yn y dyfodol	NAI	NAI
		PU14.5	Rhiw		NAI	NAI
	35	PU14.6	Ysgo		NAI	NAI
	36	PU14.7	Dwyrain Aberdaron	Ystyried sut mae'r trawsnewid rhwng glan môr Pentref Aberdaron a'r uned hon i ganiatáu addasu.	NAI	NAI
		PU14.8	Pentref Aberdaron a'r llethr arfordirol.	Datblygu Adlunio Rheoledig mewn fframwaith ar gyfer datblygu'r pentref yn gynaliadwy. Rhoi sylw i faterion cludiant.	HTL	MR
		PU14.9	Uwchmynydd		NAI	NAI
	37	PU14.10	Ynys Enlli	Ystyried addasu'r lanfa	NAI	NAI
38	PU14.11	Gogledd-orllewin Llŷn	Ni fyddai rheoli lleol yn cael ei rwystro i ganiatáu addasu defnydd o fewn egwyddor o ganiatáu datblygiad naturiol yr arfordir.	NAI	NAI	
15	39	PU15.1	Carreg Ddu i Drwyn y Tal	Polisi trosfwaol i osod y gwaelodlin ar gyfer y parth.	NAI	NAI
		PU15.2	Porth Dinllaen, gan gynnwys Morfa Nefyn	Bydd hyn angen cynllunio manwl ar gyfer addasu ym Mhorth Dinllaen ac yn y fynedfa i Forfa Nefyn.	HTL	MR
	40	PU15.4	Trwyn y Tal i Drwyn Maen Dylan	Polisi trosfwaol i osod y gwaelodlin ar gyfer y parth.	NAI	NAI
		PU15.5	Trefor	Byddai angen cynllun lleol manwl i gynnal gwerth mwynderol yr ardal.	MR	MR
		PU15.6	Aberdesach	Rheolaeth leol o'r estyllen ac allyriadau afon er mwyn cynnal amddiffynfa naturiol yr ardal.	MR	MR
16	41	PU16.1	Pontllyfni	Ni fyddai hyn yn gwahardd cynnal amddiffynfa preifat yn ystod y cyfnod polisi cyntaf. Adolygu'r bygythiad llifogydd i'r briffordd a'r gwaith trin dŵr budr	NAI	NAI
		PU16.2	Pontllyfni i Ddinas Dinlle	Cynnal y cyflenwad gwaddod i'r gogledd	NAI	NAI



PDZ	Ffiniau Polisi CRhT2			Polisiâu a Ffafir		
	MAN	PU	Enw'r Polisi	Sylwadau'r Polisi	2025	2055
		PU16.3	Dinas Dinlle	Rheoli'r trobwynt rhwng Penrhyn Dinas Dinlle a'r arfordir agored gyda'r bwriad o reoli perygl llifogydd yn y pentref ar dir uwch.	HTL	MR
		PU16.4	Morfa Dinlle	Datblygu rheolaeth o i lan hunangynhaliol y twyni. Ni fyddai hyn yn benodol yn atal rhag rheoli'r cylch lleol yng Nghaer Belan yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	MR	MR
		PU16.5	Y Foryd	Rheoli amddiffynfeydd rhag llifogydd i ddechrau gyda'r bwriad o ddychwelyd y bae i gyfundrefn sy'n gweithredu'n lleol.	HTL	MR
		PU16.6	Traeth Abermenai	Byddai hyn yn cynnwys archwilio mwy ar berygl llifogydd a allai fod yn Nwyrn gyda'r bwriad o ddarparu amddiffynfa.	NAI	NAI
		PU16.7	Traethell Abermenai a Thraeth Llanddwyn	Dileu'r coedwigaeth er mwyn cael lled i'r arfordir addasu.	NAI	NAI
	42	PU16.8	Coedwig Niwbwrch	Gwaredu coedwigaeth er mwyn cael digon o led ar gyfer addasu arfordirol.	NAI	NAI
		PU16.10	Clogwyni Bodowen		NAI	NAI
	43	PU16.13	Waterloo Port i Lan y Môr, Y Felinheli	Ni fyddai hyn yn rhwystro rheoli lleol trwy gyllid preifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	NAI	NAI
		PU16.15	Glan-y-mor Lodge i'r Bont		NAI	NAI
		PU16.16	O'r Bont i Barras		NAI	NAI
		PU16.17	Barras i Dafarn y Forwyn	Bwriad i gynnal mynediad ond gydag angen i addasu i fwy o berygl llifogydd yn y dyfodol.	HTL	MR
	44	PU16.18	Bae Llanfair		NAI	NAI
		PU16.20	Pont Cadnant i Benrhyn Safnas	Ni fyddai hyn yn rhwystro gwaith preifat yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	NAI	NAI
		PU16.23	Drumlin		NAI	NAI
		PU16.25	Llanfaes i Benmon	Efallai y bydd angen symud y lôn	NAI	NAI
	45	PU16.26	O'r Bont i'r Garth		NAI	NAI
		PU16.30	Trwyn Penrhyn		NAI	NAI
46	PU16.31	Afon Ogwen i Fadryn		NAI	NAI	
	PU16.32	Afon Aber	Addasu'r amddiffynfeydd i gynnal drifft gwaddod naturiol gyda bwriad hirdymor o warchod llwybr cludiant rhag llifogydd.	MR	MR	
17	47	PU17.1	Pentir Trwyn y Parc		NAI	NAI
		PU17.2	Traeth mawr	Cynnal gweithrediad naturiol y gyfundrefn twyni a'r aber	NAI	NAI
		PU17.3	Aberffraw	Addasu'r ffordd a'r cei i gynnal gweithrediad naturiol yr aber	HTL	MR

PDZ	Ffiniau Polisi CRhT2			Polisiâu a Ffafir		
	MAN	PU	Enw'r Polisi	Sylwadau'r Polisi	2025	2055
		PU17.4	Clogwyni Aberffraw	Efallai na fydd hyn yn rhwystro rheolaeth briodol o'r ffordd ym Mhorth Trecastell	NAI	NAI
	48	PU17.5	Porth Nobla i Rosneigr	Ni fyddai hyn yn rhwystro rheoli amddiffynfeydd yng Ngherrig Defaid yn y ddau gyfnod cyntaf.	MR	MR
		PU17.8	Traeth Crigyll a Thraeth Cymyran	Adleoli Cyfleusterau i RAF Valley	NAI	NAI
	49	PU17.9	Polisi cyffredinol i'r De-orllewin	Caiff rheolaeth baeau lleol eu diffinio isod.	MR	MR
		PU17.10	Borthwen	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat leol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	MR	MR
		PU17.14	Arfordir Gogledd-orllewin		NAI	NAI
	50	PU17.16	Bae Penrhos	Archwilio tebygolrwydd perygl llifogydd	MR	MR
		PU17.17	Pentir Penrhos	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat leol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	NAI	NAI
	51	PU17.19	Polisi cyffredinol i'r Môr Mewndirol	Amddiffynfa leol i gynnal Ponrhydybont ac amddiffynfa leol rhag llifogydd yn y gefnwlad	MR	MR
	52	PU17.21	Newlands	Agwedd gydgyssylltiedig at arafu erydiad	MR	MR
		PU17.22	Afon Alaw	Cynllunio hirdymor i leihau perygl llifogydd gweddilliol	MR	MR
		PU17.23	Traeth Gribin i Drwyn Cliperau	Ni fyddai hyn yn rhwystro amddiffynfa breifat leol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	MR	MR
18	53	PU18.1	Twyn Cliperau i Bentir Wylfa	Polisi trosfwaol ar gyfer ardal gyfan, gyda pholisi lleol isod	NAI	NAI
		PU18.2	Porth Tywynmawr	Addasiad lleol	NAI	NAI
		PU18.3	Porth Trefadog	Addasiad lleol	MR	NAI
		PU18.4	Porth Trwyn		NAI	NAI
		PU18.5	Porth Swtan		NAI	NAI
		PU18.6	Bae a Phentir Cemlyn	Angen datblygu cynllun rheoli manwl	MR	NAI
	54	PU18.8	Gorllewin Cemaes		NAI	NAI
		PU18.12	Clogwyni Pig y Barcud		NAI	NAI
	55	PU18.13	Trwyn y Parc i Drwyn Cwmryd	Polisi trosfwaol ar gyfer ardal gyfan, gyda pholisi lleol isod	NAI	NAI
		PU18.14	Gwaith Brics Borth Wen	Archwilio'n gritigol yr angen i gynnal amddiffynfa i gefnogi nodwedd hanesyddol allweddol	MR	MR
		PU18.16	Trwyn Costog	Datblygu fframwaith cynllunio i leihau'r angen ar gyfer amddiffynfa	MR	MR
		PU18.18	Porth Elian	Symud y ffordd fel bo angen.	HTL	MR
	56	PU19.1	Cyffredinol	Polisi trosfwaol ar gyfer ardal gyfan, gyda pholisi lleol isod	NAI	NAI

PDZ	Ffiniau Polisi CRhT2			Polisiâu a Ffafrir		
	MAN	PU	Enw'r Polisi	Sylwadau'r Polisi	2025	2055
		PU19.2	Portobello	Rheoli preifat lleol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol.	MR	MR
		PU19.3	Traeth Dulas	Caniatáu datblygiad naturiol yr aber	NAI	NAI
	57	PU19.4	Porth Lydan	Yn hollol benodol ni fyddai hyn yn rhwystro gwaith lleol yn amodol ar gymeradwyaeth arferol	MR	MR
		PU19.6	Moelfre i Draeth Bychan		NAI	NAI
		PU19.7	Canol Traeth Bychan	Rheoli lleol tuag at ganiatáu datblygiad naturiol y traeth	MR	NAI
		PU19.8	De Traeth Bychan		NAI	NAI
	58	PU19.9	Clogwyni Borth Wen		NAI	NAI
		PU19.11	Trwyn Dwlban		NAI	NAI
		PU19.13	Croesfryn		NAI	NAI
		PU19.14	Afon Nodwydd	Datblygu cynllun rheoli lleol	MR	MR
		PU19.15	Traeth Llanddona		NAI	NAI
		PU19.16	Clogwyni Traeth Penmon		NAI	NAI
		PU19.17	Ynys Seiriol		NAI	NAI

Allwedd:

PDZ = Parthau Datblygu Polisi

MAN = Ardaloedd Rheoli

PU = Uned Polisi

HTL = Dal y Llinell

NAI = Dim Ymyriad Gweithredol

MR = Adlunio Rheoledig

# Eitem 7

<b>Pwyllgor</b>	<b>PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>25 Chwefror 2021</b>
<b>Teitl</b>	<b>Gwaith y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y pan demig</b>
<b>Aelod Cabinet</b>	<b>Cynghorydd Gareth W Griffith</b>
<b>Awdur</b>	<b>Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Amgylchedd</b>
<b>Pwrpas</b>	<b>Egluro gwaith y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd gan gynnwys y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu yn ystod y pan demig</b>

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae cyfnod y pan demig wedi amlygu pwysigrwydd y gwaith mae'r Cyngor, drwy'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, yn ei wneud i warchod iechyd ein trigolion ac i gefnogi busnesau'r ardal. Pwrpas yr adroddiad yma yw egluro i'r Pwyllgor Craffu ac i gael eu sylwadau, ar sut mae gwaith y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wedi gorfod addasu er mwyn rhoi blaenoriaeth i ymateb i'r pan demig a'r sefyllfa o argyfwng iechyd cyhoeddus.
- 1.2 Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at faterion sydd wedi eu codi gan y Cabinet o ran yr angen i'r Cyngor fod yn sicrhau gwydnwch yn ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ac ymateb yr Adran Amgylchedd i hyn.

## 2. Y CYFNOD CYN Y PAN DEMIG

- 2.1 Cyn y pan demig roedd 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn yr Adran sef:

**Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwydded**  
**Gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid / Bwyd Anifeiliaid**  
**Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch (yn cynnwys afiechydon heintus)**

- 2.2 Mae meysydd gwaith dydd i ddydd y **Gwasanaeth Rheoli Llygredd a Thrwyddedu**, yn gyffredinol ymwneud a gwarchod y cyhoedd mewn perthynas ag amrediad o faterion amgylcheddol ac iechyd ac yn cynnwys:
- Ymateb i faterion llygru'r aer, tir, dyfroedd a llygredd sŵn
  - Archwilio busnesau sydd gyda prosesau diwydiannol
  - Asesu diogelwch dwr yfed o gyflenwadau preifat ac ansawdd dwr ymdrochi
  - Delio gyda materion trwyddedu alcohol, adloniant, gamblo, cerbydau, gyrrwyd a gweithredwyr tacsis, siopau anifeiliaid, safleoedd carafanau, delwyr metel sgrap
  - Trefnu angladdau lle nad oes teuluoedd
- 2.3 Mae meysydd gwaith dydd i ddydd **Gwasanaeth Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid / Bwyd Anifeiliaid**, yn ymwneud a hyrwyddo, cynnal a sicrhau amgylchedd teg a chyfiawn tra'n gwarchod buddiannau trigolion a busnesau Gwynedd, yn ogystal â gwarchod lles anifeiliaid a'r cyhoedd drwy sicrhau fod bwyd anifeiliaid yn cwrdd â safonau penodol. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- sicrhau masnachu teg, diogelwch nwyddau ac atal gwerthu nwyddau a chyfyngiadau oed
- codi ymwybyddiaeth o sgamiau a benthyca arian anghyfreithlon
- delio gyda materion cyfraith gwerthwyr tai a disgrifiadau eiddo
- trwyddedu a gorfodi amodau petroliwm a ffrwydron/tân gwyllt
- cynnal archwiliadau rhaglunedig ac ymatebol lles anifeiliaid a bwyd anifeiliaid
- pwysau a mesurau - sicrhau fod cwsmeriaid yn derbyn y swm cywir o nwyddau maent yn eu prynu
- delio gyda marchnadoedd a ffeiriau

2.4 Mae meysydd gwaith dydd i ddydd **Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch (yn cynnwys afiechydon heintus)**, yn cynnwys gwaith o archwiliadau rhaglunedig ac ymatebol er mwyn:

- Sicrhau fod bwyd a diod gaiff ei werthu sy'n cael ei gynhyrchu, ei storio, ei ddsbarthu, ei drin neu ei ddefnyddio yn y Sir yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y defnyddiwr ac yn cydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a labelu.
- Atal marwolaethau, anafiadau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â manau gwaith
- Gwarchod trigolion ac ymwelwyr i Wynedd rhag afiechydon heintus a chemegau niweidiol
- Cynorthwyo a chefnogi busnesau Gwynedd i gwrdd â'r gofynion statudol sy'n ofynnol ohonynt.

### 3. Y CYFNOD ERS CYCHWYN Y PAN DEMIG

3.1 Yn sgil y pan demig mae dyletswyddau Gwarchod y Cyhoedd yn ymwneud ac afiechydon heintus, yn amlwg wedi dod un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, ac felly mae Gwasanaeth newydd wedi ei greu i gynnal y gwaith perthnasol sef **Gwasanaeth Profi , Orlhain a Diogelu – Cofid.**

3.2 Sefydlwyd y Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu (TTP) ym mis Mai 2020, a daeth yn weithredol ar 1 Mehefin 2020. Mae'r Gwasanaeth bellach yn cyflogi 103 o gydweithwyr. Amcanion y Gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu yng Ngwynedd yw:

- Lleihau lledaeniad COFID-19 ar draws ein cymunedau drwy gefnogi pobl sydd wedi'u heintio gyda'r feirws i ynysu yn ystod eu cyfnod heintus;
- Adnabod y bobl sydd wedi bod mewn cyswllt ag achos positif o COFID-19 a'u cefnogi i ynysu hyd nes i'r symptomau neu gyfnod magu'r haint fynd heibio;
- Cefnogi pobl sydd â symptomau i gael mynediad at brawf COFID-19;
- Gweithio â phartneriaid arbenigol ym maes rheoli risgiau i reoli unrhyw risgiau i bobl sy'n ynysu ynghyd â chymunedau a busnesau ehangach yng Ngwynedd.

3.3 Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys y swyddogaethau a ganlyn:

- **Swyddogion Orlhain**, sef y pwynt cyswllt cychwynnol ar gyfer unigolyn sydd wedi profi'n bositif am COFID-19. Bydd y swyddog orlhain yn trafod y symptomau, dyddiad dechrau'r symptomau, y bobl sydd wedi bod mewn cyswllt â hwy, adnabod unrhyw risgiau, a gweithio gyda'r partner cefnogol perthnasol i reoli'r risgiau hyn.

- **Cynghorwyr**, sy'n gyfrifol am olrhain pobl sydd wedi bod mewn cyswllt â'r achos positif. Byddant yn eu cefnogi i ynysu am 10 diwrnod.
- **Goruchwylwyr Cefnogi Busnes**, sy'n cefnogi'r swyddogion olrhain a'r cynghorwyr yn eu swyddogaethau o safbwynt lles a materion technegol, yn rheoli llif yr achosion/cysylltiadau ar ein systemau TG, yn sicrhau ansawdd eu gwaith ac yn rheoli rhyngwyneb y Gwasanaeth TTP gydag adrannau eraill yng Nghyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- **Rheolwr Busnes**, sy'n monitro ac yn rheoli perfformiad gweithredol y fim.
- **Pennaeth Gwasanaeth**, sef y Swyddog Arweiniol TTP ar gyfer Gwynedd

3.4 Mae'r Gwasanaeth yn gyfuniad o gydweithwyr Cyngor Gwynedd sydd wedi'u hadleoli i weithio'n benodol ar TTP, cydweithwyr Cyngor Gwynedd (gyda swyddi eraill) sy'n gweithio fel staff banc i ddarparu gwytnwch ychwanegol, a chydweithwyr sydd wedi'u cyflogi gan Gyngor Sir y Fflint (awdurdod lletya TTP yng Ngogledd Cymru).

3.5 Ers mis Mehefin 2020, mae TTP yng Ngwynedd wedi ymateb i:

- 8049 o achosion COVID-19 yng Ngwynedd, Cyfanswm rhwng 01/06/20-31/12/20
- 1420 o achosion (Index cases) COVID-19 wedi eu hadnabod, 01/06/20-31/12/20
- 6513 o gysylltiadau i Index Cases wedi creu
- Ar gyfartaledd, yng Ngwynedd mae gan achos positif 'Index Case' 4.67 o gysylltiadau

3.6 Mae gan y Gwasanaeth rwydwaith cryf o bartneriaid, sy'n cynnwys:


- Y 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd sy'n cydweithio i reoli'r risgiau mewn busnesau, tafarndai/caffis/bwytai, rhwydweithiau trafniadaeth;
- Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, sy'n cydweithio i reoli'r risgiau i breswylwyr o bob oedran pan fyddant yn ynysu, yn ogystal â'r risgiau yn ein cartrefi gofal;
- Gwasanaeth Addysg Cyngor Gwynedd sy'n cydweithio i reoli'r risgiau yn ein hysgolion;
- Tîm Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd sy'n cydweithio i gefnogi a rheoli ein staff, a'r staff a gyflogir gan Sir y Fflint;
- Tîm Cyllid Cyngor Gwynedd, sy'n cydweithio â Chyngor Sir y Fflint (sef yr awdurdod lletya) i reoli'r gyllideb ar gyfer TTP;
- Holl Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, sy'n cydweithio ar achosion traws-ffiniol, ac yn cynnig cymorth yn ôl y gofyn ar adegau prysur iawn;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n cydweithio i reoli a hysbysu am unrhyw risgiau neu gymhlethdodau meddygol;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cydweithio i ddarparu canllawiau strategol a'r systemau gweithredol a ddefnyddir gennym;
- Llywodraeth Cymru, sy'n arwain TTP i Gymru.

3.7 Yn ogystal ag ymdrin ag achosion yng Ngwynedd, mae'r Gwasanaeth yn ymgymryd â gwaith sylweddol ar ran awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru – a gelwir hyn yn gyd-gymorth. Ers 1 Mehefin 2020, darparwyd y gefnogaeth a ganlyn ledled Cymru i awdurdodau lleol eraill:

- Oddeutu 550 achosion positif COVID-19
- Oddeutu 370 o gysylltiadau i achosion positif


- 3.8 Mae hyblygrwydd y model TTP yn ein galluogi i fod yn fwy gwydn ledled Cymru gyfan, i leihau lledaeniad y firws a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.
- 3.9 Yn ogystal â chreu'r angen i greu Gwasanaeth newydd, mae'r pan demig wedi cael effaith uniongyrchol ar waith dydd i ddydd y 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd y cyfeirir at yn rhan 2 o'r adroddiad.
- 3.10 Mae'r mwyafrif o'r dyletswyddau o ran gorfodi rheoliadau newydd coronafeirws wedi bod yn cael eu gweithredu gan swyddogion Gwarchod y Cyhoedd. Felly, ers mis Mawrth 2020, mewn ymateb i'r argyfwng pan demig Cofid, mae'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wedi gorfod addasu a blaenoriaethu, er mwyn cyfrannu at yr ymdrech o reoli lledaeniad yr haint fel a ganlyn.
- 3.11 Mae swyddogion y Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch wedi bod yn darparu arweiniad i gartrefi preswyl, busnesau, ysgolion, colegau a'r brifysgol ac unigolion, mewn ymateb i achosion o Cofid, gan baratoi cyngor arbenigol ar fesurau hylendid a chanllawiau hunan ynysu. Swyddogion y Gwasanaeth Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, gan bod eu dyletswyddau arferol yn ymwneud a delio gyda afiechydon heintus, aeth i'r afael ar dasg a'r her cychwynnol o sefydlu'r Gwasanaeth Profi, Orlhain a Darganfod.
- 3.12 Mae swyddogion y Gwasanaethau Safonau Masnach a Llygredd a Thrwyddedu, wedi bod yn ymateb i geisiadau am gyngor gan fusnesau, a chwynion gan y cyhoedd mewn perthynas â'r rheoliadau rheoli lledaeniad Cofid, gan gymryd camau gorfodaeth pan mae hynny yn briodol er mwyn cadw pobl yn ddiogel. Mae swyddogion wedi cynnal archwiliadau ac ymgyrchoedd cefnogi, cynghori a monitro mewn amryw o eiddo a sectorau busnes gwahanol e.e. archfarchnadoedd, canolfannau garddio, siopau trin gwallt, y diwydiant tacsis ayb ac wedi gweithio yn agos gyda asiantaethau eraill yn ôl yr angen, er enghraifft gyda'r Heddlu wrth gynnal ymweliadau rhagweithiol i dafarndai a bwytai dros gyfnod prysur yr Haf.
- 3.13 Mae'r Gwasanaethau hefyd wedi bod yn ymateb i gynnydd mewn cwynion sŵn domestig a chwynion am losgi sbwriel gardd, sydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod llawer yn gweithio o adref.
- 3.14 Mae'r siart isod yn dangos y nifer o geisiadau am Wasanaeth a dderbyniwyd gan y 3 Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystod yr un cyfnodau yn 2020 a 2019, sydd yn rhoi cyd-destun ar gyfer yr effaith ar y math o waith sydd wedi bod yn cael ei wneud gan y Gwasanaethau.

**Siart i gymharu'r nifer o geisiadau am wasanaeth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill - 31 Rhagfyr yn 2019 a 1 Ebrill i 31 o Ragfyr 2020**



3.15 Mae ymateb y gwasanaethau i'r argyfwng cofid wedi golygu blaenoriaethu'r gwaith yma dros amryw o ddyletswyddau creiddiol - megis y rhaglenni archwiliadau diogelwch bwyd, hylendid bwyd anifeiliaid, archwiliadau lles anifeiliaid, samplu dyfroedd yfed preifat, archwiliadau prosesau diwydiannol, ymweliadau safonau masnach megis i atal sgamiau ac ati. Mae cyfnodau clo cenedlaethol a rheoliadau pellhau cymdeithasol wedi golygu nad yw wedi bod yn bosib cynnal archwiliadau mewn amryw o fusnesau dros y cyfnod yn ogystal, er bod rhai archwiliadau wedi eu cynnal ar sail risg. Mae'r siart isod yn cymharu'r archwiliadau yn ystod yr un cyfnod yn 2020 a 2019.

**Siart yn cymharu'r nifer o archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 1 Ebrill - 31 Rhagfyr yn 2019 ac yna yn 2020**





- 3.16 Ers cychwyn y pan demig mae'r Adran wedi bod yn arwain ac yn cyfrannu tuag at waith gyda partneriaid yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ymwneud ag atal lledaeniad y firws ac mae hyn parhau.

#### **4. GWYDNWCH GWASANAETHAU GWARCHOD Y CYHOEDD Y CYNGOR**

- 4.1 Mae cyfnod y pan demig wedi amlygu'r rôl allweddol sydd gan y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i warchod iechyd trigolion Gwynedd ac yn yr achos yma i atal lledaeniad y firws. Mae hefyd wedi amlygu effaith blynyddoedd o doriadau ar wydnwch y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, ac mae hwn yn fater mae'r Cabinet wedi gofyn i'r Adran ymateb iddo.
- 4.2 Mae'r Adran eisoes wedi cychwyn mynd i'r afael a gwydnwch yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn y byr dymor yn ogystal â'r hir dymor , ac wedi cael cefnogaeth y Cabinet i apwyntio 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol, am gyfnod hyd at diwedd Mawrth 2022 gydag arian grant yn cyfrannu tuag at y costau.
- 4.3 Pwrpas y 3 Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn ystod y byr dymor, yw i fod yn bresenoldeb gweladwy yn ein cymunedau a'n trefi yn enwedig wrth i gyfyngiadau ddechrau llacio, sydd yn cynghori a chynorthwyo busnesau a thrigolion ar faterion Cofid, yn ogystal ag adrodd yn ôl ar faterion gall fod yn codi ar y pryd. Y bwriad yw eu bod yn dod yn wynebau cyfarwydd yn ein cymunedau ac yn gyswllt uniongyrchol rhwng y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd (ac Adrannau eraill y Cyngor lle'n ymarferol) a thrigolion a busnesau Gwynedd. Gall hyn wedyn fod yn cynorthwyo'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i fod yn canolbwyntio mwy ar faterion sydd yn fwy cymhleth a chynhennus eu natur.
- 4.4 Y bwriad yw defnyddio'r cyfnod dros dro fel cyfle i fuddsoddi yn y Swyddogion yma yn ystod y byr dymor, ond gyda llygad ar yr hir dymor. Felly, yn ogystal â chyfnod hyfforddi dechreuol (fydd yn cael ei gynnal gan y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd) er mwyn paratoi'r unigolion ar gyfer mynd allan i'r trefi a'r cymunedau, bydd rhaglen o hyfforddiant fwy cynhwysfawr yn cael ei lunio ar gyfer y cyfnod cyflawn gyda hyn yn cynnwys:
- Hyfforddiant a phrofiadau o'r gwaith Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) ac o weithio mewn meysydd gwaith amrywiol ar draws y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd
  - Clustnodi swyddogion o'r Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i fentora'r Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol
  - Yr uchod i gynnwys cysgodi swyddogion Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn eu gwaith dydd i ddydd
- 4.5 Bydd penodi'r swyddi dros dro felly nid yn unig yn cyfrannu tuag y gwaith yn ystod y pan demig, ond hefyd yn gyfle i geisio datblygu gyrfaedd i'r unigolion mewn meysydd Gwarchod y Cyhoedd, gall fod yn cynorthwyo'r Cyngor i greu Gwasanaethau mwy gwydn ar gyfer yr hir dymor. Mae profiadau diweddar wedi dangos ei bod yn anodd ceisio recriwtio swyddogion ar gyfer y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd, yn sgil yr angen am gymwysterau, hyfforddiant a phrofiadau perthnasol a gall y rhaglen hyfforddiant fod yn ddatrysiaid ar gyfer hyn wrth recriwtio ar gyfer yr hir dymor.
- 4.6 Mae'r Swyddogion hyn wedi eu hapwyntio yn ddiweddar a disgwylir y bydd angen cyfnod rhesymol o hyfforddiant dechreuol a chyfarwyddo gyda threfniadau'r Cyngor, cyn i'r swyddogion newydd fod mewn sefyllfa i fod yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n llawn.

4.7 Bydd yr Adran yn monitro'r sefyllfa dros y misoedd nesaf, o ran y darpariaeth gwasanaeth a'r capasiti staff sydd ei angen i fod yn sicrhau gwydnwch y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd i'r dyfodol,

## **5. ARGYMHELLION**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu dderbyn yr adroddiad a chyflwyno unrhyw sylwadau.